

ECO'R WYDDFA

Rhif 116

Gorffennaf-Awst 1986

Pris: 20c

TWROG – TEYRNGED

Braint i mi oedd cael bod yn aelod o dîm golygyddol yr Eco dros gyfnod o flynyddoedd. Braint oedd cael ymuno ag Arwel a Twrog yn y gwaith, gan ffurfio tîm newydd wedyn wrth i Dafydd ymuno â ni yn lle Arwel. Wrth edrych yn ôl yr hyn a gofias yw'r cydweithio hapus a brwd, y tynnu coes didrugaredd a'r jôcs di-ri' wrth osod, a'r boddhad aruthrol o weld yr Eco yn tyfu'n rym yn y fro, gyda phobl yn parchu ei safbwynt ac yn troi ato am arweiniad, newyddion a difyrrwch. Mae'r Eco bellach yn rhan annatod o fywyd yr ardal. Mae llawer o'r diolch am hyn yn mynd i Arwel ac aelodau cynnar y tîm, ond gwn yn iawn o brofiad hir gyda'r papur bod ein dyled i Twrog (sydd bellach wedi gorffen ei swydd fel Golygydd Newyddion Cyffredinol) yn ddyled aruthrol, ac ar un ystyr yn ddyled anfesuradwy.

I aelodau'r tîm mae'r Eco yn mynd yn rhan o'u bywyd – bron iawn yn rhan o'r teulu. Yn wir, gellir dweud bod yr Eco'n gallu rheoli'ch bywyd. 'Rwyf yn credu i'r tri ohonom ni weithio'n galed iawn fel tîm golygyddol, ond Twrog oedd yr un oedd bob amser yn fodlon gwneud y gwaith ychwanegol, fel mynd i lawr i Wasg Gwynedd ar y nos Lun, y nos Fawrth ac yn aml ar y



nos Fercher hefyd yn ystod yr wythnos olaf cyn cyhoeddi'r papur er mwyn gorffen gosod. Twrog oedd dyn 'yr ail filltir' ac ar ôl blynyddoedd o wasanaeth diflino dyma gyfle iddo yntau fwynhau ychydig o'r amser hamdden y mae'r gweddill ohonom yn ei gymryd yn ganiataol.

Mae'n mynd i fod yn od meddwl am yr Eco heb Twrog! Yn sicr mae'n mynd i fod yn od i Twrog heb yr Eco! Diolch iddo am ei lafur – a pheidiwch â phoeni, wnawn ni ddim gadael iddo grwydro'n rhy bell o gorlan yr Eco! Mae rhai fel Twrog yn rhy brin i adael i hynny ddigwydd.

Tony Elliott

TYMOR Y CARNIFALAU



I'CH ATGOFFA: Dyma dymor y gwyliau ar ein gwarthaf unwaith eto a gweithwyr yr Eco'n cael seibiant hyd ddiwedd Awst. Ond mae'n sicr fod pob math o weithgareddau'n cael eu cynnal yn y fro dros yr wythnosau nesaf; felly, os am adroddiad arnynt, apeliwn arnoch CHWI ddarllenwyr i gadw cofnod o'r hyn sy'n digwydd yn eich pentref chwi. Mae hyd yn oed y golygyddion, y ffotograffwyr a'r gohebwy'r pentrefi angen eu gwyliau. Pan ddaw rhifyn Medi o'r wasg waeth heb â chwyno os na fydd adroddiad am ddigwyddiad arbennig yn eich pentref chwi ynddo.

YMDDIHEURIAD

Ein bwriad y mis hwn oedd llongyfarch pawb o'r fro a fu mor llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Ogwen, drwy gynnwys eu lluniau i gyd ar y dudalen flaen. Bu'r ffotograffwyr wrthi'n brysur yn tynnu lluniau o'r holl enillwyr, OND – ar y funud olaf, a'r papur yn cael ei osod, darganfuwyd fod nam ar y broses datgelu a difethwyd yr holl luniau. Roedd y ffilmiau a ddifethwyd hefyd yn cynnwys rhai 'digwyddiadau' o wahanol bentrefi'r fro, ac felly dyna'r rheswm fod ambell i bentref yn llwm o luniau y mis hwn. Er hynny gwnaeth y ffotograffwyr ymdrech arbennig i ail-dynnu llawer o'r lluniau ac y mae'r rheini wedi eu cynnwys.

Dyma'r tro cyntaf i anffawd o'r fath ddigwydd ers dros saith mlynedd, felly, cynghorwn chwi i beidio â threfnu dim byd arbennig ar gyfer mis Mehefin 1993!


ANTUR WAUNFAWR

Bydd cynllun unigryw sy'n cael ei noddi gan gymdeithas pentref yn cael ei agor yn swyddogol yn Waunfawr brynhawn Gwener, Gorffennaf 5, 1985, am 2.30 o'r gloch.

Mae nifer o bobl ieuanc araf eu meddwl o ardal Arfon, dan hyfforddiant Gweinyddwr a Chynorthwyr, eisoes ar waith yn clirio safle a thrawsnewid hen adeiladau a hen siop yn yr ardal. Y bwriad yw adeiladu tŷ ar eu cyfer, sefydlu diwydiant a gwerthu'r cynnyrch yn y siop.

Mae 200 o bobl Waunfawr (allan o boblogaeth o 750) yn aelodau o gwmni "Antur Waunfawr" ac mae'r fenter yn baros yn gysail ar gyfer datblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r wlad.

Mae "Antur Waunfawr" yn derbyn cefnogaeth y Swyddfa Gymreig, Cyngor Sir Gwynedd ac Awdurdod Iechyd Gwynedd.



Bydd Mr. Wyn Roberts, A.S., Is-Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Mr. Dafydd Wigley, A.S., yn bresennol yn yr agoriad swyddogol.

CREFFTWYR CYWRAIN



Mae tad a mab o Benisarwaun, Len Porter a Mark, sy'n 14 oed, yn cydweithio a fenter newydd sy'n mynd â'u bryd a llawer o'u hamser hamdden. Eu diddordeb yw gwneud ffyn o wahanol fathau gan gelfio'r pen ar ffurf anifail neu bysgodyn. Ac yn sgîl y diddordeb anarferol hwn daeth llwyddiant.

Yn ôl Len, esgus i osgoi'r teledu gan fynd allan i'r sied i weithio oedd hyn i gyd ar y dechrau ond erbyn hyn mae Len wedi ennill cryn enwogrwydd yn sgîl y gwaith. Ar ôl cipio gwobrau yn Sioe Glasinfryn ac Eisteddfod Caernarfon daeth llwyddiant ysgubol iddo yn ddiweddar yn Sioe Dyffryn Ogwen. Enillodd Len a'i ffyn 4 dosbarth cyntaf a 3 ail ddosbarth, ynghyd â chwpan Moorhouse (Len yw'r cyntaf i gipio Cwpan Moorhouse).

Sut mae Len yn mynd ati i wneud ffon? Bydd yn cychwyn rhai o wreiddyn.

Ar ôl torri blocyn o'r gwreiddyn, rhaid ei adael i sychu am flwyddyn. Ar ôl hynny mae Mark yn ymuno â'i dad yn y gwaith. Mark sydd yn paratoi'r model allan o glai i fod yn batrwm i Len ar gyfer pen y ffon. Daw Len o hyd i'r gwreiddiau ar ei deithiau dros y caeau a thrwy'r wlad. Mae'n gwneud y gwaith cerfio gyda chynion cerfio. Mae un ffon yn cymryd rhwng un a dau fis, yn dibynnu ar faint o amser hamdden sydd ganddo ar y pryd.

Parhad ar dud. 20

ECO'R WYDDFA

RHIF 116
GORFFENNAF
ac AWST 1986

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION
CYFFREDINOL AC ERTHYGLAU:
Dafydd Whiteside Thomas,
Bron-y-Nant, Pontrhyallt, Llanrug.
(C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION:
Amranwen Lynch, Gwyddfor,
Penisarwaun (Llanberis 870575).

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, 9 Sycharth, Penisarwaun.
(Llanberis 872407)

TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)
DYDDIADUR Y MIS: Mrs. Jane
Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Peny Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
(871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes
Eilian.

LLANBERIS:
LLANRUG: Mrs Gillian Morris,
Annedd Wen, Tal-y-bont.
(Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts,
Cerrig-y-drudion, Nant Peris.

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
AWST 28ain

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
AWST 19eg
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

YR URDD YN DIOLCH AM LETY

Annwyl Gydweithwyr
Dymuna swyddogion y Pwyllgor
Llety ddiolch i chi am eich
cydweithrediad ardderchog a'ch
amynedd di-ball yn ystod y misoedd
y buom yn trefnu croeso i ymwelwyr
yr Urdd yn yr ardal. Bu llwyddiant
ar ein hymdrechion ac aeth ein
trefniadau rhagddynt yn llyfn a
didramgydd yn ystod yr wythnos.
Roedd yn anorffod fod mân
broblemau tu hwnt i reolaeth y
pwyllgor wedi codi mewn rhai
ardaloedd, ac rydym yn ddiolchgar
iawn i chwi am eu setlo mewn ysbryd
mor rasol.

Yr eiddoch yn gywir
Gwen Morris Jones,
Alwenna Puw,
Marian Lloyd Davies,
Gwen Tudur Jones.

SYLWEDYDD YN ATEB EI FEIRNIAD

Annwyl Olygydd,

Diolch i W. A. Jones
am ei sylwadau ar fy erthygl yn
rhifyn Mai o'r Eco. Prysraf i
hysbysu W.A. fy mod i'n digwydd
bod yn un o'r bobl hynny sydd yn
mynychu'r capel a'r dafarn, ac yn
cael mwynhad yn y ddau le. Ofnaf
nad wyfyn cytuno a'i gred "fod fawr
ddim o werth wedi deillio o'r dafarn
yn hanes Cymru". Mae toreth o
enghreifftiau ar gael o gampweithiau
llynyddol a ddaeth yn sgil dylanwad
y ddiod ar yr awen pan oedd
honno'n styfnig! Ond nid cerdded ar
hyd y llwybr hwnnw yw bwriad hyn
o eiriau.

'Rwyf yn cytuno â sylwadau W.A.
ynghlŷn â dyled aruthrol yr iaith
Gymraeg i fodolaeth y capel a'r
eglwys a'r gymdeithas lenyddol
a.y.b., ond carwn wybod gan W.A.
pam fod y Cymry hynny yn ein
gwahanol bentrefi sydd bob amser
mor bybyr tros bopeth Cymreig mor
gyndyn o genfogi a chynnal ein
capeli a'n heglwys? Mae hwn yn
gwestiwn a ofynnir yn aml, yn
enwedig felly ar adeg etholiadau
gwleidyddol, pan welir carfan wrth
garfan o'r Cymry hyn yn gweithio'n
egniol dros Gymreictod ond byth yn
tywyllu na chapel nac eglwys nac fel
y dywedais yn cefnogi y
cymdeithasau diwylliannol yn ein
bröydd. Pam tybed?

A ydynt yn wahanol i W.A. a
minnau - yn gyndyn o gydnabod fod
bodolaeth yr iaith ynghlwm â'r
pethau hyn, a'i bod yn ddyletswydd
ar bob gwir Gymro a Chymraes eu
cynnal?

Ond i fynd yn ôl at fy erthygl
wreiddiol - i mi 'does dim amheuaeth
fod newid cymdeithasol mawr yn
digwydd yn ein pentrefi, a minnau'r
Cymry yn ymddangos fel pe nad
ydym yn malio dim. Mae hynny'n
boen dirfawr i mi. Mewn faint o'n
pentrefi ni, yn nalgylch 'Eco'r
Wyddfa', y mae'r Cymry yn y
lleiafrif erbyn hyn?

Sylwedydd

WIGWAM '86

Annwyl Olygydd,
Ar benwythnos 18 i 20 Gorffennaf
eleni, cynhelir "WIGWAM '86" yn
Fferm Tŷ Du, Parc, Y Bala. Gŵyl
Gristnogol yw "WIGWAM" ac
eleni fydd yr ail flwyddyn iddi gael ei
chynnal.

Mae'r Wyl yn rhoi cyfle i gael
tipyn o hwyl, i ddysgu ac i addoli, ac
mae croeso i rai o bob oed. Cawn
dipyn o hwyl ar y nos Wener gyda
Noson Lawen a Thwmpath Dawns a
chysle i bawb ddod i nabod ei gilydd.
Drwy'r dydd Sadwrn, wedi cychwyn
gyda Gweddi a Mawl, bydd yna
ddewis o weithgareddau mewn tair
gwahanol pabell. Mae'r amrywiaeth
yn cynnig y cyfle i ddysgu ynghlŷn â'r
bywyd Cristnogol (e.e. y Prifathro
Tudur Jones ar 'Y Cristion - Halen
neu Bupur?'), agweddau at
broblemau cyfoes (e.e. diweithdra,
alcohol, a chyffuriau) dysgu am
Addoliad (gyda'r Parch Gwilym
Ceiriog Evans) a defnydd o
gerddoriaeth, drama a dawns,
ynghyd â nifer o bynciau eraill.

Bydd digon o bethau i'r plant
hefyd gydag oriau arbennig ar eu
cyfer gyda gemau a phob math o
bethau eraill, a thrwy gydol y
penwythnos bydd gwahanol
gymdeithasau a mudiadau a
stondinau ar agor.

Pan ddaw nos Sadwrn, bydd y
tempo yn newid eto gyda Drama a
Chyngerdd Roc, ac i'r rhai fydd a
digon o egni, fideos yn cael eu
chwarae yn un o'r pebyll hyd oriau
man y bore. Ar y Bore Sul bydd
uchafbwynt yr Wyl, sef yr Addoliad,
lle y gobeithiwn y bydd popeth a
ddysgwyd gennym yn ein
cynorthwyo i droi at Dduw i'w foli
Ef.

Diolch i chwi am ganiatau gofod i
ni roi blas o'r Wyl ac i estyn
gwahoddiad - Croeso cynnes i bawb
fyn ddod. Bydd Maes Pebyll a
Charafanau ar dir Fferm Tŷ Du ar
gyfer y penwythnos, a bydd
Meithrinfa ar gael i famau a'u
babanod. Mae e'n costio cofiwch,
ond dim llawer - £8 am docyn
penwythnos a £5 am docyn dydd. Os
am ragor o fanylion, cysylltwch ag
Emlyn a Lowri Dole yn Neuadd
Carmel, Pontlliw, Gorllewin
Morgannwg neu Susan
Rice-Hughes, 30 Rhes Tan y Graig,
Glanadda, Bangor.

Pob bendith,
Trefnwyr WIGWAM '86

GWENER-SUL GORFFENNAF 18fed-20fed

WIGWAM '86
Dewch am y Penwythnos, Hefo'ch Pabell.
Penwythnos o ddysgu, addoli
a hwyl Cristnogol i bawb o bob oed
RHAGLEN yn cynnwys
NOS WENER 8pm - Noson Lawen
10pm - Twmpath Dawns
SADWRN 9.30am - 6.30pm
Seminara, sgysia, fideos, drama, gemau,
mewn tri pabell gwahanol
7.30pm - Cyngerdd Roc
SUL 10am - 12am Addoliad
CARMEL CYFLEUTTERAU AR Y NANT
PEBYLL, STONDINAU BYD, MEITHRINFA AC
ARDAU COSTEYD AMRNIOL.
TOCYN PENWYTHNOS 05 - TOCYN DIOD 05
Manylion pellach gan Emlyn a Lowri Dole,
Neuadd Carmel, Neol Carmel, Pontlliw, G.O. Morgannwg, neu
Susan Rice-Hughes, 30 Rhes Tan y Graig, Glanadda, Bangor.

GWYBODAETH AM AWDUR O LANBERIS

Annwyl Olygydd

'Rwy'n awyddus iawn i ddod o hyd i
wybodaeth am Evan Lloyd Jones,
Llanberis, y dyfarnwyd traethawd
o'i eiddo yn gyd-fuddugol ag eiddo
William Davies o Dalybont,
Caeredigion yn Eisteddfod
Genedlaethol 1883, a gynhaliwyd y
flwyddyn honno yng Nghaerdydd.
Testun y traethawd yw
'Llenyddiaeth Gyfnodol Cymru yn
ystod y Ganrif Bresennol', a
chyhoeddwyd rhannau ohono yn
Nhrasfodion yr Eisteddfod
Genedlaethol ym 1884 (tt.217-236).
Beirniaid y gystadleuaeth oedd J.
Rhys Kilsby Jones a Jonathan
Reynolds (Nathan Dyfed). Ofer fu
pob ymgais i ddod o hyd i
wybodaeth am Evan Lloyd Jones
hyd yn hyn ond gobeithiaf y gall
rhywrai o'ch darllenwyr fy
nghynorthwyo. Buaswn yn
ddiolchgar iawn am unrhyw
fanylion am ei gefndir, ei yrfa a'i
deulu, a buasai dod o hyd i ddyddiad
ei farw yn fonws ychwanegol. Os oes
gan rai o'ch darllenwyr wybodaeth
i'w chynnig gellir cysylltu â mi yn y
cyfeiriad isod.

Yn gywir,
Dr. Huw Walters,
Llyfrgellydd Cynorthwyol,
Adran Llyfrau Printiedig,
Llyfrgell Genedlaethol Cymru,
Aberystwyth.

MEITHRINFA I'R GYMRAEG

Annwyl Gyfaill,

Rydym ni, Cylch Mam a'i Phlentyn
Dinorwig, yn ceisio trefnu Cwrs
WLPAN gyda Meithrinfa i
ddechrau mis Medi, 1986. Cynhelir
y cwrs yn Ninorwig, ger Deiniolen,
dau fore'r wythnos am ddwy awr a
hanner a bydd yn agored i rieni eraill
yn ogystal ac aelodau'r Cylch.

Y mae gennym adeilad sydd yn
addas, a chefnogaeth Mudiad
Ysgolion Meithrin a'r Adran
Efrydiau Allanol, Coleg y Brifysgol,
Bangor. Er hynny, mae yna wir
angen cymorth ariannol, tegannau a
gwirfoddolwyr er mwyn y Feithrinfa
sydd yn rhan hanfodol o'r cynllun, a
rydym yn apelio atoch am eich
cefnogaeth.

Teimlwn fod hi'n bwysig cynnal
cwrs fel hyn gyda Meithrinfa yn
ardal Caernarfon-Bangor er mwyn i
rieni gyda phlant dan oed ysgol gael
cyfle i ddysgu Cymraeg. Nid oes
arnom eisiau methu oherwydd
diffyg arian neu gynorthwywyr i'r
Feithrinfa.

Pe bai hi'n bosib i chi helpu mewn
unrhyw ffordd a fuasech mor
garedig â rhoi gwybod i ni yn fuan er
mwyn i ni hysbysebu'r cwrs mewn
pryd ar gyfer mis Medi.

Os ydych am ragor o wybodaeth,
neu os ydych yn adnabod unrhyw un
a fyddai'n awyddus i ymuno â ni i
ddysgu Cymraeg cysylltwch â fi,
Sarah Anderson, Llanberis 872
367, neu Elwyn Hughes, Coleg y
Brifysgol, Bangor 351151, Est 494,
neu Lesley Conran, Bangor
355183.

Diolch am eich sylw.

Yr eiddoch yn gywir,
Sarah Anderson,
Pen yr Allt,
Fachwen,
Caernarfon.

CYLCHOEDD CINIO

Annwyl Olygydd

Mae'n draddodiadol i gynnal Cinio Cenedlaethol y Cylchoedd Cinio wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol, ond, am nad oes rhestr o'r Cylchoedd yn bodoli, mae'n anodd i'r Cylch yn ardal yr Eisteddfod gysylltu â'r Cylchoedd eraill i wahodd cynrychiolaeth i'r Cinio. Hefyd, nid yw'n bosibl i aelodau un Cylch i ymuno â Chylch pan fyddent mewn ardal arall, oherwydd nad yw'r manylion am y cyfarfodydd wedi eu cyhoeddi.

Awgrymodd Syr Alun Talfan Davies, y siaradwr gwâdd yng Nghinio Cylchoedd Cinio yn Eisteddfod y Rhyl fod rhywun yn mynd ati i gasglu manylion am yr holl Gylchoedd, er mwyn hybu mwy o gysylltiad rhyngddynt. Er mwyn dechrau ar y fenter, cytunais i fynd ati i gasglu'r wybodaeth a'i ddosbarthu.

Oherwydd nad oedd llawer o wybodaeth wedi ei gasglu, rhaid oedd defnyddio'r cyfryngau i geisio cysylltu â'r Cylchoedd. Felly, anfonais apêl trwy'r BBC a'r papurau cenedlaethol rai misoedd yn ôl, ond siomedig oedd yr ymateb - dim ond tua hanner dwsin o Gylchoedd sydd wedi cysylltu â mi hyd yn hyn.

'Roedd cefnogaeth gref i awgrym Syr Alun fod angen casglu'r wybodaeth hon, a'r unig fodd i geisio cwblhau'r gwaith yw trwy apêl fel hon. Felly, os ydych yn adnabod Swyddog o unrhyw Gylch Cinio Cymraeg, a fydddech mor garedig a thynnu ei sylw at y llythyr hwn, rhag ofn nad yw wedi gweld y cais.

Y wybodaeth fydd angen arnafam bob cylch yw:-

- (i) Enw'r Cylch
- (ii) Enw a chyfeiriad yr Ysgrifennydd,
- (iii) Man cyfarfod,
- (iv) Pa nosweithiau y cyfarfu'r Cylch, a
- (v) Unrhyw wybodaeth arbennig ynglŷn â'r Cylch.

Oherwydd mai gwaith gwirfoddol yw hwn, byddaf yn ddiolchgar i dderbyn amlwn (tua 9 x 4 modfedd) gyda stamp oddi wrth bob Cylch, er mwyn i mi ddychwelyd y wybodaeth pan fyddaf wedi gorffen y rhestr.

Mae'n bosibl bod swyddogion y Cylchoedd sydd wedi ymateb eisoes wedi newid. Os ydynt, byddaf yn ddiolchgar derbyn y manylion newydd, er mwyn cael y rhestr yn gyflawn.

Gobeithiaf gael y rhestr yn barod erbyn y cinio wythnos yr Eisteddfod yn Abergwaun.

Diolchaf ymlaen llaw am eich cydweithrediad, ac edrychaf ymlaen i glywed oddi wrth bob Cylch, mor fuan ag sydd bosib, er mwyn sicrhau llwyddiant y fenter.

Yn gywir iawn,
Robin J. Brown,
Argoed,
Llangrannog,
Dyfed.

DRAENOG



Glywsoch chi am y ferch aeth ar daith beics noddedig efo 'tea cosy' am y sêr? Mam ofn iddi gael oerfel mewn lle cas!

YMWELIAD Â MYNWENT FILWROL

Annwyl Ddarllenwyr,

ymweliad â mynwent filwrol Ym mis Medi (1986) bydd fy ngwraif a minnau yn mynd ar bererindod i "Sangro River War Cemetery, Ortona, Italy", i ymweld â bedd fy nhad, y diweddar Evan Williams, 50 Pentre Helen, Deiniolen. Mae yna 2,646 o feddau yn y fynwent.

Os oes yna filwyr o fro yr Eco wedi eu claddu yn y fynwent a'u perthnasau eisiau i mi ymweld a thynnu llun o'r bedd, anfonwch fanylion o ble mae'r bedd (rhifac yn y blaen) a'ch dymuniadau. Cysylltwch â fi drwy lythyr neu ar y ffôn (0533 545051).

Yr ieddoch yn gywir,
Rol Williams,
Nuffield House,
Barclay St.,
Leicester.

APÊL I'R CYN-DDISGYBLION

Annwyl Olygydd,

Mae cyn ddisgyblion YSGOL Y DDERWEN Caerfyrddin yn byw ym mhob rhan o Gymru erbyn hyn ac rwy'n sicr fe fyddan nhw'n llawen iawn i glywed bod adeilad newydd sbon wedi ei godi ar hen safle'r ysgol a bod 265 o blant ar gofrestr yr ysgol.

Fe agorir yr ysgol newydd yn swyddogol ar Orffennaf 1af, 1986 ac i ddathlu'r achlysur cyhoeddwyd llyfr ar hanes yr ysgol. Teitl y llyfr yw "O'r Fesen Derwen a Dyf", ac mae'n llawn o hanesion diddorol am yr ysgol o 1955 i 1985. Mae bron hanner cant o luniau o'r gwahanol gofnodau yn y gyfrol ac mae'n werth ei phrynu. Pris y gyfrol yw £3.

Gan mai nifer cyfyngedig o lyfrau sydd wedi eu hargraffu gwell fydd ichi gysylltu ar unwaith â'r ysgol er mwyn sicrhau eich copi. Anfonwch at y Prifathro, Ysgol y Dderwen, Caerfyrddin. (Caerfyrddin 235598)

Yr eiddoch yn gywir iawn,
Wyn Davies
(Cadeirydd y Pwyllgor Rhieni)
Ysgol y Dderwen,
Caerfyrddin.

YR HEN DYDDYNNWR

(wedi symud i fyw mewn tref)

Oes o lafur, oes o waith
Nid yw'n gadael dim ond craith,
Gwargamu dyn a sigo'i ysbryd,
Byrhau ei gam o hyd yn fyglyd,
Dim ar ôl o'i ifanc freuddwyd.
Ei symud wnaed lle i adael llonydd
I lawr i'r dref o'i dawel fynydd.
Amhosib' iddo grwydro'i heolydd.
Pawb yn edrych, neb yn gweled
Mor wan yr oedd 'rôl bywyd caled.
Dim i'w ddisgwyl ond ei fedd
Yn heddi ei dawel fynydd.

E. Williams
Llwyncoed, Cwm-y-glo

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

BWS MINI I GLWB 'P.H.A.B.'



Aelodau, cyfeillion a Phwyllgor Clwb PHAB Caernarfon a'r ylch yn derbyn y Bws Mini y tu allan i'r Ganolfan ym Maesincla, Caernarfon.

RHODD Y 'RAG'

Clwb PHAB Caernarfon a'r Cylch Mae clwb arbennig yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Dydd Maesincla, Caernarfon ar nos Wener. Clwb i blant ac ieuencid yr ardal sydd yn fethedig gorfforol a'u ffrindiau abal yw Clwb P.H.A.B. (Physically Handicapped and Able bodied). Cychwynodd mis Ionawr 1985 ac o'r amser hynny casglwyd £3,000 o bunnoedd tuag at gael bws mini i gario'r plant i'r clwb neu ar dripiâu ac yn y blaen. Y nôd oedd casglu £9,000 ac felly fe ofynnwyd i Rag Prifysgol Aberystwyth am gyfraniad tuag at y gronfa, ond nid cyfraniad ariannol gafwyd, ond bws newydd sydd yn werth £10,000. Mae yr arian a gasglwyd yn barod yn cael ei ddefnyddio i roi lifft ar gefn y bws ar gyfer rhai mewn cadair olwyn.

Mae ein diolch am help ariannol i fudiadau lleol, cynghorau Cymuned a llawer o unigolion yr ardal. Mae'r



Aelodau o Bwyllgor Rag Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth yn cyflwyno Bws Mini arbennig i gynrychiolwyr Clwb PHAB Caernarfon a'r cylch.

gwaith o godi arian yn mynd ymlaen yn ddiddiwedd wrth gwrs, i redeg y bws ac i brynu offer ar gyfer y Clwb.

Os oes gwir ddiddordeb i ymuno gan unrhyw un, yn blant, ieuencid neu oedolion, cysylltwch am fanylion pellach gydag unrhyw un o'r canlynol:-

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Llanrug; Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont, Llanrug; Megan Jones, 21 Dolafon, Cwm y Glo.

DATGANIAD GAN Y GOLYGYDDION

Yn ddiweddar achoswyd pryder i ni fel golygyddion oherwydd i rai unigolion honni fod eitemau o newyddion ac erthyglau a anfonwyd i'r papur yn cael eu gwrthod gennym oherwydd nad oedd yr awduron yn aelodau o blaid wleidyddol arbennig.

Hoffem ddatgan yn bendant fod croeso i unrhyw un, o ba blaid bynnag, anfon erthygl neu erthyglau i'w cysidro er cyhoeddi. Ar y llaw arall, cadwn ninnau yr hawl i olygu neu i wrthod erthygl neu eitem os nad ydyw yn ein barn ni yn addas i'w chyhoeddi yn 'Eco'r Wyddfa.'

Mae'n amlwg hefyd fod rhai unigolion dan y camargraff fod golygyddion a swyddogion yr 'Eco' yn derbyn cyflog bras am eu gwaith cysylltiedig â'r papur. Unwaith eto, gwahoddwn chwi i ddarllen mantolen ariannol yr 'Eco' (rhifyn Mai, 1986). Buan y sylweddolwch mai gwaith gwirfoddol yw'r cyfan.

I'r rhai ohonoch sy'n parhau yn amheus o bolisi amhleidiol a pholisi gwirfoddol y papur, yna gwahoddwn chwi'n gynnes iawn i bresenoli eich hunain yng Nghyfarfod Blynnyddol yr 'Eco' pan gaiff ei gynnal nesaf.

HENADURIAETH ARFON

PWYLLGOR MAWL

CYNHELIR

CYMANFA GANU

Yng Nghapel Coch, Llanberis

Nos Sul, Gorffennaf 6, 1986 am 6 o'r gloch

Arweinydd: Mr T. Gwynn Jones, BA, LTCL, FRSA, Llanfairfechan

Organydd: Mr Hugh Peris Pritchard, Capel Coch
Llywydd: Y Parch Michael L. Thomas, Bangor

Dewisir y tonau allan o'r Detholiad 1985-86.

Gwneir casgliad gwyn yn ystod yr oedfa.

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

CYMEITHAS Y CHWIORYDD

Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd yn Festri Pontrythallt pnawn lau, Mehefin 19eg, a llywyddwyd gan Mrs Williams, Bod Fair. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mrs Gillian Morris, a chafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs N Pritchard, Rhyl (Glanfa gynt) ar ei thaith i Rwsia. Diolchwyd iddi gan y llywydd. Rhoddwyd y te gan Mrs C. Owen, Hafan Elan Mrs G Pritchard, Cwm-y-Glo. Bydd y cyfarfod nesaf ar Orffennag 17.

LLETY'R URDD

Diolch yn fawr iawn i bawb fu mor garedig â rhoi llety i'r plant fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Bu dros 80 o blant o Landybie, Trefforest a Chwm Rhymini yn aros yn y pentref. Derbyniwyd nifer o lythyrau i'r ysgol yn diolch am y croeso a ddangoswyd i'r plant.

Y SEINDORF

Ar y 24ain o'r mis diwethaf trefnwyd Snwcer nodedig yn y Neuadd Goffa gan ieuenctid y Seindorf fel rhan o'r ymgyrch i godi arian tuag at y gŵt o gystadlu yn Llundain.

Ar ddechrau'r mis cafwyd Arwerthiant Cist Car lwyddianus iawn ym muan yr Ysgol Gynradd.

Ar y dydd Mawrth canlynol trefnwyd Helfa Drysor i'r Seindorf gan Mr Clifford Williams a Mr Arwyn Roberts. Ymunodd tua 80 ar yr Helfa, a chafwyd pryd o fwyd ar ddiwedd y daith yng Ngwesty 'Lake View', Llanberis. Yr enillwyr oedd Mr Gwyndaf Hughes a'r teulu, gyda theulu Mr Gwyndaf Jones yn dod yn ail.

Mae'r Seindorf ieuenctid yn ymarfer yn awr ar gyfer eu Cyngerdd yn Ysgol Brynrefail ar Orffennaf 18fed, gyda Seindorf Chwŷth Ysgol Dinas Brân, Llangollen.

Dymunir pob llwyddiant i Mr Gareth Hughes yn ei yrfa newydd yn yr Heddlu.

Dymuna Jane E Jones, Gladwyn, ar ran ei thaulu ddatgan eu diolch am y rhoddion anrhydeddus a dderbyniwyd er côf am ei thad y diweddar Mr R T Jones, Fferm Penygroes, Llanfechell, Ynys Môn.

Derbyniwyd cyfanswm o £4£6.30c a gyflwynwyd i 'Gronfa'r Feddygfa' yng Nghemaes. Prynwyd 'Audiometer', peiriant i hwyluso clyw plant.

ILEOSTOMY ASSOCIATION (N. WALES DIVISION)

Dyma enillwyr y Raffl a dynwyd yn Ysbyty Glan Clwyd, Mehefin 14eg, 1986.

1af - Mrs Dilys Jones, Mathafarn,

Bodffordd; 2il - Davies, Garden Centre, Llanbedr; 3ydd - E Roberts, Bodawel, Llangefni; 4ydd Jodi Fishwick, St. Asaph; 5ed - Andrew Jones, 19 Charles St, Rhosywaen; 6ed - Ann Strech, 33 Bro Gwilym, Cefn, Wrecsam; 7ed - B Belles, 9 Oak Drive, Leeswood; 8ed - A Coppack, Llanferres; 9ed - Graig Bach, Bodffordd.

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth.

DIOLCH

Dymuna Mrs Elen Williams, Moelwyn, Hafan Elan ddiolch i gymdogion, ffrindiau a theulu am yr anrhegion a'r llu o gardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 84 oed ar Fehefin 14eg. Dymunwn ninnau benblwydd hapus iawn i Mrs Williams.

CYMANFA

Cafwyd Cymanfa lwyddiannus iawn yn Eglwys Llanrug nos Sul, Mehefin 22ain dan nawdd Pwyllgor y Carnifal. Yr arweinydd oedd Mr Irfon Roberts, Y Groeslon, a'r Organyddes oedd Mrs Gwyneth Dawe. Cymerwyd y rhannau rhagarweiniol a rhoddwyd y fendith gan y Parch Aled Jones Williams.

MODEL O LANRUG



Rhiannon, merch Peter a Nia Lloyd Hughes, Graianfryn oedd y model ar gyfer y llun hwn. Defnyddiwyd y llun ar gyfer stori fer o'r enw 'Witchcraft' yn rhifyn mis Mai o'r cylchgrawn 'Woman's Realm'

LLONGYFARCHIADAU

I Mr Kenny McDonald, 23 Bryn

Moelyn, Llanrug, sydd unwaith eto wedi ennill y wobr gyntaf yn ei ddosbarth, yng Nghystadleuaeth Gyrrwr Lori y Flwyddyn yn New Brighton. Mae Kenny yn gweithio i gwmni Shell, ac wedi ennill y gystadleuaeth yma fwy nag unwaith, ond y tro hwn enillodd un gwpan yn ychwanegol, sef y Dreifar 'Articulated Tanker' gorau. Daeth yn ail yn y gystadleuaeth gyfan ac enillodd dlws Rheolau'r Ffordd Fawr am wybodaeth dechnegol. Mae yn awr yn edrych ymlaen at y gystadleuaeth derfynol fydd yn cael ei chynnal yn Bedford ym mis Medi. Pob lwc iddo yno.

MERCHED Y WAWR

Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog, oedd cyrchfan Merched y Wawr, Cangen Llanrug ar eu trip blynyddol, ar nos Fawrth Mehefin 17eg. Teithwyd yno yn hwylus mewn pryd i gael cymorth yr arbenigwraig, Gwyneth Tomos, a roddodd amlinelliad cryno i ni o hanes y plas, o'i sefydlu tua 1857 gan Syr Love Jones-Parry, Sgweiar Madryn yn Llŷn. Er iddo fwriadu y plas fel hafan glan môr iddo ef a'i deulu, ni chafodd wedi ei orffen. Bu ei weddw, Elisabeth, yn mynychu y tŷ ond ni chysgodd noson yno erioed.

Sefydlwyd Oriel Ddarluniau yno gan y perchennog newydd, Solomon Andrews, gŵr busnes o Gaerdydd, oedd yn gyfrifol am ddatblygu Pwllheli fel tref wyliau. Ffurfiodd gwmni tramiau i redeg i Lanbedrog (Carreg yr Imbill). Bu bri mawr ar ddechrau'r ganrif hon ar y lein geffylau oedd yn cylchynu Bae Pwllheli, ond wedi'r Rhyfel Cyntaf darfu o fodolaeth.

Solomon Andrews ddaeth a ffasiynau oes Victoria i Bwllheli, gan adeiladu llawer o'r tai aros ar lan y môr a galw un stryd yn Cardiff Road.

Cafwyd mwyniant neilltuol yn gwrando ar Gwyneth Tomos yn egluro cefndir ac yn datgan gwerthfawrogiad o luniau y gwahanol feistri celf. I gwblhau y noson cafwyd pryd blasus yn y Rock House Hotel, Llannedrog. Mawr oedd y canmol ar drefniadau'r Ysgrifennydd, Mrs N Lovatt, a gofid i'r aelodau oedd iddi fethu bod yn Llanbedrog gda ni oherwydd gwaeledd ei mab.

Diolchwyd iddi gan y llywydd, Mrs Bethanne Williams. Daeth tymor y llywydd a'r Ysgrifennydd i ben a diolchwyd i'r ddwy am eu llafur diflino gydol y tymor gan Mrs Jennie Williams. Dymunodd bob rhwyddineb yn y gwaith i'r ddwy sy'n eu holynu sef Mrs Joan Gruffydd a Mrs Menna Williams.

Cofiwch ail-afael eto ar ddechrau mis Medi. Bydd croeso i'r aelodau newydd ymuno â'r gangen. Hwyl a Heulwen dros yr haf.

YR YSGOL FEITHRIN

Bellach, mae blwyddyn yr Ysgol

Feithrin yn dirwyn i ben ac yn ystod yr Wyl Feithrin cafodd y plant gyfle i weld a mwynhau sioe fach gan aelodau o Theatr Crwban ym Montnewydd. Yn ddiweddar aethpwyd â nhw i ymweld a'r Orsaf Dân yng Nghaernarfon lle bu rhai o'r plant wrth eu boddau yn cael eistedd mewn Injan Dân go iawn.

"Pobol o'n cwmpas" oedd themau yr Wyl Feithrin eleni a bu'r plant yn brysur yn paratoi pedwar llun ar gyfer arddangfa yng Nghaernarfon o waith y cylchoedd..

Bu rhai o'r mamau a'u ffrindiau ar daith gerdded nodedig i gasglu arian i'r Cylch, diolch iddynt am eu hymdrechion.

Mae'r trip eleni yn mynd ar y tren bach i Flaenau Ffestiniog ac yn dychwelyd i Borthmadog. Gobeithio y cawn well tywydd na llynedd.

Cynhelir cyfarfod pwysig i famau y plant sydd am fynychu yr Ysgol Feithrin yn ystod y flwyddyn nesaf am 10.45, Gorffennaf 8fed, yn Festri Capel Mawr.

ADREF O'R YSBYTY

Rydym yn falch o glywed fod Mr Robert Williams, Llain Gwta, Gwel Fynydd wedi dychwelyd adref o'r ysbyty. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddo.

Rydym yn falch iawn o glywed for Gareth, mab bychan Aled a Judy Roberts, Clegir, wedi cael dod adref o'r ysbyty yn Lerpwl a'i fod wedi gwella'n arw erbyn hyn.

TÊ BACH

Nos lau, Mehefin 5ed cynhaliodd Chwiorydd Capel Mawr eu tê bach, yr olaf am y tymor hwn. Llywyddwyd y cyfarfod ac arweiniwyd mewn defosiwn gan Mrs Gillian Morris. Rhoddwyd y tê gan Mrs Jones, Ogwen a Mrs Norman, Venica.

GWASANAETH Y PLANT

Yng Nghapel Pontrythallt fore Sul, 22ain o Fehefin, cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan blant yr Ysgol Sul o dan arweiniad Mrs Mair Huws. Cyflwynwyd darlenniadau, caneuon, gweddian ac eitemau ar offerynnau pres gan y plant. Fel arwydd o'u llwyddiant yn yr Arholiad Llafar, cyflwynodd Mrs W.A. Jones, Dalar Deg, un a fu yn athrawes Ysgol Sul ffyddlon iawn am flynyddoedd, lyfrau i'r plant. Rhoddodd Mrs. Jones annerchiad addas iawn iddynt a rhoddwyd tusw o flodau iddi gan Judith Jones.

Y rhai fu yn llwyddiannus oedd Ieuan a Iolo Griffith; Rhodri a Gwion ap Llwyd; Dyfed Whiteside Thomas; Mark Jeffs; Judith a Delyth Jones a Catherine Williams. Oherwydd gwaeledd nid oedd Catrin Whiteside Thomas yn bresennol i dderbyn ei gwobr am ei llwyddiant yn yr arholiad ysgrifenedig. Dymunwn wellhad buan iawn i Catrin. Diolchwyd i bawb gymerodd ran gan Mr. Glynne Owen a Mr. Emrys Owen.

Mae mwy o ddewis nag erioed gan
JOHN A ROBERTA GRIFFITH
Y STORFA SGWÂR LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2790

Bwydydd, Llysiau,
Diodydd, Gwlân Sirdar,
Patrymau, Gweill Aero
Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m.
Agored tan 8.00 p.m. nos
Wener a
9.30 - 12.30 fore Sul
Archebwch dros y ffôn - fe'i danfonwn at eich drws

M. ROWLANDS
MONUMENTAL MASONS
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2898
(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic
gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad
Cerrig newydd a gwaith adnewyddu:
dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau:
dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

Wavell
Roberts
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus
Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

EISTEDDFOD YR URDD

Bu nifer o blant a phobl ifanc yr ardal yn llwyddainnus yn Eisteddfod yr Urdd yn Nyffryn Ogwen yn ddiweddar.

O Ysgol Gynradd Llanrug

Unawd llinynnol dan 12, 1af - Gwenan Mair Roberts; Parti Telyn, 1af - Bethan Lloyd Roberts, Lowri Angharad Roberts a Gwenan Mair Roberts.

O Ysgol Brynrefail

Unawd Merched dan 13, 1af - Ffion Williams; Unawd Prës 15-19, 1af - Graham Williams; Unawd Piano 15-19, 2il - Manon Llwyd Evans; Deuawd Piano 15-19, 1af - Manon Llwyd Evans a Sharon Vaughan Williams; Cân Werin dan 12, 1af - Ffion Orwig, Buarthau, Llanrug.

Llongyfarchiadau i chi i gyd am wneud mor dda.

O'R YSBYTY

Dymunwn wellhad buan i Mrs Linda Jones, 2 Didfa, sydd wedi dychwelyd adref o Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

PENBLWYDD

Llongyfarchiadau i Mrs Hughes, 9 Cefn Elan ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Fehefin 6ed. Hefyd i Mrs Hannah Jones, 1 Bryn Coch ar ddathlu ei phenblwydd yn 83 oed ar Fehefin 7fed.

PENBLWYDD

Dymuniadau gorau i Miss Mary Evans, 21 Hafan Elan ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Fehefin 6ed.

GWASANAETH DERBYN

Yn ystod y gwasanaeth yng Nghapel Mawr fore Sul, Mehefin 1af fe dderbyniwyd deuddeg o bobl ifanc yn aelodau, sef Leri Gwenan, Menna Jones, Dafydd Jones, Robin Gwyn Jones, Nia Lewis, Dylan Wyn Owen, Siwsan Morris, Jacqueline Pugh, Janet Roberts ac Elen Wyn Roberts. Yr organyddes oedd Mrs Eirlys Pierce.

TAITH HANESYDDOL

Cynhaliwyd taith hanesyddol gan Gymdeithas Lenyddol Capel Pontrhythallt, ddydd Sadwrn, 21ain o Fehefin. Roedd yn braf cael camni cyfeillion o Ddeiniolen a Dinorwig ar y daith hefyd. Cafwyd taith o gampas ardal y Bala, y Sarnau a Llanuwchllyn yng nghwmni Mr Ifor Owen, Llanuwchllyn. Canolbwyntiodd Mr Owen yn bennaf ar hanes y Crynwyr ond cafwyd hanesion difyr ganddo hefyd am Llwyd o'r Bryn ac R. Williams Parry. Mwynhawyd pryd o fwyd blasus yn Neuadd y Cyfnod. Diolchodd y Parch John Morris i Mr Owen am daith hynod o ddifyr ac addysgiadol. Diolchodd hefyd i gyfeillion Deiniolen a Dinorwig am ynuno ac i Mrs Enid Whiteside Thomas am drefnu'r daith ac i Mrs J.C. Williams am ei gwaith fel Trysoryddes. Ategwyd y diolchiadau gan Mr O.R. Williams, Dinorwig. Roedd yn amlwg i bawb fwynhau'r trip yn fawr.

PRIODAS

Priodwyd Miss Carys Mair Davies, merch Mr a Mrs Oswald Davies, Rhyd-y-Delyn, Llanrug â Mr John Gribbon yn Eglwys Unedig Rockdale, New South Wales, Awstralia ar Fai 9fed. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau iddynt.

PLAID CYMRU

CANGEN LLANRUG A'R CYLCH

Cafwyd Helfa Drysor hwyliog a llwyddiannus yng nghyfarfod diwethaf y gangen, gyda'r aelodau yn mwynhau golygfeydd hyfryd ein hardal, ac weithiau yn crwydro gormod a mynd ar goll!

a'r enillwyr oedd Dafydd Whiteside Thomas a Gwyndaf Jones a rhoddwyd y wobwr gysur i Nan Humphreys ac Olwen Llywelyn.

Enillwyd y Raffl gan James Jones, Dywnos.

Diolch yn fawr iawn i Twrog Jones a Gwyndaf Hughes am drefnu mor drylwyr ar ein cyfer, a hefyd i gyfeillion y Foelas am y bwyd derbyniol a blasus.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Gorffennaf 2il yn Ysgol Gynradd, Llanrug a, 7.30 o'r gloch.

Hwn fydd cyfarfod olaf y tymor ac yn gyfarfod Blynnyddol. Apeliwn am eich presenoldeb a'ch cefnogaeth arferol.

CANOLFAN HAFAN ELAN

Yn ystod Cyfarfod Blynnyddol Canolfan Hafan Elan a gynhaliwyd yn ddiweddar etholwyd y swyddogion canlynol: Cadeirydd - Mrs Dilys Jones (Warden); Ysgrifennydd - Mr Emrys Owen, 9 Hafan Elan; Trysorydd - etholwyd Mr Ifor Williams, Hafan Elan gan nad oedd Mr R.G. Jones, 13 Hafan Elan am barhau yn y swydd. Dymuna'r pwyllgor ddiolch am y gefnogaeth roddwyd i'r Ganolfan drwy'r flwyddyn.

LLONGYFARCHIADAU i Berwyn Owen, Tegfryn, Ffordd yr Orsaf ar gael swydd newydd fel cynorthwy-ydd gwyddonol hefo cwmni Beecham yn Worthing ger Brighton. Daeth Berwyn yn llwyddiannus allan o 2,000 o ymgeiswyr. Bydd yn cychwyn yn ei swydd newydd ar Awst 1. Dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd iddo.

YMDDEOLIAD: Pob dymuniad da i Mrs Nesta W. Jones, 1 Bro Rhuddallt ar ei hymddeoliad o'i gwaith yn y syrjeri yn Llanrug.

Yn Eisiau

ATHRAWES

drwyddedig os yn bosibl i Ysgol Feithrin Llanrug erbyn Medi 1986. Ceisiadau neu fwy o fanylion gan Mrs F.E. Roberts, Glyn Afon, Llanrug. Ffôn Caernarfon 4324.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR

A GOSODWR

GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL

SYSTEMAU

GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

LLONGYFARCHIADAU i Ffion Williams, Fferm Minffordd ar ennill y wobwr gyntaf ar Unawd Merched dan 15 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Methesda ac i Manon Llwyd Evans, Cerwyn ar ennill y wobwr gyntaf yn yr un eisteddfod yng nghystadleuaeth yr Unawd Biano dan 18 oed, a'r ail wobwr gyda Sharon Vaughan yng nghystadleuaeth y Ddeuawd Biano dan 18 oed.

Llongyfarchiadau hefyd i Mark Wyn Jones a Tudor Wyn Jones, Dolwen ar eu llwyddiant yn ennill Gradd 2 mewn Theori yn yr Arholiad dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain yn ddiweddar.

Pnawn Sul, Mehefin 15 yng Nghapel M.C. Tan-y-coed derbyniwyd pedair merch ieuanc yn gyflawn aelodau: Manon Llwyd Evans, Bethan Lewis Parry, Alwena Roberts a Wendy Roberts. Roedd y gwasanaeth yng ngofal eu gweinidog Y Parch John Morris ac estynnwyd croeso cynnes iddynt yn aelodau cyflawn o'r eglwys.

Dymunwn adferiad buan i Mrs J.M. Griffith, Llys Meredydd, Miss Nance Williams, Cartref a Mr Robert Williams, Llain Gwta - y tri yn Ysbyty

Gwynedd. Ein cofion a'n dymuniadau da iddynt, ac i Mrs Ellis, 3 Tai Bryngwyn, sy'n wael yng nghylch Nottingham gyda'i mab Mr Tom Ellis. Methodd ddychwelyd i'w gartrefar ôl y gaeaf yn ôl ei harfer. Adferiad buan iddi hithau.

Chwith colli dau gymydog arall o'n plith yn yr ardal hon - Mr a Mrs William Pritchard, Garnedd. Pob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd, heb fod ymhell, ym Mryn Moelyn.

Ein cofion a'n dymuniadau da i Mrs Lizzie Jones, 58 Bro Rhyddallt, sydd ym Mhlas Pengwaith ers pythefnos. Nid yw Mrs Jones wedi mwynhau iechyd da yn ddiweddar. Bu yn Ysbyty Gwynedd am gyfnod byr ond erbyn hyn da deall ei bod yn gwella ac yn hapus yn ei chylch newydd. Pob dymuniad da iddi.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs M. Owen, Isbryn yn ei phrofedigaeth sydyn - colli ei mab yng nghyfraith Mr Rhys Williams, Llythyrdy Betws Garmon a fu farw yn Ysbyty Heath, Caerdydd Mehefin 14. Cydymdeimlwn â Mrs Marian Williams ei briod, Meirion ei fab a'i chwaer Mrs Mary Fitter a'r teulu oll.



Ysgol Glanmoelyn, Llanrug. Anfonwyd y llun uchod gan Mrs Blodwen Nightingale (90 oed), Edgware, Llundain, merch y diweddar Mr a Mrs William Humphreys, Lodge Pantafon, a mam Mrs Jennie Hughes, Oerddwr, Tai Minffordd, Llanrug. Tynnwyd y llun o gwmpas 1906. Yn y darlun mae Mrs Nightingale a'i dwy chwaer, y diweddar Katie ac Annie, a'r prifathro Mr Rees. Byddai Mrs Nightingale yn falch iawn o wybod a oes rhywun o'r dosbarth heblaw hi yn fyw heddiw.

Y COLEG NORMAL



A ydych dros 23 oed?

A ydych yn edrych am sialens newydd?

Beth am ddod i'r Coleg i astudio am radd

B.Add. (ANRHYDEDD)

ym maes ysgolion cynradd?

Rhaid cael fan leiaf 5 lefel 'O' sy'n

cynnwys

Mathemateg a Saesneg.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth

cysylltwch â

Mrs Pat Parry,

Swyddog Derbyn,

Y Coleg Normal,

Bangor. (0248 352121)

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol



PRITCHARD

43 Glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

LLANBERIS

GAIR GAN FRENHINES Y CARNIFAL: Annwyl gyd-bentrefwyr, Mae fy mlwyddyn fel brenhines bron â gorffen, felly 'rwyf yn ysgrifennu'r llythyr hwn i ddiolch i bawb sydd wedi bod mor garedig tuag ataf drwy'r flwyddyn. 'Rwyf wedi mynd i garnifalau Tal-y-sarn, Pen-y-groes, Nant Peris, Glanogwen, Penmaenmawr, Llanfairpwll ac i goroni'r frenhines Donna o'r 'Breakaway Club' yng Ngwesty'r Royal yng Nghaernarfon. Mae gennyf un digwyddiad arall cyn imi ymddiswyddo sef coroni Lynne Williams ym Mhortdinorwig. 'Rwy'n gobeithio y caiff y frenhines sy'n cymryd drosodd gennyf gymaint o hwyl a hapusrwydd ag a gefais i. Diolch i bawb o Lanberis ac i bawb ym mhob carnifal am wneud y flwyddyn yn un mor arbennig imi.

Oddi wrth
Hannah Rudkin

(Brenhines Carnifal Llanberis, 1985-86)

DIOLCH: Dymuna Ted a Janet, 18 Haulwen, Cwmdâr, Aberdâr ddiolch o galon am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Catrin Lyn.

Dymuna Jane a Gwynfor ddiolch yn fawr iawn i'w teuluoedd, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Tony a Carol Sage ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar ôl damwain eu merch. Diolch yn fawr.

DYMUNIADAU DA i Mrs Maureen Lennon sydd yn ymddeol ddiwedd y tymor o Ysgol Cwm-y-glo.

LLONGYFARCHIADAU i Judith a Mark Winstanley ar enedigaeth merch fach, Christine Rhiannon yn Ottawa, Canada ar Fai 23.

Hefyd i Mr a Mrs Tom Williams, Penfro, Llanrug ar ddod yn daid a nain. Mae Judith eu merch wedi ymgartrefu yng Nghanaada ers pedair blynedd bellach.

O'R YSBYTY: Balch ydym o weld Dylan Oswyn Williams, Bwthyn Tan y Bwlch, Pentre Castell wedi dod adref o'r ysbty.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Ar Fai 16 ymwelodd un deg saith o aelodau â chyfarfod Cyngor Gwanwyn Sefydliad y Merched yng Nghricieth. Y gŵr gwadd oedd Capten Ifor Elis, Caernarfon ac adloniant gan Sefydliad Porthmadog. Cafwyd noson ddiffr iawn.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai yn Seion, Canolfan Gweu y pentref, lle cafwyd arddangosfa o 'weaving, tapestry, knitting & patie'. 'Roedd pawb wedi cael noson ardderchog. Diolchwyd i Mrs Dwynwen Roberts a Mrs Helen Morris am drefnu i fynd i Gyngor y Gwanwyn yng Nghricieth. Cafwyd trafodaeth ar y materion gerbron y Cyfarfod Blynnyddol yn yr Albert Hall, Llundain ym mis Mehefin

a phenderfynwyd sut oedd ein cynrychiolydd i bleidleisio ar ran y Sefydliad. Mrs Davies o Frynrefail, 'Link Institute', fydd yn mynd i Lundain ar ein rhan. Diolchwyd i ferched y ganolfan gan Mrs Hannah Jones a Mrs Helen Morris. Enillwyd y raffl gan Mrs Helen Morris.

DIOLCH: Dymuna Eleri ac Eilir, Peris View ddiolch i'w perthnasau a ffrindiau am y llu cardiau a dderbyniwyd ac am y caredigrwydd a ddangoswyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Ffion.

YR YSGOL FEITHRIN: Yn ystod Wythnos Wyl Mudiad Ysgolion Meithrin cynhaliwyd Noson Goffi yn y ganolfan. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd i wneud y noson yn llwyddiant a chodi'r swm o £145 a mwy. Hefyd diolch i bawb a gyfrannodd yn y casgliad o dy i dŷ, sef £34.48.

ENILLWYR: Raffl y deisen - Carys Jones, Ffordd Capel Coch; Rhifo'r Pys (675) - Carys Hughes, Maes Padarn. Raffl Fawr: (1) 4 Ffordd Ceunant; (2) Mair Roberts, Stryd Warden; (3) N. Fretwell; (4) J. Pepper; (5) Bronwen Hughes; (6) Eirlys Jones; (7) A.P. Jones; (8) D. Williams; (9) M. Jones; (10) M. Roberts; (11) Peris View.

ER COF: Er Cof annwyl am ben-blwydd Hetty Hughes, 7 Stryd Charlotte, Llanberis, Gorffennaf 14eg, 1984 - Bob a'r plant.



PRIODAS AUR: Bydd Ivor a Dilys Evans, 48 Maes Padarn yn dathlu eu priodas aur. Fe'u priodwyd yng nghapel Horeb, Brynsiencyn ar 3 Gorffennaf 1936. Mae Dilys yn enedigol o Frynsiencyn ac Ivor o Lanrug ac mae'r ddau wedi byw yn Llanberis ers eu priodas. Bu Ivor yn gweithio yn Chwael Dinorwig ond wedi gorfod ymddeol ers dwy flynedd ar bymtheg o achos gwaelled. Mae ganddynt bump o blant a deg o wyrion ac wyresau. Byddant yn dathlu yr achlysur gyda'r teulu yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis.



CWMNI DRAMA: Dydd Mercher, 28 Mai aeth Mr Gwilym Owen gyda help Mr Tommy Jones, Peter Hughes a Dafydd Morris a chriw o'r Frigâd St loan ar daith gerdded nodedig er budd Theatr Fach Gorffwysfa. Cawsant eu dal mewn glaw a dyma'u llun ar ôl cyrraedd adref. Penderfynodd Owain Tudur o'r Nant

ei fod yn rhy wlyb i gael tynnu'i lun! Dymuna Mrs Anne Parry Jones, Mrs Jane Roberts a Miss Marion Davies ar ran y Cwmni Drama ddiolch o galon i Mr Gwilym Owen am drefnu'r daith a hefyd i'r hogiau am gymryd rhan. Mae dros 23 tunnell o hen bapurau wedi eu casglu ers Mai 1985.

MORUS MYSHARŴM



Na, dim sôn am fadarch hŷd yr ydwyf ond am wireddu breuddwyd Mrs Anne Parry Jones sy'n wreiddiol o Lanberis, ond yn awr yn trigo ym Mherthi, Bryngwyn, Llanrug.

Mae ardal Llanberis yn gynnes iawn yn ei chalon, ac fel llawer o dalentau'r fro, mae hithau yn un ohonynt.

Bu Anne yn profi ei dawn gerddorol drwy gyfansoddi geiriau a'r gerddoriaeth i ddeunaw o ganeuon tlws ac addas iawn i blant meithrin a babanod.

Tiwtor i fyfyrwyr y Cwrs Arholi Meithrin Cenedlaethol yng Ngholeg Technegol Gwynedd yw

Anne, ac 'roedd ei myfyrwyr yn hoff iawn o'r caneuon ac yn cael pleser o'i canu gyda'r plant yn yr ysgolion yr oeddynt yn eu mynychu ar brofiad ymarferol. Hefyd roeddynt yn gynnwysiedig yn y Pantomeim a berfformiwyd yn y Coleg i lawer o blant ysgolion Gwynedd. Trefnwyd y caneuon a hyfforddwyd y genethod gan Mrs Nêst Llewelyn Jones, Dwyran, Môn.

Ond roedd gan Anne syniad arall, sef paratoi llyfr gyda thudalennau rhydd yn cynnwys prif gymeriadau y caneuon fel 'Morus Mysharwm', 'Jaco'r Mwnci' a 'Sion Dafydd y Llyffant', i blant eu lliwio. Rhiannon Pritchard, eto yn hanu o Lanberis sy'n gifryfol am y lluniau, a hi hefyd oedd yn cyfeilio. Mae'r pecyn yn cynnwys Tâp, Ceiriau'r Caneuon a'r Llyfr Lliwio, a bydd ar werth yn y siopau cyn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun - ond, os oes rhywun eisiau anrheg i blentyn bach, maent ar werth yn awr gan Anne gartref yn Llanrug, Plas Tirion, Llanberis neu gan Jane Roberts, 'Rallt Isaf, Llanberis. Pris £5.45.

PRIODAS: Priodwyd Jane, merch Mr a Mrs Myrddin Pritchard, 1 Ffordd Padarn, a Gwynfor Meirion, mab Mr a Mrs George Jones, 6 Ffordd Ysgubor Goch, Caernarfon yng Nghapel Nant Padarn. Gweinyddwyd gan y Parch John Pritchard, Abersoch (brawd y briodferch), a'r organydd oedd Mr Aled Owen. Byddant yn ymgartrefu yn 7 Stryd yr Wyddfa, Llanberis.

CRONFA GOFFA R.H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau o'r Gronfa uchod. Anfoner am y manylion a ffurflen gais i'r ysgrifennydd

**Aled Owen, 13 Charlotte St,
Llanberis**

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau


FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376



Plant Ysgol Feithrin Llanberis yn cael saib ar lan y llyn yn ystod eu taith gerdded noddedig. Casglwyd swm o £72 tuag at Apêl y Sganydd. Da iawn chi blant a diolch yn fawr iawn.

INJAN 'POT COFFI



Am dair wythnos yn ystod y mis diwethaf gwelwyd yr injan od hon yng ngorsaf trên lein Llyn Padarn. Roedd yno am gyfnod ar fenthyg o Leighton Buzzard. Fe'i hadeiladwyd yn 1877 gan De Winton yng Nghaernarfon a'i hailadeiladu gan Chaloner a'i Gwmni. Bu'n gweithio yn chwarel Penyrorsedd hyd 1960 — un o ddeg oedd yn gweithio yno. Fe'i hanfonwyd oddi yno i Leighton Buzzard i gael boiler newydd. Cyn ei hymweliad â Llanberis bu'n cael ei harddangos yn Ffestiniog i ddathlu 150 o flynyddoedd o Lein Bach Stiniog.


CLWB ERYRI AR DAITH I FÔN

Dydd Sadwrn, Mehefin 14 aeth aelodau Clwb Eryri ar daith i fannau hanesyddol ym Môn. Yn ffodus iawn cafwyd yr Athro Bedwyr Lewis Jones i'w harwain, ac fel y disgwyliad cafwyd taith ddifys dros ben yn ei gwmni yn ymweld ag eglwysi Llangaffo a Llangadwaladr, Aberffraw, cof-golofn y Morisiaid a Din Lligwy. Ar derfyn y daith cafwyd cinio mewn gwesty ger Marian Glas, a chaed cyfle i ethol swyddogion am y tymor nesaf. Y

llywydd fydd Meurig Evans ac Arwel Jones yn is-lywydd. Ail etholwyd Ieuan Ellis Jones yn Drysorydd, Stanley Owen yn Gofnodydd, Iolo Huws Roberts yn fardd y Clwb a Rol Williams yn Ysgrifennydd - ef yn y swydd ers 31 mlynedd! Talwyd y diolchiadau am ddiwrnod difys ac addysgiadol tros ben gan Rohn Roberts Williams.

Bydd y tymor nesaf yn cychwyn nos Wener, Hydref 3.

TRENAU'N DATHLU PENBLWYDD



Eleni mae pedair o drenau Lein Bach yr Wyddfa yn dathlu eu pen-blwydd yn 90 oed, ac y mae'r pedair hen wreigan yr un mor heini ag erioed ac wedi dotio at y ddwy wyres fach a ddaeth yn aelodau o'r teulu. Bellach mae dwy drên diesel wedi eu prynu gan y cwmni — ond hyd yn hyn nid oes bedyddio wedi bod; yn wir, mae un ohonynt yn parhau heb enw. Penderfynodd y cwmni ei hun enwi un o'r trenau, ond bydd cystadleuaeth yn cael ei chynnal i enwi'r llall. Cynhelir y gystadleuaeth ar raglen deledu brecwast y BBC a bydd gwobr arbennig i'r enillydd, sef penwythnos i bedwar yn Llanberis a hawl i ddefnyddio'r trên am ddim am oes! O gofio fod y rhaglen deledu yn cael ei gwylio drwy Gymru a Lloegr gobeithio'n wir y bydd enw Cymraeg yn cael ei ddewis fel bod y 'neiniau' (fel y



Plât ar injan y 'Moel Siabod' yn dangos blwyddyn y gwneuthuriad.

'Moel Siabod' uchod) yn parhau i deimlo'r un mor gartrefol efo'r newydd-ddyfodiaid.

YSGOL DOLBADARN. PRYD? PWY?



E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI



Bistro



Glandŵr

43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278
(Danny a Nerys Roberts)

Amser Cinio o ddydd Llun i ddydd Gwener
Gwahoddir partion o rhwng 6 a 15 i wyluo Nerys yn coginio
ac ymuno yn y gwaith — Pris £7.50 yn cynwys cinio.
Bob nos ag eithrio nos Sadwrn pryd blasus 3 chwrn yn
defnyddio bwydydd tymhorol gorau £8.00

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

PRIODAS

Yn Eglwys Crist, Llandinorwig ar Fai 26ain, priodwyd Miss Eira Wyn Jones erch Mr a Mrs David W Jones, 3 Rhydfadog a Mr Ian Wyn Jones, mab Mr a Mrs Hugh Jones, Dorlan Goch, Clwt-y-Bont. Mae Eira yn athrawes Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Dyffryn Conwy, Llanrwst ac Ian yn Beiriannydd Goleuadau gyda chwmni (Pennine Lightings) Llanrwst. Bydd y ddau yn gwneud eu cartref yn 40 Stryd Newydd, Caernarfon. Dymuniadau gorau i'r ddau ifanc oddi wrth y ddau deulu.



Ian ac Eira Wyn Jones

DIOLCH

Dymuna Ian ac Eira Wyn Jones, ddiolch yn gynnes i'w teulu, cyfeillion a chymdigion, am yr anrhegion gwerthfawr a'r llw cardiau a dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Edwina a Dic, 3 Green Terrace, ddiolch i'w rhieni, teuluoedd, ffrindiau a phobl yr ardal am eu caredigrwydd ac am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ganddynt ar enedigaeth eu mab, Christopher Robert at Fawrth 31ain. Diolch yn fawr.

Dymuna Mr a Mrs Humphrey Hughes, 4 Gwyrfa Terrace, Clwt-y-Bont, ddiolch o galon i'r teulu a'u ffrindiau i gyd am yr holl anrhegion a chardiau a gawsant ar ddathlu eu priodas aur, ar Fehefin 12fed.

Y SEINDORF

Yn ystod y mis nesaf fe fydd y Seindorf yn brysur iawn gyda Noson Lawen ym Mhwlheli, Cyngerdd yng Nghricieth, llawer o Garnifals, Cyngerdd yn Nghartref yr Henoed ym Mangor, ond uchafbwynt y mis fydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abergwaun ar yr 2il o fis Awst. Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Mehefin:

1. £20.00, Rhif 202, Mrs Thomas, Tai Caradog; 2. £15.00, Rhif 77 Mrs Edna Jones, Deiniol House; 3. £10.00, Rhif 204, Mrs Munro, Clwt-y-Bont.

CARNIFAL

Bydd y Carnifal yn cychwyn o Rydfadog am 1.30 Sadwrn, 12fed o dan arweiniad Band Deiniolen a'r Majorettes, ac yn cyrraedd y cae chwarae oddeutu 1.45 - 2.00 o'r gloch. Bydd y coroni am 2.15, lle coronir y Frenhines Sioned Evans a'r Dysywoges Carolyn Williams. Arweinydd y Carnifal fydd Mr Edwin Evans, Gallt-y-Foel, ac agorir y Carnifal gan Mr Gwilym Effrwd Roberts, A.S. Y beirniaid fydd Mr a Mrs G.Effrwd Roberts, Mr a Mrs H. Roberts a Mrs Clarice Roberts. Mrs C. Roberts fydd yn coroni hefyd. Bydd cystadleuthau gwisg ffansi i bob oedran a nifer mwy o gystadleuthau ychwanegol. Hefyd mae stondinau yn ogystal a lluniaeth ysgafn ar gael.

Dewch i fwynhau ei hun.

CARNIFAL DEINIOLEN

Gorffennaf 7 - 12

DYDDIADUR

Nos Lun Gorffennaf 7

Chwaraeon yn y Cae Chwarae i ddechrau am 6.00

Nos Fawrth Gorffennaf 8

Pel droed, 5 bob ochr yn y cae chwarae i ddechrau am 6.00

Nos Fercher Gorffennaf 9

Cyngerdd yn Festri Capel Eben i ddechrau am 7.00

Nos Iau Gorffennaf 10

DISGO awyr agored yn iard yr Ysgol Feithrin am 6.30

Nos Wener Gorffennaf 11

PRONTO i blant yn y caban. Mynediad 25c i ddechrau am 6.00

Dydd Sadwrn Gorffennaf 12

Diwrnod y carnifal i ddechrau o Rydfadog am 1.30. Band Deiniolen a'r Majorettes yn arwain.

Nos Sadwrn Parti yn Clwb Eryri, Penisarwaun. Mynediad £2. Ticed yn unig.



LLONGYFARCHIADAU i Lyndsey Vaughan Parry, 11 Ffordd y Gogledd, ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid yn ddiweddar. Cafodd gyntaf ar unawd dan 8 oed, a 3ydd ar adrodd dan 8 oed.

SEFYDLIAD Y MERCH

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fehefin 2il o dan arweiniad Mrs Rita Parry Jones, y llywydd. Darllenodd Mrs Jones y cylch lythyr misol a darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd Mrs Marian Williams. Croesawyd y wraig wadd, Miss Margaret Gabbeth, Bangor gan y llywydd. Cawsom noson ddiffr iawn gan Miss Gabbeth yn rhoi arddangosfa o sut i wneud pethau da. Diolchwyd iddi gan Mrs Rita Parry Jones a Mrs Gwen Hughes. Enillwyd y raffl gan Mrs Beti Williams, Mrs Marian Williams, Miss Kathleen Jones a Mrs Beti Wyn Davies.

Croesawodd y llywydd Mrs Gwen Hughes a Mrs Beti Wyn Davies yn ôl ar ôl eu gwaeledd a dymuno'n dda i Mrs Marian Williams sydd i dderbyn triniaeth lawfeddygol.

Bydd gwibdaith y Sefydliad ar nos Wener, Gorffennaf 4ydd. A wnaiff yr aelodau roi eu henwau i Mrs Marian Williams, 12 Deiniol Road os gwelwch yn dda.

CLWB ELIDIR

Cyfarfu yr aelodau yn y Clinic dydd Mawrth, Mehefin 17ef. Llywydd Mrs. L. Marren. Rhoddwyd y te gan Mrs Mary Thomas; Mrs Katie Griffith a Mrs Elsie Davies. Enillwyd y raffl gan Mrs Jane Jones; roddedig gan Mrs Mary Thomas. Treuliwyd prynhawn difyr yng nghwmni Mrs Nancy Rowlands pan gafwyd cwis ar Ddiarhebion. Gofalwyd am y marciau gan Mrs Jane Jones. Hefyd rhoddodd Mrs Mary Morris raffl ac fe'i enillwyd gan Mrs Katie Griffith. Enillwyr y cwis oedd Tim A - 28 a thim B - 23.

Dydd Iau Mehefin 19eg bu'r aelodau ar eu gwibdaith flynyddol yng Nghricieth a Phorthmadog. Treuliwyd prynhawn difyr. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r rhai canlynol am eu rhoddion i'r Clwb. Doctor Nora Marren; Mrs Alice Griffith; Mrs Nell Griffith; Mr Griff Owen; Mr a Mrs Jacob James; Mr a Mrs Caradog Jones a Mr Tommi Hughes.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis

Y GANOLFAN

Nos Wener, Mehefin 13, cynhaliwyd Ffair Haf wedi'i threfnu gan bwyllgor rheoli'r Ganolfan yn Neuadd y Ganolfan.

'Roedd yna amrywiaeth o stondinau a gemau. Yn ystod y noson, cyflwynwyd siec o £200 i drysoryddes y pwyllgor rheoli gan Mr Gwynfryn Jones, Dirprwy-brifathro Ysgol Gwaun Gynfi. 'Roedd Mr Jones wedi beicio o Ddeiniolen i Gaernarfon, ac wedi cael ei noddi gan blant yr ysgol, eu rhieni a'u ffrindiau.

Cyfanswm elw'r noson oedd £290, a dymuna'r pwyllgor rheoli ddiolch i'r gwahanol gymdeithasau a gymerodd ran, ac i'r pentrefywr am eu cefnogaeth.

AELWYD YR URDD YN YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL:

Roedd diwrnod olaf Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Methesda yn ddiwrnod llwyddianus iawn i'r Aelwyd. Cafwyd llwyfan mewn tair cystadleuaeth sef y Parti Cerdd Dant 14 - 25 oed, y Pedwarawd 14 - 25 oed a'r Unawd Alaw Werin 19 - 25 oed. Rhoddwyd y drydedd wobwr i'r Parti Cerdd Dant, yr ail wobwr i'r Pedwarawd a'r wil wobwr hefyd i Sian ar yr Unawd Alaw Werin. Wrth gwrs bu llawer mwy o aelodau'r Aelwyd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch a'r Sir - gobeithio y gwelwn ni chi ar y llwyfan ym Merthyr y flwyddyn nesaf.

Dwn i ddim faint o ddarlennwyr yr Eco a sylwodd ar i biniau lliwgar ar faes yr Eisteddfod. Bu dwy neu dair o aelodau'r Aelwyd wrthi'n ddyfal yn peintio rhai o'r biniau brin wythnos cyn y 'Steddfod. Diolch yn fawr i chi.



LLONGYFARCHIADAU i Iwan Gruffydd Williams, 13 oed o Hafle, Rhos Faenol, ar ei llwyddiant yn ystod y tri mis diwethaf.

Pleser mwyaf Iwan yn ei amser hamdden yw chwarae'r 'cornet', ac mae wedi bod yn gwneud hynny yn llwyddiannus dros ben yn ddiweddar.

Clywsom amdano eisoes wedi dod yn ail yng nghystadleuaeth Bandiau Prës Gogledd Cymru ym Mangor i rai dan 16 oed ar Chwefror 15fed. Yn dilyn hynny mae wedi dod yn gyntaf yn Eisteddfod Groeslon, ail yng Nghricieth, cyntaf yn Rhosgadfan, cyntaf yng Nghlynnog, ac i goroni'r cwbl, dod yn gyntaf yn Eisteddfod Môn.

Ar hyn o bryd mae Iwan yn aelod o Fand Prës Deiniolen, a hefyd Band Chwyth leuenctid Gwynedd.

Dymuniadau gorau i ti Iwan a gobeithio y cawn glywed llawer mwy o hanes dy llwyddiant yn yr Eco yn y dyfodol.

OSMOND SHAW DEINIOLEN

Gwerthu a thrwsio
Teledu Lliw
Newydd ac Fel
Newydd
GWASANAETH
ATEB
FFÔN 24 AWR
LLANBERIS 870545

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



BECWS DEINIOLEN (D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

TÎM SNWCER DEINIOLLEN 1947?



Tim Snwcer Deiniollen wedi ei dynnu tu allan i garej Crosville, Caernarfon. Y mae perchennog y llun yn credu mai tua 1947 y tynnwyd y llun. A oeddynt yn bencampwyr y flwyddyn honno tybed?

CYFARFOD CYHOEDDUS

Daeth cynrychiolaeth deilwng o'r pentrefwyr i'r Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd yn y Ganolfan, nos Fawrth, 17 Mehefin, ond nodwyd bod y nifer presennol tipyn yn llai nac a welwyd yn y ddau Gyfarfod blaenorol.

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb ar ran y Cyng. Jacob James a Mrs P.G. Larsen.

Estynnwyd croeso cynnes gan y Llywydd, Mr Gwyn Parri, Cynefin, i bawb oedd wedi gwneud ymdrech i ddod i'r cyfarfod, a chyfeiriodd yn arbennig at bresenoldeb y Cyng. Mary Richards, a Mr. Dewi Williams, Cadeirydd ac Ysgrifennydd Pwyllgor Apel Rhanbarth Arfon, Scanydd Corff Ysbyty Gwynedd. Cyflwynwyd y llawr i'r ddau uchod i draethu ar ran yr Apel. Wedi iddynt amlinellu rhagoriaethau'r Scanydd, a rhoi sicrwydd pendant mai ym Mangor y lleolid y peiriant, amlygwyd mai £3,000 oedd y targed a osodwyd i Ddeiniolen a Chlwt-y-Bont, a disgwyliar cyrraedd y cyfanswm hwnnw cyn diwedd Mehefin, 1987. Cyhoeddwyd bod tua £700 eisoes wedi ei gyfrannu o'r ardal gan unigolion, a bydd y swm hwnnw yn help i gyrraedd y targed. Adroddwyd hefyd bod Eglwys Libanus, Clwt-y-Bont, wedi penderfynu trosglwyddo'r £47 dderbyniwyd yn ddiweddar ganddi oddi wrth Bwyllgor Mynwent Macpelah, at Apel y Scanydd gan ychwanegu £53 at y swm hwnnw er gwneud cyfraniad crwn o £100.

Diolchwyd i Miss Richards a Mr Williams, ac wedi iddynt ymadael o'r Cyfarfod, etholwyd y canlynol i wasanaethu ar Bwyllgor Llywio i hybu'r Apel yn Neiniolen a Chlwt-y-Bont: Euryr Williams, Pentre Helen; Clarice Roberts, Bull Inn; Jennie Jones, Maes Gwylfa; Alun Wyn Evans, Pentre Helen; Hugh T Jones, Rhes Faenol; Euryr Roberts, Rhes Fictoria.

Adroddwyd - Bod Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen mewn cyd-ddeall a Chyngor Cymdeithas Llanberis yn hybu'r Apel trwy gydweithrediad a'r B.C.C.T. sydd yn awyddus i gyflwyno'r elw wneir o barcio cerbydau ar achlysur Diwrnodau Agored yr Orsaf Bŵer ar Sadwrn a'r Sul, 6 - 7 Medi, 1986 i goffrau'r Apel.

Bydd angen gwirfoddolwyr ar Gyngor Cymdeithas Llanddeiniolen i arolygu parcio yn y Marchlyn ar y ddau ddiwrnod uchod.

Cyflwynwyd nifer o sylwadau ar fwriad Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen yn hyn o beth, a chyfeiriwyd at elw honedig Cyngor Cymdeithas Llanberis o'r Diwrnodau Agored gynhaliwyd yn yr Orsaf Bŵer yn y gorffennol.

Wedi hir drafod penderfynwyd argymhell Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen i bwysu ar y B.C.C.T. i

drefnu bod yr elw wneir o barcio cerbydau yn y Marchlyn ar y dyddiadau uchod yn cael ei rannu rhwng Apel y Scanydd Corff ac anghenion pentref Deiniolen.

Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 4 Mawrth, 1986, ac yn codi o'r rheini oedd mater y Ganolfan.

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Llywydd ar -

(a) ei ymholiadau (yn ei swydd fel Ysgrifennydd Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan), am gostau adeiladu a rhedeg y Canolfannau presennol yn Llanberis a'r Waunfawr, yn dangos - i) Bod Llanberis wedi derbyn £90,000 oddi wrth Amgueddfa Genedlaethol Cymru, a £5,000 oddi wrth Gyngor Cymdeithas Llanberis; a'i bod yn costio tua £10,000 y flwyddyn i gynnal y Ganolfan Chwaraeon yno; a ii) Bod Canolfan Waunfawr wedi costio £48,000 i'w hadeiladu. Derbyniwyd £20,000 o'r Swyddfa Gymreig, a £10,000 oddi wrth y Cyngor Sir tuag at y swm hwnnw, gyda'r gweddill yn cael ei godi'n lleol. Fe gyst rhwng £2 a £3,000 y flwyddyn i redeg y Ganolfan yno, ond derbynir cyfraniad sylweddol at hynny oddi wrth yr Awdurdod Addysg am fenthycar adeilad.

(b) Drafodaethau Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan gyda swyddogion perthnasol y Cyngor Sir, a Chyngor Chwaraeon Cymru, parthed codi Canolfan Chwaraeon a'r cymorthdaliadau ellir eu disgwyl oddi wrth y ddau gyngor;

(c) Bod Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan wedi mynegi diddordeb yng nghynnig Eglwys Disgwylfa i ryddhau y capel yn unig at ddefnydd pentrefol yn amodol ar gael cyfle, maes o law, i ystyried ymhellach amodau ysgrifenedig y Cyfundeb pan ddont i law;

Yn dilyn yr adroddiad bu rhydd-ymddiddan am y wybodaeth a gyflwynwyd, a mynegwyd diddordeb arbennig yn y posibilrwydd o ddatblygu Canolfan ar safle bresennol yr Ysgol Feithrin. Penderfynwyd - (a) Diolch i'r Llywydd am ei adroddiad; a (b) Gofyn i Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan barhau gyda'r ymholiadau persennol, gan ofyn iddo ymholi'n arbennig am y posibilrwydd o ddatblygu Canolfan ar safle'r Ysgol Feithrin.

Bydd Panel Pentref Deiniolen, ynghyd a'i Gynorthwywyr yn cyfarfod ar 2il o Orffennaf, i gwblhau'r trefniadau ar gyfer cynnal 'Cystadleuaeth Stryd Daclusaf y Pentref'. Cyhoeddir y manylion cynted a phosib. Yn y cyfamser, beth am fynd ati i symbylu taclusrwydd yn eich stryd chwi ac ennyn diddordeb eich cymdogion er ceisio ennill y tlws rhoddedig gan Gyngor Cymdeithas Llanddeiniolen.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD DISGWYLFA M.C.

Nos lau, y 5ed o Fehefin, cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd yn Festri Disgwylfa. Y llywydd oedd Mrs Miriam Lewis.

Estynnodd Mrs Lewis groeso cynnes i bawb a oedd yn bresennol, a dymuniadau gorau am adferiad iechyd i bawb o'r Eglwys oedd yn wael.

Da yw clywed for Mr Alun Davies, 63 Pentre Helen gartref ar ôl treulio amser yn Ysbyty Gwynedd, dymunir adferiad iechyd iddo'n fuan.

Yng nghyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd, Llanberis, ar y 4ydd o Fehefin, cafwyd ymweliad gan bedair o chwiorydd o Eglwys Gyfundebol Noddfa, Caernarfon.

Gwirfoddolwyr ydynt yn rhoi dau ddiwrnod o bob wythnos i helpu yn y Noddfa. Mae 22 o sefydliadau yn defnyddio y Noddfa ar gyfer nifer o wahanol weithgareddau. Maent yn gwneud gwaith eithriadol. Diolch am eu tebyg.

Ar ôl y cofnodion, treuliwyd y gweddill o'r noson yn Nisgwylfa yn trin a thrafod y 5ed bennod o Efengyl Mathew, sef 'Y Gwynfydau' o dan arweiniad Mrs Miriam Lewis. Yr oedd pawb wedi mwynhau y noson yn fawr iawn. Rhoddwyd y tē gan Mrs Miriam Lewis.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Festri Disgwylfa ar y 3ydd o Orffennaf. Estynnir croeso cynnes i chwiorydd yr eglwysi eraill i ymuno â ni. Dowch da chwi, mae angen mwy o chwiorydd i gyd-weithio dros achos Crist.

COLLED

Bu Mr. David Charles Morris farw yn dawel yn ei gartref, 23 Rhydfadog ddydd Llun, Mai 26ain yn 84 mlwydd oed.

Treuliodd Mr Morris y rhan helaethaf o'i oes fel ffitar yn Chwarel Dinorwig. Bu ef a'i briod yn gofalu am gapel Cefn y Waen am ugain mlynedd. Gwasanaethodd Mr Morris yr eglwys fel blaenor ac arweinydd y gân dros gyfnod maith.

Dymuna Mair, Griff a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

Ar y 6ed o Chwefror, bu farw Gerald Rochell yn ei gartref yn Marine Drive, Rhos on Sea. Roedd yn enedigol o'r ardal, a bu'n gweithio yn y chwarel am nifer o flynyddoedd. Ein cydymdeimlad a'i weddw Lucy, ei blant Paul a Bronwen, ac a'i ŵyr, Samuel.

CYNGOR EGLWYSI

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, yn Festri Ebenezer, am saith o'r gloch nos Lun, 14 Gorffennaf. Yn y cyfarfod hwnnw byddir yn ethol Swyddogion 1986-87, ac yn llunio rhaglen ar gyfer tymor y Gaeaf. Os oes awgrymiadau gennych cofiwch eu cyflwyno i gynrychiolwyr eich Eglwys fel y caffont ystyriaeth.

GWASANAETH DINESIG - SUL Y MAER

Roedd Capel Libanus, Clwt-y-Bont, yn rhwydd lawn ar gyfer y Gwasanaeth uchod, a gynhaliwyd yno bnawn Sul, 22 mmehefin, dan nawdd Cyngor Bwrdeisdref Arfon. Mae Maer Arfon, y Cyng. Patricia Grace Larsen, yn aelod ffyddlon yn Eglwys Libanus, ac wrth groesawu pawb i'r addoliad, mynegodd ei Gweinidog a'i Chaplan, y Parchg Ifor Williams, lawenydd ei chyd-aelodau ar yr anrhydedd ddaeth i'w rhan, gan eidduno llwybr clir a gwelediad eglur iddi hi a'r Cyngor yn ystod blwyddyn ei maerolaeth. Traddodwyd pregeth rymus gan Mr. Williams, seiliedig ar y geiriau 'Efe a adeiladodd y porth uchaf i dŷyr Arglwydd', oedd yn arweiniad diogel i'r Cyngor ar ddechrau pennod newydd. Yr Organyddes ar gyfer y Gwasanaeth oedd Miss Mair Rees Jones.

GWELLHAD

Da clywed for Mrs A. Jones, Regent House, yn gwella ac wedi dychwelyd adref o'r ysbyty ar ôl derbyn triniaeth llawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU i Carys a Gwynfor Owen, Greenwich, Llundain ar enedigaeth merch fach, Angharad, wyres i Mr a Mrs William Orwig Williams, Rhydfadog a Mr a Mrs R.H. Owen, Llanbedrgoch.

DYMUNA Carys a Gwynfor Owen ddiolch o galon i berthnasau a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniasant yn ddiweddar i'w llongyfarch ar enedigaeth merch fach, Angharad.

MARWOLAETH: Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs M.A. Thomas, Caernarfon, gynt o Faes Gwylfa, Deiniolen. Bu Mrs Thomas yn athrawes yn Ysgol Llandinorwig am gyfnod. Wedi cau Ysgol Llandinorwig symudodd i lawr i Ysgol Gwaun Gynfi. Bu yno hyd ei hymddeoliad yn 1970. Bu'n flaenores yng Nghapel Disgwylfa am rai blynyddoedd. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

WEA: Hoffwn wybod a yw pobl yr ardal yn awyddus i gael dosbarth WEA yn Neiniolen. Fel y gŵyr pawb mae'r dosbarthiadau hyn wedi bod yma am flynyddoedd lawer ond os na chawn 10 neu fwy i ymuno eleni ni fydd dosbarthiadau. Felly meddyliwch am destun o ddiddordeb a chysylltwch â J. Eirlys Williams, 3 Pentre Helen ar unwaith os gwelwch yn dda.



Dymuna Barry Wardle, 76 Pentre Helen ac Euryr Williams, 3 Pentre Helen ddiolch i bawb am eu diddordeb a'u rhoddion hael tuag at 'Sports Appeal Aid'. Rheddodd y ddau i ben Elidir Fach. Y swm a gasglwyd oedd £110.21. Dyma lun o'r ddau. Cychwynasant o Lyfrgell Deiniolen. Roedd yn ddiwrnod pur niwlog ond cawsant groeso cynnes gan rai o'r bechgyn lleol pan gyrhaeddasant y copa. Diolch arbennig i Steven, Robert, Geraint a Cemlyn, heb anghofio Dilwyn a Kathleen.

AR WERTH

Tŷ hwylus gyda stafell molchi, gardd a garej yn ganol y pentref. Ymholer â Robert, 4 Green Terrace, Deiniolen.

Cofiwch
**YMRYSONFA
CŴN DEFAID**
Betws Garmon
15, 16 AWST
Am fwy o fanylion
ffoniwch
Waunfawr 244

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs. G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

MERCHED Y WAWR

Cyfarfu aelodau'r Gangen leol yn y Ganolfan ar Fai 22. Cydymdeimlwyd â Mrs Eirlys Griffith, Llythyrdy; Mrs A Griffith, Caeau Gwynion; a Mrs Glenys Williams, Tynyweirglodd, a oedd wedi colli perthnasau agos.

Llongyfarchwyd Mrs Gill Brown ar ei gwaith yn gwneud darluniau o Lyfr Mawr y Plant ar gyfer stondin Merched y Wawr yn Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Ogwen.

Llongyfarchwyd Mrs Gweneirys Jones. Dewiswyd tair telyneg o eiddo Mrs Jones i'w cynnwys mewn llyfryn o new telyneg o waith aelodau Merched y Wawr. Enillodd y telynegion eu lle yn y llyfryn ar ôl i'r beirniaid dderbyn 27 o delynegion o bob cwr o Gymru. Bydd y llyfryn yn cael ei gyhoeddi a'i werthu yn y dyfodol agos.

Hysbyswyd fod y llywydd Cenedlaethol wedi cyflwyno siec am £4,455 i Urdd Gobaith Cymru yn y Cyngor Cenedlaethol ym mis Mai.

Pledleisiwyd ar aelodaeth Pwyllgor 1986-7 a hysbysir y canlyniad yn y cyfarfod nesaf.

Bydd y Gangen yn mynd ar wibdaith i Nant Gwrtheyrn ar Fehefin 26 a bydd y bws yn cychwyn o'r Llythyrdy am 6.30.

Ar fyr rybudd cytunodd Mrs Mary Vaughan Jones i roi sgwrs a danogs sleidiau ar ei thaith i Roeg. Cafwyd noson hynod o ddifyr a diolchwyd i Mrs Vaughan Jones gan Mrs Heulwen Huws.

Enillwyd y raffl gan Mrs Olwen Williams.

MERCHED Y WAWR YN EISTEDDFOD YR URDD

A fu erioed cweit gymaint o dreialon i bobl bro Eisteddfod yr Urdd ag a gafwyd ym Methesda eleni. "Gwynt a glaw ar bob llaw" chwedl Almanac Caergybi, ac wedyn llaid a mwy o laid. A chyn hynny problemau'r athrawon yn broblemau i'r Urdd. Ond goresgyn y cwbl wnaeth yr How Gets a chael Eisteddfod ardderchog. Diolch yn fawr iddynt - fe gododd y Phoenix o'r mwd a'r baw.

Yn stryd fawr y pebyll yr oedd gan Ferched y Wawr le clyd am banded a sgwrs, ac yno y bu Mererid James, y Trefnydd Cenedlaethol, drwy gydol yr wythnos efo nwyddau lliwgar a deniadol ar werth. Fe fu'r llywydd Cenedlaethol Eirlys Peris Davies yno hefyd, ac amryw o bob rhan o Gymru.

Yr oedd trefniant y babell yn ddeniadol dros ben, pwyllgor Celf a Chrefft Rhanbarth Arfon fu'n gyfrifol. Gill Brown, dysgwraig o Waunfawr a gynlluniodd y collage a Gwen Pritchard Jones o Ben-y-Groes

wnaeth y cefndir iddo, ac aelodau'r pwyllgor wnaeth y gwaith gwnio a osododd Llyn y Felin a Wil Cwac Cwac ar y muriau.

Bu merched o bob cangen yn y rhanbarth, yn eu tro, yn gyfrifol am y tebot a'r bisgedi, a phawb yn mwynhau cael gweinyddu cysur i'r ymwelwyr.

Diolch yn neilltuol i Eluned Bebb-Jones - y llywydd, ac i Hafwen Roberts, yr ysgrifennydd, a gadwodd drefn ar y gweithgareddau i gyd.

Pwyllgor 1986-87

Mrs Glenys Williams (Llywydd)
Mrs Katie Wynn Jones (Ysgrifennydd)

Mrs Gill Brown (Trysorydd)

Mrs Heulwen Huws

Mrs Iris Owen

Mrs Nan Huws Roberts

Mrs Eluned Roberts

Mrs Betty Hughes

Mrs Beryl Lloyd Jones

Mrs Jeanifred Jones

Mrs Mary Vaughan Jones

Mrs Alma Jones

CYNLLUN NEWYDD

Mae cynllun newydd sbon i adeiladu estyniad i Ganolfan Waunfawr i gynnwys storfa, ystafelloedd newid i grwpiau drama a thimau pel-droed, ystafelloedd snwcer a chwrt sboncen wedi derbyn cefnogaeth ariannol cyngor cymuned yr ardal.

Yn eu cyfarfod diwethaf penderfynodd y Cyngor Cymuned gyfrannu £10,000 tuag at y cynllun. Bydd yr arian yn cael ei gyflwyno dros gyfnos o rai blynedd oedd.

Cafodd y cynnig ei basio'n unfrydol a siaradodd nifer o gynghorwyr am yr angen i ehangu darpariaeth bresennol y Ganolfan er mwyn cynnwys gweithgareddau eraill yn ogystal.

Mae Clwb Chwaraeon wedi ei sefydlu i hyrwyddo'r fenter a gwnaed cais am gymhorthdal oddi wrth Cyngor Chwaraeon Cymru.

Eisoes trefnwyd nifer o ddigwyddiadau i godi arian.

DIOLCH

Dymuna Mrs Parry Williams, Gwynfa ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a rhoddion a dderbyniodd ar ôl marwolaeth ei gŵr, heb anghofio y meddygon a staff yr ysbytai.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR

Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mai:-

1af - £40, Mrs Morgan Jones, Pant Cae Haidd; 2il - £25, Mrs Ann Jones, Heulfryn; 3ydd - £10, Mrs Ann Jones, Heulfryn.

YR URDD

Y mis diwethaf bu 6 aelod o'r Urdd am benwythnos yng Nglanllyn, a chawsant hwyl fawr yno yn ôl pob son. Ym mis Gorffennaf, bydd 14

arall yn mynd i Langrannog am wythnos - wythnos dawel iawn i'r pentref fydd honno mae'n siwr!

CRONFA APEL YR URDD

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a ddaeth i'r bore coffi yn y Ganolfan, ac i bawb a gyfrannodd. Anfonwyd siec o £100 i Aberystwyth.

EISTEDDFOD YR URDD

Llongyfarchiadau i Elin Williams, Llidiart Wen; Jailey Jones, Glyn Afon, ac i Nan Wyn, Tan y Fron. Daeth Elin yn 3ydd ar adrodd dan 12 oed; yn y cystadleuthau nofio, daeth Kailey yn 4ydd yn y ras broga dan 10 oed, a daeth Nan yn 3ydd yn y gystadleuaeth siarad cyhoeddus dan 25 oed.

Hoffai Beryl ddiolch i bawb oedd yn barod i letya rhai o blant yr Urdd, er nad oedd angen lle yn y diwedd.

PEL-DROED

Daeth tîm pel-droed 5-bob-ochr yn ail drwy Gymru ym Mhencampwriaeth yr Urdd, yn Aberystwyth.

MABOLGAMPAU CYLCH ARFON

Yn y mabolgampau a gynhaliwyd ar gaeau Ysgol Syr Huw Owen, daeth Diane Davies yn gyntaf ar y Naid Uchel ac am redeg dan 12 oed, a daeth Sam Pierce yn drydydd am redeg dan 12 oed. Cafodd tîm y bechgyn dan 10 3ydd ar y Râs Gyfnewid, a thîm y genethod dan 12 drydydd hefyd.

LLONGYFARCHIADAU

I Mrs Peggy Jones, Fferm Glyn Afon, ar ei llwyddiant ysgubol gyda'i gwaith llaw yn Sioe Grefftau Sefydliad y Merched Arfon, a gynhaliwyd yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Cafodd 8 gwobr cyntaf a nifer o wobreuon eraill.

I Michael Parry, Ffridd Felen, ar ei dywedd i Liz Burns o Fanceinion; ac

I Denise Parry, Bryn Golau, ar ei dywedd i hithau.

I Meira Turner, Collfryn, ar ennill y wobwr gyntaf ar y Brif Adroddiad yn Eisteddfod Llanfair T.H., Abergele, ar Fehefin 14eg. Cafodd Meira a Margaret gyntaf ar y ddeialog hefyd ac Alun Williams 4ydd ar yr Unawd Gymraeg. Yn Eisteddfod Dyffryn Conwy, Llanrwst, Mehefin 21ain, llwyddodd Meira i ennill y wobwr gyntaf unwaith eto ar y Brif Adroddiad.

CLWB 100 PLAID CYMRU

Dyma restr o enillwyr y Clwb am fis Mai:

1af, Marian Iwan, Pen-y-Berth; 2il lolo Huws Roberts, Bodrida; 3ydd Duncan Brown, Gwelfor.

HELFA DRYSOR

Fe gynhelir Helfa Drysor (elw at yr Ysgol Feithrin) nos Wener, Gorffennaf 11 - cost £1 y car. Manylion pellach ar bosteri yn y siopau lleol.

PAUL - PYSGOTWR GORAU'R WAUN



Fis neu ddau yn ôl ymddangosodd adroddiad yn yr Eco am gystadleuaeth bysgota Aelwyd ac Antur Waunfawr yn Llyn Tanygrisau. Er bod tri-chwarter y llyn wedi rhewi'r tro hwnnw, cafodd Paul Lewis un andros o blwc. Wel, yn ddiweddar cafwyd cystadleuaeth arall, yn Llyn Alaw ym Môn y tro hwn.

Daeth mwy o griw ynghyd yr ail dro ac roedd y cystadlu'n frwd iawn. Taflwyd sawl pluen, mepsen a phry genwair i ddŵr brown y llyn yn y gobaith o ennill y gystadleuaeth ond heb fawr o lwc.

Gwelwyd tro ar fyd ganol y bore, ar ôl tua dwyawr o bysgota. Paul gafodd

blwc ar ei wilaen eto, ond y tro yma roedd o'n barod a chyn pen dim roedd brithyll dau bwys a hanner yn ddiogel yn y rhwyd. Cafwyd ambell blwc arall yma ac acw ond yr agosaf at Paul, a'r ail yn y gystadleuaeth oedd Gareth Rhys gyda physgodyn pwys - y cyntaf iddo'i ddal erioed.

Yn y llun gwelir Dic Jones yn cyflwyno Tlws yr Aelwyd i Paul, a'r brithyll braf yn ddiogel yn ei afael. Erbyn hyn mae'r Tlws yn cael lle o anrhydedd ar silff yn swyddfa Antur Waunfawr - silff sy'n dal tlysau eraill a enillwyd gan Paul am gampau megis nofio a rhedeg. Llongyfarchiadau mawr iddo.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI Fforddio Prynu o Batrymau?

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

TAC SIS

AMBERLINE

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn 670555

APÊL SCANYDD CORFF

Sefydlwyd Pwyllgor Apêl Waunfawr tuag at Sganydd Ysbyty Gwynedd, Bangor gan y Cyngor Cymuned Lleol. Rhoddwyd cychwyn da i'r fenter trwy i'r Clwb Ieuencid wrth gwely o'r pentref i Fangor ddydd Sadwrn, 28ain Mehefin, a chasglu £300 at yr achos. Yn ychwanegol at hyn cafwyd ymateb rhagorol i lythyr anfonwyd allan i'r pentrefwyr yn gofyn am roddion ac erbyn hyn daeth dros £600 i LAW.

Cynhelir Ffair Haf yn y Ganolfan nos Wener, 4yff Gorffennaf i hybu'r achos ac mae amryw o weithgareddau eraill ar y gweill i godi arian tuag at yr Apêl.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i'r pentrefwyr a phawb sydd wedi cyfrannu a rhoi o'u hamser i wneud y fenter hon yn llwyddiant. Daliwch ati.

Cynhelir Ffair Haf er budd Apêl Sganydd Ysbyty Gwynedd, yn y Ganolfan, Waunfawr, nos Wener, Gorffennaf 4ydd, am 6.30 o'r gloch. Amrywiol stondinau. Tâl mynediad: 20c i oedolion a 10c i blant a phensiynwyr, yn cynnwys paned.

EISTEDDFOD YR ARDAL

I'r rhai ohonoch sy'n hoffi gwau, dyma ddwy gystadleuaeth i chi fwrw ati yn ystod y gwyliau:-

Siaced Aran i blentyn

Top di-lewys

Mae'r cystadleuthau yn agored i bob oed.

LLONGYFARCHIADAU

I Joy ac Eifion Glyn, Plas Bodhyfryd, ar enedigaeth merch fach, Anna, chwaer i Lowri ac Ifan.

I Anthony Marston, Blaen y Nant, ar gyrraedd ei benblwydd yn 18 oed.

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â Mrs L. Pierce a Gareth, Ty'n Twll Mawr, yn eu profedigaeth o golli priod a thad, sef Mr Clifford Pierce.

A Mr Arthur Pierce, 1 Bro Waun, ar golli brawd.

A Mr Eric Jones, 22 Tref Eilian, ar golli mam yn frawychus o sydyn.

A Mrs G. Roberts, 14 Bryn Golau, ar golli chwaer.

ac a Miss Kate Humphreys, Bro Waun, ar golli chwaer.

ADREF O'R YSBYTY

Bu Mr Peter Evans, Preswylfa, a Mr George Taylor, Baladeulyn, Dol Erddi yn derbyn triniaeth llaw feddygol yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Da yw cael eu croesawu gartref a mawr hyderwn eu bont yn gwella.

YR YSGOL FEITHRIN

Nos Iau, Mai 8fed, ar waetha'r tywydd ansicir, aeth criw o famau ac aelodau pwyllgor yr Ysgol Feithrin ar daith gerdded o amgylch y pentref. Cyfranwyd rhan o'r arian a gasglwyd i gronfa genedlaethol y Mudiad. Diolch i John Huws am drefnu'r daith, ac i bawb am eu cefnogaeth. Bu'r plant bach yn Ysgol Bontnewydd ar Fai 16 yn gweld perfformiad gan Theatr Crwban. Roedd yr ymweliad yn llwyddiant mawr.

TRIP

Dydd Iau, Gorffennaf 10 bydd trip blynyddol y plant yn ymweld â Sŵ Bae Colwyn. Fer arfer, mae Mr. Jones y prifathro wedi cytuno i'r brodyr a'r chwiorydd hyn sy'n mynychu'r Ysgol Gynradd gael ymuno yn yr hwy. Bydd y bws yn cychwyn o'r post am 10 o'r gloch. Enwau i Llinos Cadwaladr, 3 Glyn Afon.

PLAID CYMRU

Cynhaliwyd Noson Caws a Gwin yn Lliwyn Onn, nos Wener, 20fed Mehefin. Mawr ddiolch i Dic a Jean Jones am yr holl baratoi ac i bawb a gefnogodd noson mor fendigedig.

RALI 'COFIO PENYBERTH'

Gorffennaf 5ed. Gwnewch ymdrech arbennig, os gwelwch yn dda, i fod yn bresennol.

DYDDIADAU I'W COFIO

Gorffennaf 19 - Barbaciw a thaith ddirgel

Gorffennaf 29 - Diwrnod ar Ynys Enlli
Manylion pellach am y ddau achlysur yn y man.

FFAIR BACH MIHANGEL

Cynhelir ffair er budd yr Ysgol Feithrin, ddydd Sadwrn, Medi 13 yn y Ganolfan. Stondinau, caffi, cystadleuthau, gwisg ffansi ac yn y blaen. Ewch ati ar unwaith i baratoi jam, nwyddau a chynnyrch cartref!

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i Mrs Eluned Davies, Bethel, am ei gwaith yn yr Ysgol Feithrin ers mis Medi diwethaf; pob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd yn Bethel.

YN EISIAU ATHRAWES

(trwyddedig os yn bosibl)
i Ysgol Feithrin
Waunfawr
o fis Medi, 1986
Am fanylion pellach
cysylltwch â Mrs Llinos
Cadwaladr
ffôn: Waunfawr 591

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

AR Y CREIGIAU: Cawsom gyfle i synnu a rhyfeddu at gamp un o ferched ieuanc y pentref yn y rhaglen deledu 'Ar y Creigiau' nos Lun, Mai 26. Dangosodd Anita Jones, Cae Coch ddewrder eithriadol wrth ymarfer ei dawn arbennig i ddringo, a thrwy hynny goncro craig serth yn chwael Vivian, Llanberis. Bu Anita yn ymddiddori mewn dringo ers ei dyddiau coleg yng Nghaerdydd ac wedi hynny 'rôl ymarfer ar greigiau yn Sir Benfro dyma fentro i'r Alpau ac un o'i gorchestion yno oedd dringo'r Matterhorn. Erbyn hyn, bu Anita yn arwain mewn amryw ddringfeydd. Ers gadael coleg, bu'n athrawes gwyddor cartref yn Ysgol Tryfan, Bangor ond fis Medi nesaf bydd yn dilyn swydd gyffelyb yn Ysgol Uwchradd Bodedern, Ynys Môn.

CLWB Y MAMAU: Tro i'r awyr agored oedd hanes aelodau'r Clwb nos Lun, Mehefin 9. Mwynhawyd taith ar droed o'r pentref dros hen bont Penllyn, cyrchu tua Chwm-y-glo, dringo'r llethrau i ffordd Bryn Bras a dychwelyd ar hyd y briffordd o Lanrug. Hwn oedd

cyfarfod olaf y tymor presennol.

O'R YSBYTY: Llawnwydd yw deall fod Janet Jones, 5 Trem Eilian wedi dychwelyd adref o Ysbyty Gwynedd ac yn gwella'n foddhaol wedi damwain arw pan gafodd ei thrawo gan gerbyd wrth groesi'r ffordd osgoi nid nepell o'i chartref. Dymuna Janet ddiolch i bawb am bob caredigrwydd ac am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd yn ystod ei harhosiad yn yr ysbyty.

TRIP: Bydd trip yr Ysgol Sul eleni yn mynd iu Lerpwl ddydd Sadwrn, Gorffennaf 5 a threfnir i ymweld â'r arddangosfeydd yn 'Albert Dock' ar lan Afon Mersi fel rhan o'r wibdaith.

HELFA DRYSOR: Cafwyd noson lwyddiannus eleni eto dan nawdd Clwb Gweithgareddau'r Pentref nos Sadwrn, Mehefin 14 yn yr Helfa Drysor a drefnwyd gan Mr a Mrs K. Jones a Mrs Carol Houston. Enillwyd yr Helfa gan deithwyr modur Mr Deiniol Evans a chysurwyd y rhai oedd ym modur Miss L.P. Roberts i 'gymryd y droed y tro nesaf!' Mwynhawyd lluniaeth rhagorol ar derfyn y daith yng Ngwesty Tŷ Uchaf,

Tal-y-bont.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Lun, Mehefin 11 croesawyd yr aelodau i aelwyd Mrs Jennie Hughes ym Mryn Parc. Treuliwyd noson arbennig o ddiddorol yng nghwmni Mrs Jean Davies, un o'r aelodau yn adrodd hanes ei hymweliad â'i merch yn Awstralia yn ystod y gaeaf diwethaf. Mrs Davies hefyd oedd cynrychiolydd y gangen yng Nghyfarfod Blynyddol Sefydliad y Merched yn Llundain a chafwyd adroddiad cynhwysfawr ganddi o'r gweithgareddau yno. Rhoddwyd y te gan Mrs M. Jones a Mrs J. Davies a Mrs J. Maxwell oedd enillydd y raffl a gyflwynwyd gan Mrs Helen Jones. Trefnir gwibdaith y gangen eleni ar Fedi 6 a chyhoeddir y manylion yn nes ymlaen.

DYCHWELYD I'R ARDAL: Da deall fod Mr Meredydd Foulkes, Brynderw sydd wedi bod yn cartrefu ers rhai misoedd yn Nwyran, Ynys Môn erbyn hyn wedi dychwelyd i'w henfro i Gartref Bron Eryri, Llanberis. Dymunwn yn dda iddo fel pentrefwyr.

CURIAD CALON CYMRU



A YW CURIAD CALON CYMRU YN CURO YN ARDAL ECO'R WYDDFA?

Yn 1985 lansiwyd Curiad Calon Cymru, rhaglen i geisio lleihau nifer o farwolaethau o achos afiechydon y galon yma yng Nghymru. Bwriad y rhaglen yw i ledaenu gwybodaeth ynglŷn â'ch diet â'ch iechyd. Ond a yw'r curiad wedi dechrau curo yn ardal Eco'r Wyddfa?

Fel rhan o fy ymchwiliadau i fy nghwrs gradd Gwyddor tŷ ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd, rwyf am geisio darganfod os yw'r neges yn cael ei throsglwyddo a'i derbyn, yn enwedig felly yn ardal Eco'r Wyddfa.

Yn y rhifyn hwn bydd tua 200 ohonoch yn derbyn holiadur yn ei copi o Eco'r Wyddfa. Holiadur syml yn holi am eich diet â'ch iechyd, ac yn aml yn gofyn am air neu groes yn ateb.

Yr wyf yn erfyn ar bawb sy'n derbyn yr holiadur i'w lenwi yn ofalus a'i ddychwelyd ymhen pythefnos o'i dderbyn. Y bwriad yw i gyhoeddi'r canlyniadau yn Eco'r Wyddfa mor fuan â phosibl, ac i ddarganfod os yw Curiad Calon Cymru wedi codi calon darllenwyd Eco'r Wyddfa.

Gyda diolch
Mari Mererid Williams

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau'r 'Eco'.

£10. Er cof annwyl am Lal Jones, Cyncoed, Llanberis oddi wrth Heulwen, Gwenda, Aled a'r teulu.
£10. Mrs K. Roberts a Mr a Mrs E. Griffith, Erw Gain, Llanrug.
£10. Mr a Mrs Myrddin Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis.

£5. Mrs Eluned Jones, Cae Corniog Mawr, Penisarwaun.

£5. W.A. a G.M. Jones, Dalar Deg, Llanrug.

£5. Ifor a Dilys Evans, 48 Maes Padarn, Llanberis.

£2. Tony a Carol Sage, Llanberis; Arwel Hughes, 2 Rhes Victoria, Deiniolen; Mrs Nesta Jones, 2 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Mr a Mrs R. Griffith ac Elizabeth Ann Jones, Groeslon Isaf, Penisarwaun; Eleri ac Eilir, Peris View, Llanberis; Osian Gwynedd, Waunfawr; Mrs Ellen Williams, Moelwyn, Hafan Elan, Llanrug.

£1. Ian ac Eira Wyn Jones, 40 Stryd Newydd, Deiniolen.

Yn eisiau

BABY BELLING

Chwiliwch yn y garej a ffonio
CAERNARFON 5605

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

- Jig i Atgyweirio Cyrrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas



Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

ECO'R IFANC



Plant Ysgol Pendalar a fu'n fuddugol yn y gystadleuaeth Cerddoriaeth Greadigol ym Methesda.



Gwobr gyntaf i Ffion Orwig Thomas ar yr unawd alaw werin.



Iolo Roberts, Caeathro, a fu'n llwyddiannus yn y gystadleuaeth farddoniaeth dosbarth 4-5-6.

MWY O WOBRAU I BLANT Y FRO

(Ymddiheurwn am na ellid cynnwys llun pawb)

CYNTAF

Gwenan Mair Roberts (Llanrug) - unawd offerynnol dan 12 oed.

Parti Telyn Ysgol Llanrug.

Manon Llwyd Evans a Sharon Williams - deuawd piano 15-19 oed.

AIL

Dyfan Siôn (Gwaun Gynfi) - barddoniaeth 10-12 oed.

Manon Ll. Evans (Ysgol Brynrefail) - unawd piano 15-19 oed.

Siân Bowen (Aelwyd Deiniolen) -

alaw werin 19-25 oed.

Pedwarawd Aelwyd Deiniolen (14-25 oed).

TRYDYDD

Alun Griffiths (Gwaun Gynfi) - collage 10-12 oed.

Elin Gwilym (Waunfawr) - adrodd 10-12 oed.

Non Wyn Jones (Waunfawr) - siarad cyhoeddus 14-25 oed.

LLONGYFARCHIADAU I BOB UN OHONOC AM DDWYN CLOD I'R ARDAL.

MABOLGAMPAU'R URDD CYLCH ARFON ENILLWYR - YSGOL GWAUN GYNFI



CYFFURIAU A THODDYDDION

Ydych chi wedi gweld pethau a allasai arwain i sefyllfa waeth? Ydych chi wedi clywed, neu efallai'n amheus? Ydych chi angen gwybodaeth? Peidiwch ag oedi, da chwi. Dowch i gysylltiad ag unrhyw un o'r canlynol: **PC Oscar Evans** (Swyddog Cyswilt Heddlu) Caernarfon 3333; **Gwynndaf Jones** (Uwch Swyddog Lles) Caernarfon 4121 est 2215; **W.E. Thomas** (Prifathro Ysgol Brynrefail) Caernarfon 2381.

LLWYDDIANT PLANT A PHOBL IFANC Y FRO YN EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN



Genethod Ysgol Gwaun Gynfi a fu'n llwyddiannus iawn drwy ennill dwy wobwr gyntaf - Parti Cerdd Dant a Pharti Unsain.



Ffion John - cyntaf yn yr unawd merched 12-15 oed.



Graham Williams - cyntaf unwaith eto yn yr unawd pres 15-19 oed.

TLWS ECO'R WYDDFA

PÊL-DROED 7 BOB OCHR

NOS FERCHER, GORFFENNAF 9

CAE CHWARAE YSGOL LLANRUG

6.00 o'r gloch

Cysylltwch ag Edward Elias (Ffôn 3719)

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

SPORTS AID

Mae cyfanswm yr arian a gasglwyd gan ddisgyblion bron iawn yn £800 erbyn hyn. Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymgyrch ac i'r noddwyr am eu cefnogi.

CYSTADLEUAETH BARDDONIAETH GWYNEDD

Enillwyd y wobwr gyntaf (Saesneg) gan Amanda Lingard, 14 oed, a'r ail wobwr gan Eurgain Haf Evans, 14 oed. Ysgrifennodd Amanda faled gyfoes am broblemau pobl ifanc ac ysgrifennodd Eurgain gerdd sydd yn disgrifio'r awyrgylch sinistr mewn hen dŷ. Dywedodd y beirniad, Menna Elfyn, bod safon y gwaith yn arbennig o uchel.

CYHOEDDI EISTEDDFOD BRO MADOG

Cynrychiolwyd yr ysgol gan ddwy o enethod y drydedd flwyddyn, sef Angharad Price o Fethel ac Eurgain Haf o Benisarwaun ynghyd â Mrs Eysyllt Jones. Bu gorymdaith drwy dref Porthmadog a chyfarfod y cyhoeddi ger meini'r Orsedd.

CHWARAEON

CYFARFOD ATHLETAU YSGOLION GWYNEDD: Dewiswyd y canlynol i gystadlu yn y cyfarfod: Christopher Jones (Disgen), Paul Grant (800m), Patric McGuinness (Disgen a Phicell), Paul Prydderch (1500m), Mark Porter (Picell), Michelle Thornton (Disgen), Nia Owen (Picell), Lynne Jones (Picell).

Enillodd Paul Grant y ras 800m ac fe fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli Ysgolion Gwynedd yn y Cyfarfod Cenedlaethol ym Mae Colwyn ar y 5ed o Orffennaf.

CRICED: Tim dan 14 oed yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen. Brynrefail: 62 am 6 mewn 20 pelawd. Syr Hugh Owen: 66 am 8 mewn 15 pelawd. Tim dan 13 oed yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen.

Syr Hugh Owen: 53 i gyd allan. Brynrefail: 57 am 3 wiced (Iestyn Roberts 23 h.f.a.)

Tim dan 14 oed yn erbyn Ysgol Tryfan (Tlws Ysgolion Gwynedd). Tryfan: 46 i gyd allan.

Brynrefail: 48 am 6 wiced. Bydd yr ysgol yn chwarae Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda yn y rownd nesaf ar y 4ydd o Orffennaf.

DAU BWNC – DAU LYTHYR RHYFELA

Yn ystod y misoedd diwethaf yr ydym ym mlwyddyn tri wedi bod yn dilyn y thema Rhyfel, drwy gyfrwng barddoniaeth, storïau, erthyglau a dramâu. Buom yn astudio canlyniadau difrifol arfau niwclear a'r effaith a gâi ar fywydau cenedlaethau diniwed y dyfodol.

Pan ddechreuom ar y fentr hon ychydig y meddylïom y byddai damwain ddifrifol yn digwydd oddi mewn i orsaf Bwer Niwclear yn Rwsia. Cafodd nifer eu lladd ac amryw eu hanafu gyda'r nwy ymbelydrol a ddihangodd, ac wrth gwrs, y mae wedi effeithio'n ddifrifol ar yr ardal o amgylch Chernobyl.

Ond nid yno yn unig yr arhosodd y nwyon ymbelydrol i gyd. Yr oeddynt wedi trafaelio i'r wlad hon a nifer o wledydd eraill yn Ewrop, gan achosi pryder i lawer. Roedd ein llefrith a'n llyisiau, er enghraifft, yn wenwynig am rai wythnosau. Ysbrydolodd hyn aelodau o'n dosbarth i ysgrifennu at yr A.S. Dafydd Wigley gan mor bryderus oedd eu teimladau.

Yr ydym wedi blasu difrifwch y nwyon angheuol yma. Felly beth am i ni uno i ddinistrio'r arfau angheuol sydd mewn bod? Rydym yn cael ein defnyddio fel gwystlon mewn gêm rhwng awdurdodau nerthol America a Rwsia.

Mae pawb ond un yn ein dosbarth yn argyhoeddedig fod arfau niwclear yn fygythiad difrifol i'r holl fyd a dynolryw.

Yn dilyn y trafodaethau yn y dosbarth wrth i ni geisio chwilio am ddadleuon o blaid ac yn erbyn arfau niwclear penderfynodd rhai ohonom yn ogystal â Mrs Jones ymuno ag C.N.D. Dyma gopi o'r llythyr a anfonwyd gan rai aelodau o'r dosbarth at Mr Dafydd Wigley A.S. Gwyn Griffith (3A)

Ysgol Brynrefail,
Llanrug,
Caernarfon.
Mai 15, 1986

Dafydd Wigley, A.S.
Yr Hen Efail,
Y Bontnewydd,
Caernarfon.

Annwyl Syr,

Byddwn yn hynod ddiolchgar pe baech chi yn rhinwedd eich swydd fel Aelod Seneddol yn anfon y llythyr hwn i'r dwylo priodol.

Yn dilyn trychineb Chernobyl yn Rwsia 'rwyf wedi sylweddoli nad yw'r atomfeydd yn ddiogel. Ni chredaf fod unrhyw atomfa yn ein gwlad ni yn gwbl ddiogel. Mae hyn yn fy mhoeni'n arw gan fy mod yn byw fwy neu lai yn y canol rhwng dwy atomfa, sef Trawsfynydd a'r Wylfa ar Ynys Môn. Felly hoffwn ddatgan fy nffyg ffydd yn niogelwch atomfeydd. Gofynnaf i chwi wneud yn siŵr nad adeilidir unrhyw Atomfa Niwclear arall ym Mhrydain.

Dsmunaf i chwi ddatgan wrth y Prif Weinidog fy mod yn anghymeradwyo'r ymosodiad diweddar a fu ar Libya. Roedd gennyf gywilydd meddwl fod ein gwlad ni â'i bys ym mrywes y mater hwn. Pwy ar y ddaear a all gymeradwyo lladd plant dieuog?

Yn olaf, credaf fod gormod o wario ar arfau niwclear ym

Mhrydain. Beth am roi'r arian sy'n cael ei wario ar amddiffyn i fyd addysg (gwella cyflwr yr ysgolion a phrynu llyfrau etsc), iechyd (ni fyddai raid i ni wedyn gasglu arian i gael Sganydd i Ysbyty Gwynedd) ac i adeiladu ffyrdd a thai gwerth chweil.

Gobeithiaf yn arw Mr Wigley y byddwch chi yn cyflwyno'r llythyr hwn i'r gweinidog priodol yn y Llywodraeth yn San Steffan.

Yn gywir iawn

DE AFFRIG

Buom yn trafod y broblem lliw gyda Mrs Jones yn y wers Gymraeg yn ystod yr wythnosau diwethaf. Anfonwyd nifer o lythyrau oddi wrth aelodau'r dosbarth at yr Esgob Tutu yn canmol ei waith dros y dyn du yn Ne Affrig. Dyma gopi o lythyr Gethin Llywelyn Griffith. Yr ydym yn awyddus i ddarllenwyr yr Eco ddarllen y llythyr. Beth yw eich barn chi tybed? A ydych yn cytuno gyda Gethin? Anfonwch air atom.

Dosbarth A (TAU)

Ffarm Llys
Penisarwaun
Caernarfon.
Mehefin 16, 1986

Yr Esgob Desmond Tutu

Y Gadeirlan,
Johannesburg
De Affrig

Annwyl Syr,

'Rwyf yn ysgrifennu'r llythyr hwn i ddiolch i chi am y ffordd yr ydych yn sefyll dros hawliau'r dyn du. Does dim gwahaniaeth rhwng y du a'r gwyn ond pam y mae'r gwyn yn rheoli gwlad y du? Mae gwaed pawb yr un fath. De Affrig yw gwlad y du nid y gwyn ac y mae'r du yn cael eu herlid yno.

Mae hi ychydig yn well ym Mhrydain ond yma hefyd y mae'r bobl gyda rhagfarn. Mae'r National Front' a phawb gwyn yn credu eu bod yn well na neb arall. Nid yw'r duon yn cael eu lladd yma fel yn Ne Affrig ond mae llawer o bwyllgorau a chyfarfodydd rhwng y du a'r gwyn.

Rwyf yn credu ei bod hi fel yr ail ryfel byd yn Ne Affrig. Mae'r duon yn cael eu trin fel yr oedd yr Iddewon gynt. Dylai'r duon gael mynd i'r un clybiau a'r ysgolion a chymdeithasau a'r gwyn. Yn bendifaddau, mae'r driniaeth o'r duon yn warthus.

Mae'r bobl wyn sy'n rheoli De Affrig gyda rhagfarn yn erbyn y duon ac maent yn eu dirmygu hwy. Dylid gwneud yn berffaith siŵr fod y driniaeth o'r duon yn gwella. Gallwn wneud hyn drwy uno pob gwlad a gwahardd delio â De Affrig. Mae Llywodraeth Prydain yn rhy lwfr i wneud hyn ac mae hyn yn g'wilydd. Pan mae hi yn fater o beidio â mynd i'r Gemau Olympaidd yn Rwsia gall y llywodraeth sefyll i fyny dros Unol Daleithiau America ond pan mae bywydau pobl a'r ffordd y maent yn cael eu trin yn y cwestiwn maent yn ofnus. A gyda'r esiamp yma rydym ni yn mynd yno i ganu a chystadlu gyda phobl wyn De Affrig a dweud mai mater politicaidd yw a dim i wneud â hwy.

Os bydd y gwledydd yn uno gyda'i gilydd fe allwn orffen y lladd a'r trais a gwneud gwell lle i'r duon yn eu gwlad eu hunain. Ond mae pawb yn troi eu cefnau. Nid mater politicaidd yw o yn y bôn ond rhagfarn yr

CORNEL FARDDONIAETH

NOS

Placed ddu
yn cuddio'r
wlad.

Pobl y pentref
yn cysgu
yn braf.

Hwtian yn wir
wna'r dylluan
fawr wen.

Lleud Fedi
fel lamp
yn y nen.

Sêr bach aur
yn wincian
mewn hedd.

Ysbrydion Nos
yn dawnsio
o'r bedd.

Placed wen
yn dod
o'r diwedd.

Dweud ffarwél
i'r nos
ddu dawel.

Osian Dafydd (9 oed)
Penisarwaun

YFORY

Byd o ddialedd,
annhegwch a phoen.

Belw'n o fogail
y bachgen bach du,
llygaid fel dwy soser
ymbilgar

ynghanol w'y o ben.
A ddaw yfory a grawn
i lenwi ei blât gwag?

A fydd cyfiawnder i'r Du
yng ngwres creulon De'r Affrig?
A gaiff o waith safonol
a pharch

Gan mai coch hefyd yw lliw ei waed?

Hen iaith fy nghyn-dadau,
iaith y Beibl,
iaith a fagodd feirdd
a chantorion
A fyddi di yma o hyd?

Cysgod du
Y Fom Niwclear!
Her i ddynoliaeth
Madarch hud yn esgyn
yn chwyddo'n
uchel uwch Chernobyl
gan fwrw ei effaith
i'r ddaear ir.
Trawsfynydd a'r Wylfa,
Taflegrau cas,
Rhyfel y Sêr,
Bomiau dinistriol...

oesoedd fod y gwyn yn well na'r du.
Mae hi yn hen amser newid hyn ac
mae o yn ein gallu i newid pethau.
Yn gywir,
Gethin Griffith.

Anialwch ymbelydrol!

A fydd yfory?

Eurgain Haf (13 oed)
Penisarwaun

Y BOM

A dyma fo
y caws llyffant
a'i fôn yn un ysgelerder anferth.
Fel ywen ddychrynlyd
mewn mynwent ymbelydrol, di-fedd.
Ei changhennau'n ymbarel drahaus
yn cynnig noddfa i'r gweddillion
rhag y corwynt cam.
A'r tân sy'n gloddesta ar wenwyn
y cyrff oerion.
Yn fuan,
daw'r malurion o'r ffug-goeden
i lawr
felk dail yr Hydref
gan ffurfio gorchudd moethus
i guddio
sgerbydau hyl
yr anfadwaith
a fu.
Fel côt o baent ffres
dros hen wal.
A'r caws llyffant
o'r golwg –
dros dro.

Angharad Preis
(Bethel)

BREUDDWYD

Blodau coch a rhai yn gelyn,
Coedydd lliwgar, sw'n y delyn.
Afon bur a physgod gardd,
Dyna oedd yn fy mreuddwyd hardd.

Cwningen fach a draenog y maes,
Ceffyl gwyn a mwng mawr llaes,
Awyr las heb gwmwl du,
Dyna oedd yn fy mreuddwyd i.

Gwynt yn codi, yr awyr yn duo,
Anifeiliaid oedd yn cuddio,
Melltyn yn fflachio yn ei chri,
Rhwygwyd a malwyd fy mreuddwyd i.

Codi'n fore, t'ranu allan,
Blodau marw oedd ym mhobman,
Dail ar y llwybr, rhai coch a rhai melyn
Ac nid oedd eto diwn y delyn.

Andrea Paterson (10 oed)

YN EISIAU ERBYN MIS MEDI

Gohebydd i fod yn gyfrifol am
dudalen 'Eco'r Ifanc'
Os oes diddordeb cysylltwch
ag Edward Elias, Gwên y
Wawr, Llanrug
Ffôn: 3719

SIÔN A SIÂN

Bydd y gyfres boblogaidd SIÔN A SIÂN yn ôl ar S4C cyn hir.

Yn stiwdio HTV yn Yr Wyddgrug y bydd y rhaglenni yn cael eu recordio, a hynny ddiwedd mis Gorffennaf. Ar gyfer y gyfres bydd angen cystadleuwyr a chynulleidfaoedd. Os oes gennych ddiddordeb, danfonwch yr isod ar unwaith at Siôn a Siân, HTV, Y Ganolfan Deledu, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 6XJ.

Enw
Cyfeiriad

Rhif ffôn

() Hoffwn gymryd rhan yn Siôn a Siân
() Hoffwn ddod â chynulleidfa i weld y rhaglen yn cael ei recordio.

Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)


YSGOL TAN Y COED

Bu'r ysgol yn ymweld â Phili Palas ym Mhorthaethwy, Mehefin 28ain. Bu'r plant hyn yn brysur yn llenwi holiaduron a'r babanod yn gwneud lluniau glöynod byw amryliw. Bydd yr ysgol yn cau Gorffennaf 15fed am wyliau'r haf, ac yn ail ddechrau Medi 2il. Ein dymuniadau gorau i bob un o'r plant fydd yn dechrau gyrfa newydd yn yr Ysgol Uwchradd.

Y mae pawb yn yr ysgol yn dymuno gwellhad buan i Aled, o ddosbarth y babanod, wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Brysia wella Aled.

YR URDD

Llongyfarchiadau i Arwel Jones, 11 Bryntirion, ar ddod yn ail am daflu pêl i blant 8-10 oed, ym mabolgampau'r Urdd a gynhaliwyd yn Ysgol Syr Huw Owen.



CAPEL BOSRA

Bydd trip yr Ysgol Sul, Sadwrn 5ed. Pris £2 i oedolion a £1 i blant, nad ydynt yn aelod o'r Ysgol Sul. Arian i Elisabeth Jones cyn gynted â phosibl os gwelwch yn dda. Bydd y bws yn cychwyn o King am 9.30 o'r gloch.

EGLWYS SANTES HELEN

Mae'n bleser gweld y fynwent yn edrych yn daclus a diolchwn i Mr. D Webb am ei waith. Mae'r swyddogion yn barod i dderbyn rhoddion tuag at y gôst o gynnal a chadw'r fynwent. Y mis hwn rydym yn cydnabod y rhoddion canlynol: Cronfa'r Fynwent £2 Mrs E M Pritchard (gynt o 4 Brynhyfryd) £5 - teulu 3 Bryn Tirion.

Cronfa'r Atgyweirio £2 Mrs E M Pritchard. Diolch yn fawr.

GYRFAOEDD CHWIST - MIS Gorffennaf 4ydd a'r 18fed yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 p.m.

GWASANAETHAU GOSBER

Yn Eglwys St. Helen, Gorffennaf 27ain, Awst 24ain, Medi 28ain am 4.30 p.m.

Gobeithio fod troed Mr. Tegid Roberts, Arwel, yn gwella erbyn hyn. Bydd y trip i Rhyl, Sadwrn 5ed yn cychwyn am 9.30 o King.

GWELLHAD

O'r diwedd fe ddaeth y tywydd braf i godi'r galon. Dymunwn wellhad buan i bawb sy'n sâl yn y pentref. Ein dymuniadau da am wellhad sydyn i Wil Jones, 24 Bryn Tirion, i Carol Jones, Mrs Hoskinson, Pant Afon a Mrs Roberts, Pengaer wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Ein cofion at Ann Jones, Ty'n Gerddi, gan obeithio ei bod yn dal i wella.

Mae Mrs Eleanor Jones, Racca Cottage wedi dychwelyd i'r ysbyty ar ôl tri niwrnod gartref, mae yn Ysbyty Eryri, Caernarfon nawr a dymunwn adferiad buan iddi hithau.

LLONGYFARCHIADAU

Ein llongyfarchiadau i Ffion Larsen ar ei llwyddiant yng Ngholeg Harlech wedi iddi astudio Seicoleg a Chymdeithaseg, ac hefyd am iddi ei derbyn i Brifysgol Sussex i ddilyn cwrs mewn Seicoleg.

Da oedd gennym glywed am ychwanegiad arall i deulu bach Cai a Lyn Larsen. Bachgen bach y tro hwn, Gwern Arfon Rhys, brawd i Llinos Haf a Lowri Fflur. Llongyfarchiadau iddynt a phob dymuniad da. Rhoddwyd Arfon yn enw canol iddo gan iddo lwyddo i ddod i'r byd hwn ar yr union amser yr oedd ei nain yn cael ei hurddo yn Faer Cyngor Arfon, ar Fai 21ain, 1986.

Aeth Trystan yn weddol bell i ddod o hyd i wraig iddo'i hun, yn wir aeth i'r Parc, ger y Bala. Un o deulu Pant Neuadd yw Sioned Dafydd, sydd bellach yn gweithio yng Nghartref Bontnewydd, tra gweithia Trystan yn YSGOL YR Hendre. Priodwyd y ddau yng Nghapel y Parc, Mai 24ain. Maent wedi ymgartrefu yn Twtil, yng Nghaernarfon. Pob dymuniad da ichwi.

Llongyfarchwn John Arwyn, Arddurn, ar ei dderbyn i'r Orsedd.

SUL Y MAER

Wedi iddi ei hethol yn Faer ar Gyngor Arfon am y flwyddyn 1986-87, cafodd Mrs. Pat Larsen ei Gwasanaeth Dinesig yng Nghapel Libanus, Clwt y Bont, brynhawn Sul, Mehefin 22ain am 2.00 p.m.

Caplan y Maer, y Parch Ifor L. Williams oedd y pregethwr gyda Mr Robert Williams a Mr Leslie Larsen yn darllen o'r Ysgrhythur. Miss Mair Rees Jones oedd wrth yr organ. Yr oedd nifer o gynghorwyr Arfon a Gwynedd yn bresennol ynghŷs â swyddogion



o'r ddau gyngor. Hefyd yn bresennol oedd y Canon Robert Williams, Cadeirydd Cyngor Sir Gwynedd gyda Mrs Williams, Cadeirydd Cyngor Dosbarth Dwyfor, Maer a Maeres Dinas Bangor a Maer a Maeres Cyngor Tref Caernarfon.

Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd lluniaeth ysgafn yn Ysgol Gynradd Llanrug. Dymuna Mrs Pat Larsen ddiolch o galon i bawb a anfonodd eu dymuniadau da iddi, i'r rhai oll a ddaeth i'r gwasanaeth, i Mrs Horman a merched y gegin, ac i'r gofalwr yn ysgol Llanrug, hefyd i'rai o'r merched ym Mhenisarwaun am eu cymorth parod yn paratoi'r lluniaeth ac i Mr Derfel Gruffydd am ei ganiatâd i ddefnyddio'r ysgol. Diolch i chwi oll.

SGANIWR I YSBYTY GWYNEDD

Y mae nifer o bentrefi yn yr ardal wedi dechrau casglu arian at y Sganiwr, ac i roi'r gwaith ar y gweill ym Mhenisarwaun, fe gynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd yr Eglwys ddydd Llun, Gorffennaf 14eg am 7.00 o'r gloch.

MRS JENNIE PRICE JONES, 13 BRYNTIRION

Duw biau gadw bywyd - cu anadl

Ac einioes ac iechyd
Hawl a fedd i alw o fyd
Man y mynno mewn munud.

Dyna'n union a ddigwyddodd i Mrs Jennie Price Jones, a fu farw'n frawychus o sydyn ddydd Mercher, Mehefin 11 yn 77 mlwydd oed. Priod hoff William John Jones, a mam dyner Hughie, Bobbie, Eric, Betty ac Olwen, a mam yng nghyfraith annwyl y meibion a'r merched yng nghyfraith, a nain ofalus Iona, Siân, Bethan, Gwenan, Fflur ac Osian.

Bu'r angladd bnawn Sadwrn, Mehefin 14 yng Nghapel Undebol Bosra lle roedd yn aelod ffyddlon, a gweinyddwyd gan y Parch Erfyl Blainey, Canon MacNamara, Caernarfon, y Parch Trefor Lewis, Deiniolen a'r Parch W O Roberts, Llanrug. Mrs. Nansi Jones oedd wrth yr organ. Roedd y capel dan ei sang, a

safai rhai ffrindiau yn y cyntedd - canwyd yr emyn dôn 'Godre'r Coed' sef yr emyn i bartion canu yn yr Eisteddfod Bentref - parti yr oedd hi yn aelod ohono. Dilynwyd ym Mynwent Santes Helen, ac roedd y llun blodau yn tystio i boblogrwydd Mrs Jones.

Bydd chwith mawr nid yn unig i'r teulu a'i ffrindiau, ond i'r pentref i gyd gan fod Mrs Jones wedi cefnogi pob gweithgaredd yn y pentref. Rydym yn ymfalchio yn ein hoedolion yma ym Mhenisarwaun - maent yn ifanc eu hysbryd ac yn ddibynol dros ben - Un o'r ffyddloniaid hoffus hynny oedd Mrs Jones a bydd bwloch mawr ar ei hôl. Melys, melys yr atgofion amdani.

Gwraig dirion lawn daioni - dda ei ffydd
A phawb a pharch iddi,
Ymhob modd fe haeddodd hi
Fam dyner, gof amdani
Mary Lloyd Williams

Ein cydymdeimlad llwyrfa â chwi fel teulu.

DIOLCH

Dymuna Mr William Jones, priod y diweddar Mrs Jennie Jones, a'r teulu oll ddiolch am y llun cardiau, rhoddion a blodau yn ystod eu profedigaeth lem. Diolch i'r gweinidogion, organyddes, swyddogion y capel, a'r ffrindiau oll am eu caredigrwydd. Diolch hefyd i Mr Myrddin Pritchard, Llanberis am wneud y trefniadau.

Dymuna Mrs Nesta Jones, 2 Lllys y Gwynt, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd Mehefin 4ydd yn wyth a phedwar ugain.

Dymuna Mrs Elisabeth Ann Jones, Nantlle a Mr a Mrs R. Griffiths, Groeslon Isaf ddatgan eu diolchgarwch cywiraf am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth sydyn o golli gŵr a mab yng nghyfraith annwyl.

Ein cydymdeimlad ninnau i chwi oll fel teulu.

CLWB YR HEULWEN

Dydd Mawrth, Mehefin 15fed, darllenwyd y cofnodion a chydymdeimlwyd â theulu y diweddar Jennie P. Jones a oedd yn aelod ffyddlon o'r Clwb. Derbyniwyd rhodd at y Clwb gan Mr M Pritchard sydd heb fod yn dda ei hiechyd a dymunwyd adferiad buan iddi. Rhoddwyd y tē gan Mrs Beti Evans a Mrs Nellie Roberts. Diolchwyd iddynt gan Mrs Doreen Ficher. Hi hefyd enillodd y raffl. Gwnaed trefniadau ar gyfer y trip i'r Bermo, ddydd Iau, Gorffennaf 24ain. Gwahodd rhai nad ydynt yn aelodau o'r Clwb i ymuno. Enwau os gwelwch yn dda i'r Swyddogion Mrs Porter, Mrs Gwyneth Jones a Mrs Percy Williams. Bydd y cyfarfod nesaf dydd Mawrth, Gorffennaf 15fed.

CLWB CANT - NEUADD BENTREF

Taith gerdded oedd gweithgaredd mis Mai, sef Mai 24ain, yng ngofal Mr

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

AM DDEWIS HAEL A
GWASANAETH CYFEILLGAR
DEWCH I

SIOP GRON

A SWYDDFA'R POST

PENISARWAUN

Ffôn:

Llanberis 871272

CANOLOG I'R FRO



Selwyn Jones ac Eric Jones, a daeth nifer dda o oedolion a phlant ar y daith ac yn sgil hynny ddysgu tipyn am yr amgylchfyd.

Nos Wener, Mehefin 20fed cafwyd **Helia Drysor** ddiddorol yng ngofal Arwel Jones gan orffen yn y Foelas. Mentrodd tua 10 car ac roedd 44 wedi ymgynnull i gael lluniaeth ysgafn a noson hwyliog o ganu a chwerthin. Diddorol oedd cymharu'r atebion ac Arwel yn ei afiaeth yn beirniadu'r canlyniadau. Wedi ymdrech deg, car Douglas, a char Alun gafodd y 'bwbi', ac yn dynn wrth eu sodlau Selwyn Jones ac Eric Jones! Rhoddwyd marc ychwanegol i griw car Eric am eu slicrwydd i gwestiwn (31) 'Wrth ddynesu at yr Ysgol Uwchradd, pa ddwy lythyren sydd yn eich atgoffa o Mrs Thatcher? Beth ydynt?' Ateb Eric a'i griw - ie siŵr - Y.B.I. - Arwel a nifer ohonom yn cytuno'n llwyr ag ef - ond nid dyna'r ateb cywir - P.M. gafwyd gan y buddugwyr Ann a Dafydd Ifans - wedi'i beintio ar byst y giât. Carem ddiolch i Arwel a Carys am noson ddifyr ac i Michael Jones a Phyllis am y gwobrau, diolch i berchennog y Foelas, ac i Liz am wobrau'r raffl, sef dwy botel win. Tynwyd Clwb Cant a'r enillwyr oedd £20 - Tegid Roberts, £12 - Jean Roberts, ac £8 i Wil Evans, Penygroes.

Bydd **Noson Gymdeithasol** i dynnu'r Raffl Fawr, yn y **Dingles, Awst 23ain**, Croeso cynnes i bawb. Byddwn yn trefnu bws.

Y CARNIFAL fydd gweithgaredd mis Gorffennaf 6 - 12fed

Nos Sul Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen am 8.00 o'r gloch. **Nos Lun - Bingo** yng ngofal Helen Owen, **Nos Fawrth - Gemau Giamocs, Nos Fercher** Noson i blant yr ysgol Gynradd a phlant iau Ysgol Brynrefail. **Nos Iau** Mabolgampau, **Nos Wener** Disgo i blant yn pentref **YN UNIG. Dydd Sadwrn** Carnifal am 2.00 o'r gloch i gychwyn o Faes Parcio'r Clwb.

CROESO

Croeso'n ôl i Betty (1 Llys y Gwynt, gynt) a'i gŵr Andy. Maent wedi ymgartrefu yn 'Cartref', wrth gapel Bosra.

Llongyfarchiadau i Mrs Margaret Adlam, 14 Bryntirion, ar fod yn nain eto, gannwyd mab, David, i Margaret, brawd bach i John. Llongyfarchiadau i Mrs Nix hefyd ar fod yn nain unwaith eto.

RHAGLEN RADIO

I chwsi sy'n wrandawyr cyson o Radio Cymru, fe glywch Arwel Jones yn sgwrsio hefo'r 'Dyn ei Hun', Hywel Gwynfryn. Rhaglen am groeso i wahanol gartrefi ydyw, tri chartref yn y Gogledd a thri yn y De. Bu Hywel Gwynfryn ym Mhant Hywel, nos Wener, Mehefin 20fed, ac roedd wedi gwirioni hefo'r olygfa wefreiddiol o'r Wyddfa a'i chriw.

Felly cofiwch wrando'n astud y mis nesaf - Gorffennaf.

EISTEDDFOD PENISARWAUN



Mr E. Porter, cyntaf ar adrodd i bensynwyr.

Do, fe gafwyd Eisteddfod i'w chofio eto eleni yng Nghapel Glascoed ar Fehefin 13eg. Cafwyd munud o ddistawrwydd i gofio'n dynner am Mrs Jennie Price Jones, un a fu'n ffyddlon i'r Eisteddfod bob blwyddyn, ac a fu'n ymarfer gyda'n hoedolion ychydig ddyddiau cyn yr Eisteddfod. Ond o gofio sirioldeb Mrs Jones, ac er serchog cof amdani, ac o wybod ei dymuniadau da hi i'r Eisteddfod, fe ymwrodd pawb a chael noson lewyrchus dros ben. Yn sicr, 'roedd cael dau feirniad penigamp yn ychwanegu at y llwyddiant, Miss Deilwen Crump o Gaernarfon, yn ffraeth ac annwyl iawn gyda'r plant, a ffraethineb Mr Geraint Lloyd Owen yn peri i saith awr o gystadlu lithro heibio'n rhy sydyn o lawer. Er fod pedwar parti cyd-adrodd i oedolion,



Eurgain Haf — Y Prif Lenor

ni chafodd yr un ohonom wahoddiad i'w barti 'Lleisiau Llifon'. Ys gwn i pam? Rwy'n sicr mai'r 'run fyddai ymateb arweinyddion Corau Meibion hefyd o glywed parti'r dynion, er fod tri o Hogia'r Wyddfa yn trio'u gorau glas i'w helpu. Ond, 'cymryd rhan' yn yr Eisteddfod oedd yn bwysig ynte, a chafwyd ymateb bendigedig eleni. Hiolech i'r beirniaid i gyd, i Eirian Howells y gyfeilyddes, i'r ysgrifennydd, y trysorydd, yr arweinyddion a swyddogion capel Glascoed. Mawr ein diolch eto i staff ysgol Tan y Coed am eu cydweithrediad.

Llongyfarchiadau i'r plant i gyd o dair oed i 18 oed am wneud eu gwaith mor ganmoladwy a safonol yn ôl tystiolaeth y beirniad, bydd y canlyniadau i gyd yn y Caernarfon a Denbigh Herald gan nad oes lle i enwi pawb yn yr Eco y mis hwn.



Mrs Katie Williams a Mrs Percy Williams, cydradd gyntaf ar y Gân Werin.

Balch ydym o ddangos llun Mrs Eluned Porter, cyntaf am adrodd i bensynwyr, cyflwynwyd blodau iddi, llun o Mrs Katie Williams a Mrs Percy Williams, cydradd gyntaf ar Gân Werin, ac Eurgain Haf, Prif Lenor yr Eisteddfod am y 4ydd tro. Llongyfarchiadau i Eurgain hefyd ar ddod yn ail drwy Wynedd am ysgrifennu Cerdd Saesneg mewn cystadleuaeth gan Fanc y Midland. Bydd Eurgain ac Angharad Price o Fethel yn cynrychioli Ysgol Brynrefail yn Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog, bnawn Sadwrn, Mehefin 28ain.

AR GOLL

Bnawn Sul daliwyd Bwji yn un o erddi'r pentref. Y mae mewn gofal tyner ac os oes rhywun ym Mro'r Eco wedi colli bwji, neu yn gwybod am rywun wedi colli un, cysylltwch â **Llanberis 872407**.

Gan obeithio y cawn dywydd braf a chynnes, gwyliau dedwydd i bob un ohonoch.

NOSON FAWR EISTEDDFOD ABERGWAUN

Mae dydd Mawrth Eisteddfod Abergwaun eleni yn addo bod yn ddiwrnod mwy arbennig hyd yn oed nag arfer.

Yn ychwanegol at uchafbwynt arferol y Coroni yn y 'pnaun, mae'n edrych yn debyg y bydd y Pafilion yn llawn eto rai oriau yn ddiweddarach ar gyfer noson enfawr HWYL GYDA'R HWYR a drefnir gan Blaid Cymru.

"O leiaf pedair noson mewn un" yw disgrifiad y trefnwyr o'r noson a chyda artistiaid megis Trebor Edwards, Dafydd Iwan, Y Brodyr Gregory, Côr Meibion Llanelli yn diddanu o dan arweiniad y digrifwr o Dregaron, Ifan Gruffydd, hawdd yw gweld fod yna edrych ymlaen go arbennig at HWYL GYDA'R HWYR.

Mae'n noson arbennig iawn i un o'r artistiaid, Y Brodyr Gregory, gan mai yno y byddant yn lansio eu record hir gyntaf. Newydd orffen ei recordio yn Stiwdio Sain y mae'r ddau frawd, Adrian a Paul, a'u gobaith yw cyflwyno sioe ychydig yn wahanol i'r arfer yn HWYL GYDA'R HWYR i ddathlu'r achlysur.

Yn ychwanegol at Trebor, Dafydd Iwan, a Chôr Meibion Llanelli cawn hefyd gwmni dawnus Plethyn, Ruth Barker a Pharti Noson Lawen Aelwyd Crymch mewn noson sy'n bron â bygwth cymryd lle'r Coroni ar ddydd Mawrth y Steddfod.

Mae'r tocynnau sydd eisoes yn mynd yn gyflym ar werth mewn siopau ledled Cymru ac hefyd yn swyddfeydd Plaid Cymru yng Nghaernarfon (0286 2076); Aberystwyth (0970 617492) a Chaerfyrddin (0267 237081).

- diddorol - defnyddiol -



doniol - dymunol

DYDDIADUR 1987

Clawr sglein, llawn gwybodaeth. £1.90

YN ANNWYL I MI / Heini Gruffudd

Nofel am gariad a chasineb rhwng y rhywiau a rhwng Dwyrain a Gorllewin. £3.45

TEITHIO'R SAHEL / Stephen Griffith

Adroddiad llygad-dyst o'r newyn yn yr Affrig. £2.95

CEIDWAD Y GAER / Doreen Wynne

Nofel antur i blant: y gyntaf yng Nghyffres yr Oriau Cudd. £1.75

DWYLO AR Y PIANO / Sŵ Jones

Llyfr cyntaf, cynhwysfawr ar gyfer dysgu'r piano. £2.95

Y LLOSGI / Robat Gruffudd

Nofel epig, tra syfrdanol a gwych, am Gymru heddiw. £3.95

PWSI / Dewi Pws

O-pws unigryw: caneuon, cerddi, adroddiadau, cartwnau, darlithoedd! £3.50

DIWRNOD GOLCHI / Angharad Tomos

Y seithfed yng Nghyffres Rwdlan! 95c



Rhifyn y Briodas Vrenhinol. 65c

Allan yn ddiweddar:

Y CARLWM

Nofel gan Judith Maro. £3.95

DEWCH I CHWARAE RYGBI

Alun Wyn Bevan a Mel Morgans. £1.85

CLIFF PREIS—

DARLITHYDD COLEG

Nofel gan Tim Saunders. £3.45

Ein catalog rhad, 48-tudalen ar gael gyda throdd y post

Y Lolfa

TALYBONT / DYFED SY24 5HE
ffôn 097086 / 304



Aled Jones
Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio
4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

DIOLCHIAU: Dymuna Carys Wyn Hughes, Ysgoldy ddiolch o galon am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da iddi tra bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. 'Roedd ymateb yr ardalwyr yn help garw iddi dros gyfnod anodd iawn.

DYMUNIADAU GORAU: Deallwn fod Eirian Ysgoldy wedi gorfod mynd i'r ysbyty hefyd. Rydym i gyd yn anfon ein cofion ati gan ddymuno gwellhad buan.

CÔR BETHEL A'R CYLCH AR GRWYDR DAN DDAEAR: Ni chlywyd un nodyn ond yn sydyn o'r tywyllwch clywyd sgrech. Ie yn wir i chi dyna a ddigwyddodd pan aeth Côr Bethel a'r Cylch ar daith ddirgel ar ddiwedd tymor yr haf a cherdded i mewn i grombil y ddaear ym Meddgelert wrth ddilyn llwybr cloddwyr copr. Trefnwyd taith ddiddorol gan Ysgrifennydd y Côr Mr Gwynhaf Williams. Agoriad llygad oedd cael cyfle i gerdded lefelau y bu gweithwyr dygn wrthi yn tyllu a saethu yng ngolau cannyll a rhoddwyd i ni brofiad ennyd o'r awyrgylch pan ddiffoddwyd y golau trydan. Ai dyna oedd achos y sgrech? Nid oes neb yn gwybod. Y mae perchnogion Pwll Pair i'w llongyfarch am drefnu mor broffesiynol yr holl daith dan-ddaeorol, yn oleuadau, sylwebaeth a thywyswyr bywiog. Bydd amryw yn cofio gyda pharch y grisau dur serth oedd yno i'w dringo. Yn wir mae teithiau Pwll Pair yn siŵr o ddod yn atyniad arall pwysig i'r cylch. Melys iawn oedd cyrraedd y Saracen's Head a chael pryd o fwyd a diod gyda chwmnïaeth ddifyr. Naturiol felly ar ôl hyn yw cymryd seibiant bach dros yr haf. Ail-gydir ynddi eto ddechrau Mis Medi ar nos Sul 7 Medi yn Ffestri Capel Cysegr am 8 o'r gloch. Bydd croeso i aelodau newydd. Rhwch ganiad ar y ffôn i Felinheli 670102.

ADRAN YR URDD: Nos Fercher, Mehefin 11 bu llond bws o'r adran yng Nghaernarfon yn cymryd rhan ym mabolgampau'r Urdd. Roedd bron pawb wedi cael cyfle i gymryd rhan ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain ar noson mor braf. Llongyfarchiadau i Arfon Roberts, Rhos Alun ar ddod yn drydydd yn y naid hir dan 10 ac i'r bechgyn dan 10 a ddaeth yn drydydd yn y ras gyfnawid.

Cynhelir Helfa Drysor (ar droed) o amgylch y pentref nos lau, 10 Gorffennaf. Cychwynnir o'r neuadd am 6 o'r gloch. Trefnwyd y daith gan Mr Dafydd Williams, Hafod a bydd aelodau'r pwyllgor yn darparu creision a chŵn poeth yn y neuadd ar ddiwedd y daith. Y prisiau fydd 30c i oedolion a 10c i blant. Croeso cynnes

i bawb.

CASGLU AT Y DEILLION: Yn ystod wythnos gyntaf Mehefin bu Mrs Falmai L.I. Owen, Mrs Elizabeth Williams, Mrs Mair Jones a Myfanwy Jones o gwmpas y pentref yn casglu arian at y Deillion. Casglwyd cyfanswm o £73.86. Diolch yn fawr i'r pentrefwyr am eu haelioni ac i'r casglwyr am fod mor barod i wneud y gwaith.

CLWB CANT Y NEUADD: Enillwyd Clwb Cant Mis Mai oedd (1) Mrs Gwyneth Price, Llys Gwynt; (2) Mrs Lynwen Morris, Llys Myfyr; (3) Mrs Gwilym Jones, Ddolwen, Mr Hugh Williams, Gilfach; Nia Owen, d-o Bryn Teg.

BEDYDD: Bnawn Sul Mehefin 22 yn y Cysegr bedyddiwyd Christopher Pugh Williams, mab Mr a Mrs Haydn a Jaqueline Pugh Williams, 19 Pendoran, Y Felinheli. Gweinyddwyd gan y gweinidog y Parchedig W.R. Williams.

LLONGYFARCHIAU: A DYMUNIADAU DA i Sioned Wyn Jones, 26 Bro Rhos ar ennill ei gradd BA yn y Coleg Normal ac i Sion Wyn Jones, ei brawd, ar ei briodas ag Elsbeth Hughes o'r Bontnewydd. Bu'r briodas yng Nghapel Libanus ddydd Sadwrn, Mehefin 21. Dymuniadau gorau i'r tri i'r dyfodol.

TRIPIAU'R YSGOL SUL: Bydd Ysgolion Sul y Cysegr a Bethel yn mynd ar eu tripiâu blynyddol ddydd Sadwrn, Gorffennaf 5. Bydd y Cysegr yn mynd am ddiwrnod i Butlins a threfnodd Bethel i fynd i Southport.

YSGOL SUL YN GWERSYLLA: Ar ôl te nos Wener, Mehefin 6 aeth 30 o blant a 9 o oedolion o Ysgol Sul y Cysegr i Ganolfan Awyr Agored Biwmares i fwrw'r Sul. Cafwyd tywydd braf a deuddydd pleserus iawn gyda'r plant yn mwynhau eu hunain yn crwydro o gwmpas y dref, nofio a cherdded i lawr i drwyn Penmon. Ar ôl brecwast fore Sul criw blinedig iawn ddaeth adref ond criw wedi cael amser wrth eu bodd.

DYMUNIADAU GORAU: i Dewi Jones, Rhos Chwilog a fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed 13 Gorffennaf a Neil Wannop, 9 Eryri, a fydd yn dathlu ar y 4ydd.

MERCHED Y WAWR: Aeth aelodau'r gangen am daith ddirgel gan deithio i Eifionydd, ymweld â Garndolbenmaen, Rhoslan a Chriceth, cyn croesi i Llyn ac ymweld â Phlas Glyn y Weddw, Llanbedrog, lle mae Mr a Mrs Dafydd ap Tomos wedi ailsefydlu oriel ddarluniau. Diweddiwyd y noson gyda phryd ysgafn yn y Beuno yng Nghlynog

Fawr. Diolchodd Mrs Anne Elis, Cilgeran, i'r swyddogion a'r pwyllgor am eu gwaith drwy'r tymor, a dymuno'r gorau i'r swyddogion newydd an 1986-87. Diolchodd Mrs Mair Price, llywydd y llynedd, am y gefnogaeth.

Mae pwyllgor newydd dan lywyddiaeth Mrs Anne Elis, Cilgeran, eisoes wedi cyfarfod a rhaglen amrywiol iawn yn cael ei pharatoi. Bydd y cyfarfodydd yn dechrau Medi 10, am 7.30 yn yr ysgol.

LLONGYFARCHIAU i Tegwen

Williams, Granville ar ennill gradd BA yng Ngholeg Aberystwyth. Pob llwyddiant i'r dyfodol.

NEUADD BETHEL

Yn eisiau, dau berson

1. Un i gadw goriad y Neuadd ac i ofalu am y golau a'r gwres.
2. Ac un i lanhau'r Neuadd.

Ceisiadau erbyn 31 Gorffennaf 1986 i'r Ysgrifennydd, M.W. Jones, Glan y Gors, Bethel.

ERYRI

Gogoniant Eryri yw ei mynyddoedd ac un o'r lleoedd hawsaf i weld eu harddwch yw Ynys Môn. Rhwng y ddwy bont sy'n croesi'r Fenai mae Arsyllfa ac enwau'r mynyddoedd arni. Ond cyn i chwi wneud hynny rhown sylw i'r ddwy bont yn gyntaf. Mae'r hynaf o'r ddwy dros gant a hanner oed. Adeiladwyd hi gan Thomas Telford i gario'r ffordd o Lundain i Gaergybi, y porthladd am Iwerddon. Mae'r llall, pont y rheilffordd, ychydig i'r dde. Aeth rhai llanciau i chwilio am nythod adar ynddi ac yn yr ymdrech llosgwyd y bont yn ulw tua 16 mlynedd yn ôl. Atgyweiriwyd hi, ac yn ychwanegol at y rheilffordd adeiladwyd ail groesfan i geir modur. Dengys hyn pa mor sicr oedd y sylfeini a chadarn ei gwneuthuriad.

Ar ochr Sir Gaernarfon i'r Fenai yr oedd dwy neu dair o stadau helaeth. Un oedd Stâd Penrhyn, un arall oedd Stâd y Faenol. Y naill dan berchenogaeth Arglwydd Penrhyn a'r llall gan deulu Ahseton Smith. Bu cloddio am lechi yn Eryri ers adeg y Rhufeiniaid a pharhaodd yn llewyrchus am ysbaid o ddwy ganrif, gan fod yn brif ddiwydiant yr ardaloedd.

Yn wahanol i dde Cymru, Cymraeg fu iaith y chwarelwr erioed, ac ychwanegodd at barhad yr iaith. Beth a ddigwyddodd o hyn ymlaen amser a ddengys.

Gyda dirywiad yn y fasnach lechi daeth pwyslais sylweddol ar y diwydiant ymwelwyr a dylifant yma haf a gaeaf. Yr Wyddfa yw'r prif atyniad, ac adeiladwyd rheilffordd i'r copa. Y syniad gwreiddiol oedd parhad o'r London and North Western Railway Comp., ond gwrthododd sgweiar y Faenol yr hawl i neb adeiladu rheilffordd ar ei fynydd ef. Pan fu farw'r hen sgweiar

aethpwyd tros ben y teulu am ganiatad a ffurfiwyd y Snowdon Mountain Railway Comp., tua chan mlynedd yn ôl. Erbyn heddiw mae cymaint yn mynychu llethrau'r Wyddfa nes bod perygl erydu'n cynyddu cymaint nes bod y Parc Cenedlaethol yn gweithredu ar raddfa eang i'w cadw dan reolaeth. Mae oriau hamdden wedi dod yn beth mor haeddianol nes bod mwy a mwy o'n hieuengtid yn treulio eu holl amser yn mynydda. Cyflogir mwy i gadw trefn ar y llwybrau, ac estynir gwahoddiad i deithwyr ddringo o un ochr ac i lawr y llall gan ddefnyddio bws Sherpa i'w cysylltu a'r man cychwyn.

Ar ddiwrnod clir gellir gweld Iwerddon, Ynys Manaw a mynyddoedd Cumbria o'r copaon. Yn ychwanegol ar yr Wyddfa mae'r Carneddi, y Tryfan a'r Glyder yn denu miloedd. Pan fydd ychwaneg o eira wedi disgyn ar gefn yr hyn oedd yno cynt, mae'n beryglus iawn i ddringo heb fod yn brofiadol, a chynghorir partion i gadw efo'i gilydd, ac os yn bosibl cael arweinydd gofalus.

Ymdrechir i gadw'r enwau Cymraeg ar y copaon a'r dringfeydd, ond gan mor boblogaidd mae'r lleoedd hyn yn dod ychwanegir enwau estronol gan y dringwyr.


I wrthweithio hyn cynghorwn bawb sydd a meddwl o'r iaith i ymrwngthod a'r dull yma'n gyfangwbl. Os collwn gadernid ein mynyddoedd fe gollwn y cwbl.

Gwilym S. Jones
Nant Peris

AR WERTH

CIST REW ELECTROLUX
troedfedd ciwbig
Ffôn Caernarfon 3515

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol



am
Nenfydau Artex
cysylltwch ag

A. LEWIS

12 Lôn y Bryn,
Porthaethwy 712598

MWY O ATGOFION AM YSGOL DOLBADARN

STANDARD THREE

gan
GORONWY OWEN

"Yn gyflym. Dyna chi. Gwthiwch yn iawn."

Dechreuodd peiriant bach y beic modur am eiliad neu ddau, ac yna peidiodd. Plygodd Miss Huws i lawr i newid rhywbeth neu gilydd.

"Rwan hogia, hefo'ch gilydd."

Aeth tri neu bedwar ati eto, eu coesau'n gyflym symud fel olwyn injan wnio; deffrodd y moto beic hefo clecian byddarol, a ffwrdd a'r athrawes am adra i Ddeiniolen.

Eistedd wrth yr efail yng ngwaelod Ceunant y byddwn, yn aros am Rhys a William i fy hebrwng adra, oherwydd rhyw bedair oed oeddwn ar y pryd. Yno, wrth ochr y ffordd, roedd hen gafn crwn a'i wyneb i waered, a boncyff coeden wedi'i lyfnhau fel sebon gan ddillad dringwr ifanc. O ben un o'r rhain y gwylidwn y sycas yma bob prynhawn ar ddiwedd ysgol.

Hogia Coed, Idwal Turner, Robin a Dafydd Pen Gwaith, fy nau frawd ac eraill, dyna'r rhai fyddai'n ddigon parod i gynorthwyo'r athrawes i gychwyn am adra, yn chwyso ambell dro hyd waelod gallt Cpael Coch. Eisteddai hithau, dynes go fawr a siarad yn garedig, fel brenhines yn ei het a'i menyglledr, a 'goggles' mawr dros ei llygaid.

Roedd athrawon hyfryd yn Ysgol Dolbadarn ar y pryd. Hwyrach i fy oedran i fod yn lwcus, oherwydd 'roedd math arall o gwmpas, ond chwarae teg iddi, roedd Miss Huws yn un o'r goreuon. Roedd hi'n hynod hoff o ganu, yn enwedig caneuon Cymraeg. Mi ydw i'n ei chofio hi'n dysgu 'Fflat Huw Puw' a 'Pws Meri Mew' ar ôl taro tuning fork ar ochr y ddesg. Bob tro roedd yna gyngerdd neu Eisteddfod yn y Pafiliwn yng Nghaernarfon, fe'i gwlelech yn eistedd ym mlaen y llwyfan o'r dechrau hyd y diwedd.

Yn ei dosbarth hi yn unig roeddai ni blant yn defnyddio llechen i weithio - llechi wedi'i fframio, sgwaria a llinellau wedi'u marcio i naill ochr, a phensil lechen wichlyd i graffu arnynt. Defnyddiem hwy i wneud 'mental arithmetic', 'spelling' a symia, ac yna, cyn cadw'r cerrig swnllyd yng ngwaelod y cwpwrdd mawr, rhaid oedd eu

Am ffenestri, drysau,
grisau neu unrhyw
fath o gynnyrch coed,
ffoniwch

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG

Ffôn Caernarfon 77482

(dydd)

Llanberis 870793 (nos)



"Rwan hogia, hefo'ch gilydd. Gwthiwch!"

glanhau. Roedd hi'n ofynnol i bawddod a cadach gwlyb i'r ysgol ond druan bach, roedd hi'n llawar haws poeri ar y lechan, a'i rhwbio'n iawn hefo cadach poced, ac os oeddem wedi colli'n hances, doedd dim amdani ond llawes cot neu jersi.

"Codwch. Sefwch rownd y wal."

Ufuddhai pawb, dros hanner cant ohonom yn sefyll yn un llinell hir o amgylch tair wal.

"Spell station",

"stas---

"Wrong. Next., ac felly mlaen gan gyfeirio at bob un ohonom yn ein twrn hefo'i chanslen oedd yn fy o bointar nag offeryn cosb, a chyda pob camgymeriad, edrych arnom hefo'i llygadi miniog a dweud

"Wrong, bottom of the class."

Roedd gas gen i y dull yma o ddysgu, oherwydd rhy aml y teimlais y gwarth o gerdded i

waelod y llinell.

Hen hosan hir o ystafell oedd Standard Three, hefo dau ddrws ynddi, ac roedd rhaid i fechgyn tri dosbarth gwahanol gerdded trwyddi ar y ffordd i'r iard, y tŷ bach, neu i gael diod o ddŵr yn yr unig dap oedd ar ein cyfer. Doedd yr un wers yn cael chwarae tŷ, ond cofiaf yn dda fod Miss Huws yn un ardderchog am ddeud stori. Oherwydd fod yr ystafell mor ganolog, ynddi yr oedd y cylch nwy i ferwi tecell i wneud paned amser chwarae i'r athrawon. Hefyd, dyma'r amser y cychwynodd Pwyllgor Addysg Arfon ymgyrch i wella cyflwr iechyd plant, a gorchwyl arall i Miss Huws druan oedd berwi llefrith i wneud 'malted milk' i'r disgyblion, ar draul ein haddysgu. Ni pharodd hyn yn hir, efallai oherwydd y gost, sef ceiniog

neu ddwy yr wythnos, ac hefyd oherwydd prinder amser. Wnes i erioed losgi fy ngheg mor amal, yn fy mrys i lyncu'r ddiod poeth er mwyn cael mynd allan i chwarae.

Ond y 'Cod Liver Oil' oedd y cawl mwyaf - syniad godidog ond diffyg trefn. Un botel anferth, un llwy de, ac un cadach i'w sychu. Safem yn un llinell hir, a chymryd ein twrn i agor ein ceg i lyncu'r olew, cyn i'r athrawes sychu'r llwy a'r clwtyn er mwyn rhoi cegiad i'r nesa. Sut gebyst yda ni wedi byw mor hir? Mae'n rhaid ein bod wedi ffynnu ar 'germs' ein gilydd!

Chefais i erioed gyfle i wthio'r moto beic 'na i lawr allt Capal Coch. Dechreuodd bws redag o Lanberis i Lanbabo, ond mi ydw i'n dal i glywed Miss Huws yn gweiddi. "Rwan hogia, hefo'ch gilydd. Gwthiwch."

COFIO'R DAUDDEGAU

gan Olwen Davies, Bangor

Cefais fy magu yn Llanberis, a bum yn mynychu Ysgol Dolbadarn o 1920 i 1926. Diddorol i mi felly oedd erthygl Mrs Gwyneth Chick, Cwm-y-Glo, am ail-adeiladu'r ysgol. Da y cofiaf innau am y 'coveredway' ar y glaw, a'r gwersi 'drill', beth a elwir heddi yn ymarfer corff, ond ei fod yn fecanyddol a milwrol, fel y cyfleir gan y gair. Cofiaf rhyw Saesnes hir ei chorff a siar ei thafod yn ein rhoi drwy'n pethau. Byddai raid i ni, blant Blaen y Ddol fel y'n gelwid, gerdded ar hyd Lon Bost, neu Drwy'r Coed, a hithau'n dymchwel y glaw, neu eira drwy'r gaeaf. Dwy facintosh (rhwyg mewn un!) a sgidiau uchel, piseriad o de i roi i gynhesu ar yr hen stof fawr ddu, a brechdan gaws neu jam. Cofiaf ddau frawd yn dod ag uwd i'w gadw'n gynnes tan yr awr ginio. Ond gwae ni, os cyrhaeddem yn hwyr. Sefyll wedyn o flaen desg fawr Jabas Jones, y Prifathro, i ddisgwyl am y gansen. A phlant Standard Ffôr ym mhendraw'r stafell, yn rhewi'n sydyn, yn ymwybodol o'r gosb. Gallaf deimlo'r boen yn llosgi fy llaw y munud yma.

Daeth llythyr Mr John Emrys Jones, Caer ag atgofion i mi hefyd. Roeddwn yn Standard Tw. Ein hathrawes oedd Miss Hughes,

pladren dew glên a ddoi ar fotobeic o Lanbabo bob dydd. Un bore fe soniodd wrthym am Urdd Gobaith Cymru - rhywbeth tebyg i Band of Hôp, debygem! Pwysai arnom i ofyn am swllt i ymuno, a chael bathodyn i roi ar ein cotiau. Er nad oeddwn ond rhyw wyth oed, roeddwn yn ymwybodol na allwn ofyn am swllt, gan ei fod yn swm go fawr i eneth a gâi, os byddai'n lwcus, ddimai weithiau i brynu licsmôl yn y siop bethau da. Tri o blant amddifad oeddym yn cael ei dwyn i fyny gan wraig weddw, heb dad yn y tŷ i ennill cyflog.

O hynny 'mlaen, teimlwn allan ohoni pan welwn y plant yn cael gwisgo lifrai gwyrdd a choch, a rhai'n cael mynd i ffwrdd i wersyll neu 'steddfod. Roeddwn wedi graddio cyn y gallaid fynd i Langranog am wyliau. 'Roedd hynny yn 1938 rwy'n meddwl, pan oedd cymylau rhyfel yn crynhoi. Plant "rhwyng dwy ryfel" oeddym. Wedi arfer sefyll yn llonydd am 11 a.m. bore Tachwedd 11eg, i feddwl am y meirwon "y rhwyg o golli'r hogiau" a glaslanciau y pentref yn gwneud sbort am y Gofeb a aeth i fyny, a'i galw'n "botol sôs"! Canem "Rwyf finnau'n filwr bychan," a "Onward Christian Soldiers" a gwyddem am General Booth a

Byddin yr Iechydwriaeth a threfnyddiaeth filwrol, ond nid ysbryd milwrol, oedd y ffordd orau efallai i uno nifer fawr i ddilyn arweiniad. Felly mewn ysgol, felly'r Urdd yr adeg hynny. Rhyw gyfuniad o gyd-weithrediad a disgyblaeth heb fynd i'r eithaf o'r naill na'r llall sydd i'w weld yn ei hysgolion cynradd. A'r plant yn hapusach efallai a llai ofnus. Roeddym ni ofn yr hen Jabas Jones, ond yn medru teimlo'n weddol fodlon gyda Miss Jones, Gwcw, Miss Hughes a John Owen ac eraill.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

Gwraig Tŷ yn yr Ardd

Gwnaed camgymeriad y mis diwethaf trwy ddweud mai mia Mai ydyw mis y Rhosynnau yn hytrach na mis Mehefin. Pan ysgrifennaf fuaswn i ddim yn galw mis Mehefin chwaith yn fis y rhosynnau eleni gan fod popeth gymaint ar ôl, ond efallai y cawn wledd o liw ym mis Gorffennaf.

Os nad yw'r rhosynnau yn blodeuo y mae llawer o'r blodau parhaol yn y forder yn eu gogoniant, a rhai llwyni, fel y weigelia a'r leilog gwyn yn llawn blodau, a daw llawer eto a fydd yn wledd i'r llygad.

Dyna hemercallis - y lili undydd, clwstwr o flodau melyn persawrus - am undydd y pery bob blodyn. Maent yn hawdd iawn eu tyfu - eu plannu allan yn yr Hydref neu'r Gwanwyn. Mae'r lupin - neu 'bys y blaidd' yn Gymraeg yn tarddu o'r gair 'lupus' sef blaidd. Wrth eu hymyl y mae'r Delphinium, o liw glas bendigedig. Wn i ddim beth ydyw'r enw Cymraeg ar hwn, ond y mae'r enw yn tarddu o'r gair 'delphis' sef dolphin, am ei fod yn debyg i ben dolphin. Byddaf wrth fy modd yn chwilio tarddiad enwu'r blodau, ond rhaid gadael y llyfr a mynd ati i wneud gwaith ymarferol yn yr ardd ac y mae digon i'w wneud ym mis Gorffennaf.

Dyma'r mis i hau blodau parhaol (perennials) i lenwi'r forder at y flwyddyn nesaf. Mae un blodyn 'rwyf yn hoff iawn ohonno sef 'Troed y Glomen' (Aquilegia, neu Columbine). Maent yn flodau bach ysgafn a lliwgar dros ben.

Trwy fod rhai o'r blodau yn y forder yn tyfu'n dal, rhaid mynd ati yn ddi-ymdroi i'w rhwymo wrth gansen, neu fe fydd y gwynt a'r glaw tarannau a gawn yn fynych yn ystod yr haf wedi eu malu.

Mae'r chwyn, wrth gwrs, yn tyfu yn gyflymach na dim. Mae tuedd ynom i fynd am dro a chrywdro dipyn yr amser yma, a synnu gweld y chwyn wedi tyfu yn ein absenoldeb - yr ychydig bach yn aml y soniais amdano wedi mynd yn angof - bydd yn rhaid tynnu rhai ohonynt a llaw.

Tyf yr 'hydrangea' tri lliw ar ddeg yn dda yng Nghymru, gan ein bod yn cael cymaint o wlaw mae'n debyg, ac y mae'r enw yn awgrymu eu bod yn hoffi dwr. Maent yn lliwgar iawn ac yn llenwi'r ardd os oes ar un eisiau gwneud hynny. Hoffaf yn fawr y 'lace caps' (capie lasie). Mae fel dau flodyn arnynt. Mae amryw wedi gofyn imi sut i gael lliw glas arnynt. Mae gen i un felly, ac yr wyf wedi rhoi torion i ffrind a pinc oedd yn ei gardd hi. Mae rhywbeth yn

ansawdd y pridd. Maent yn hawdd iawn eu codi o dorion ym mis Gorffennaf ac Awst.

Mae'r blybiau erbyn hyn wedi llwyr farw i lawr a'r dail wedi melynnydd. Rhaid imi eu codi, yn eu sychu a'u glanhau a'u cadw i'w hailblannu yn yr Hydref.

Bron na allwn weld y lawnt yn tyfu y dyddiau yma ar ol cawod o wlaw, a dyna'r gwaith mwyaf diflas gen i ydyw torri'r ymylon, ond mae'n rhaid gwneud er mwyn taclusrwydd.

Edrychaf ymlaen at fynd i Sioeau ym mis Awst yn enwedig Sioe Gymraeg y Borth. Braid yn Seisnigaidd ydyw sioeau fel rheol ond y mae'r sioe yma yn ddwyieithog ac y mae'n hyfryd gweld yr iaith yn cael ei pharchu. Ni chyrhaeddais y perfffeithrwydd sydd yn angenrheidiol i gystadlu mewn sioe eto, fel y dywedais o'r blaen - dipyn o wraig tŷ yn potsian yn yr ardd ydw i.

APÊL YMCHWIL Y GALON CANGEN CAERNARFON A'R CYLCH

Bu ymateb da iawn yn ystod pythefnos yr ymgyrch casglu tuag at yr Apêl i Ymchwil y Galon. Dymuna'r pwyllgor lleol ddiolch i'r holl gasglwyr a fu wrthi'n ddiwyd yn casglu o ddrws i ddrws, ac hefyd i holl drigolion bro'r Eco am eu haelioni tuag at yr achos. Dyma gyfansymiau'r gwahanol bentrefi:-

Bethel	£27.26
Brynrefail	£20.24
Cwm y Glo	£24.01
Deiniolen	£65.25
Llanrug	£145.49
Llanberis	£153.33
Nant Peris	£17.80
Penisarwaun	£32.45
Tan y Coed	£6.98
Waunfawr, Ceunant, Betws Garmon a'r Rhyd Ddu	£133.04

Y cyfanswm a dderbyniwyd hyd yn hyn yw £1,454.34 ond deallwn fod mwy i ddod i law. Bydd y cyfanswm terfynol yn cael ei gyhoeddi yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

DROS BEDWAR UGAIN: Rhyw fis neu ddau yn ôl fe wnaed cyfeiriad at ddwy o chwiorydd yr ardal sydd dros eu pedwar ugain oed. Ar ôl ail-ystyried fe deimlwn bod eraill y dylid sôn amdanynt. Yn rhif 5 Maes Eilian ceir Mrs Annie Jones sy'n uchel ei pharch ac yn annwyl gan ei holl gymdogion, ac yna mae Mrs Catherine Ellen Jones, gynt o Dan-y-Buarth Uchaf, ond sydd bellach yn cartrefu gyda'r ferch yn Foel Gron. Maent hwythau yn ymddiddori yn yr hyn a ddigwydd o fewn terfynau'r ardal. Gellir dweud yn gyffelyb am Mr Robert Jones, 7 Maes Eilian, yntau gyda'i atgofion o'r gorffennol ond yn mynnu bod yn gyfoes ei ddiddordebau. Ymddengys ei fod wedi atgyfnerthu ar ôl bod yn yr ysbyty yn cael triniaeth lawfeddygol.

TRISTWCH oedd clywed am farwolaeth Mrs Eleanor Jones, gweddwr diweddar Barch R.H. Jones. Fe ddygwyd ei gweddillion i fynwent Llandinorwig gyda gwasanaeth angladdol yn Eglwys Crist, Llandinorwig. Yr oedd ei gwreiddiau hithau yn ardal Dinorwig ac fe fu ar un adeg yn athrawes yn yr hen ysgol Dinorwig.

MARW: Ddydd Llun, Mehefin 9 bu farw Mrs Eleanor Jones, 9 Ffordd Elan, Llandudno yn sydyn yn Ysbyty Llandudno. Gweddwr diweddar Barchedig Ddr R.H. Jones dyoedd a'r ddau ohonynt yn hanu o fro'r chwareli, ef o Ddeiniolen a hithau o Ddinorwig. Bu'r angladd yn Eglwys Crist, Llandinorwig bnawn lau ar ôl gwasanaeth byr yn y tŷ dan arweiniad y Parch Derek Richards, Rheithor Eglwys y Drindod, Llandudno a'r Parch Tudur Rowlands, Rhewl a oedd yn gyfylder iddi. Arweiniwyd y gwasanaeth yn Llandinorwig gan y Deon Gwlad, y Parch Richard Jones, y Felineli a chymerwyd rhan gan yr Archddiacon Elwyn Roberts, y Parch E.T. Roberts, hen gyfaill i'r teulu a'r Parch Derek Richards. Rhoddwyd teyrnged cofiadwy i'r ddiweddar Eleanor Jones am ei theyngarwch i'w phriod a'r Weinidogaeth gan y Canon Glyndwr Williams, Porthaethwy a oedd yn gyfaill coleg i'r diweddar Barch R.H. Jones. Y prif alarwyr oedd Mr a Mrs Arthur Edwards, Rhostyllen (brawd yng nghyfraith a chwaer yng nghyfraith), Mrs Caroline Rowlands, Conwy (cyfnither), y Parch Rudur Rowlands, Rhewl (cyfylder), Dafydd a Beryl Orwig, Bethesda (nai) a Guto, Owain ac Eirwen Orwig. Y cludwyr oedd y Mri Arthur Edwards, Tudur Rowlands, Dafydd a Guto Orwig ac

roedd Mrs Jenny Williams wrth yr organ. Rhoddwyd blodau gan y teulu agos a derbyniwyd rhoddion er cof am Mrs Jones tuag at Eglwys St Mair drwy'r ymgymerwyr Mr Harold Griffiths, Llandudno.

EISTEDDFOD YR URDD: Yn ystod y mis cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Methesda a bu rhyw ugain o ieuencid yn cysgu yng Nghanolfan yr ardal, a rhai chwiorydd parod eu cymwynas yn gofalu bod brecwast ar eu cyfer a lluniaeth ysgafn cyn iddynt lithro i freichiau cwsg a hynny fe ddichon ar ôl bod yn sgwrsio hyd oriau mân y bore.

A minnau'n crybwyll Eisteddfod yr Urdd, hoffwn nodi bod Sara Wood, Fronheulog yn perthyn i barti canu o Waun Gynfi a ddaeth yn fuddugol yn yr eisteddfod honno. Cipiodd Sara wobwr gyntaf Cymanfa Arfon yn Arholiad Ysgrifenedig Ysgolion Sul Undeb Bedyddwyr Cymru eleni. Gwaith plerurus yw ei llongyfarch a dymuno pob rhwyddineb iddi yn y dyfodol.

Y SULGWYN oedd dyddiad Cyrdau Pregethu Capel Sardis (B) ac 'roedd y gennad, y Parch Emlyn Jones, Llangloffan i fyny â'n holl ddisgwyliadau ac fe gafwyd cyfres o genadwriau addas iawn i'r achlysur. Yn ystod yr un mis 'roedd Eglwys St Mair hithau yn cynnal eu gŵyl flynyddol a hon yn dilyn cynadleddau eglwysig yn yr un Eglwys. Y gennad i'r ŵyl eleni oedd y Parch Ganon Richard Jones, sef y Deon Gwlad ac 'roedd yntau yn gwasanaethu yn Eglwys Crist, Llandinorwig yn ogystal â St. Mair. Bu traddodiad yn y gorffennol mai ychydig o le a roddid i'r bregeth gan ganolbwyntio'r holl sylw ar y gwasanaeth penodedig ond bellach gellir dweud bod offeiriad cyfoes yn sylweddoli gwerth pregethu grymus. Cafwyd digon o ddefnydd i 'gnoi cil' arno yn Sardis a St. Mair.

Erbyn hyn mae Mrs Dilys Williams, a fu yn Nhŷ Capel Dinorwig (MC) yn ymgyrtrefu ym mro Elidir, ac wrth gwrs wedi cefnu ar bryderon a gofalon cadw tŷ capel. Derbyniad hithau ein dymuniadau da yn ei chartref newydd.

CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981



TAC SIS
WEBB

Ffôn:
Llanberis

870145

Gwasanaeth 24 awr - pell ac agos
Gwasanaeth Maes Awyr
a Phorthladd
Gwaith Contract

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfragell neu yn eich siop lyfrau lleol.

CYFRES CLASURON YR ACADEMI: Marged Dafydd (Gol.)

Ati, Wŷr Ifanc

Gwasg Prifysgol Cymru ar ran yr Academi Gymreig.

Detholiad o ysgrifau pwysicaf Saunders Lewis.

CYFRES Y WIWER:

Irma Chilton

Anturiaethau Chwanen

Aled Islwyn

Chwedlau Gwerin o Lydaw

Gwasg y Dref Wen

(C.B.A.C.) £2.40 yr un.

Dwy gyfrol newydd sbon yng Nghyffres y Wiwer.

DAVIES, Cennard

PALFREY, Eiry

WILLIAMS, Dewi

Sioe Siarad

B.B.C. Cymru £2.50

Yr ail lyfr mewn cyfres i ddysgwyr sy'n gyfarwydd â phatrymau mwyaf cyffredin y Gymraeg.

EVANS, Aled Lewis

Sibrydion

Aled Lewis Evans £1.50

Cyfrol o gerddi. Rhoddir pob elw i Gronfa Arian Byw Cymru.

JENKINS, Geraint H. (Gol.)

Cof Cenedl: Ysgrifau ar Hanes Cymru

Gwasg Gomer £3.50

Casgliad o ysgrifau ar Hanes Cymru gan haneswyr amlwg.

Jones, Nesta Wyn

Rhwng Chwerthin a Chrio

Gwasg Gomer £2.95

Cyfrol o gerddi.

LLOYD, Tecwyn

CYMYSGADW

Gwasg Gee £3.00

Casgliad o ysgrifau a storïau.

MAELOR, Gareth

Bara Brith o'r Blaenau

Gwasanaeth Llyfragell Gwynedd 70c

Darlith flynyddol Llyfragell Blaenau Ffestiniog, 1986.

MORRIS, G. Elwyn

Chwa o Ryw Oludog Dir

Gwasanaeth Llyfragell Gwynedd 75c.

Darlith flynyddol Llŷn, 1985.

PROJECT DEFNYDDIAU AC ADNODDAU Y SWYDDFA GYMREIG:

Daearyddiaeth, Glaw a Hindda.

Y Ganolfan Adnoddau, Aberyswyth (C.B.A.C.) £1.95.

Y diweddaraf yn y gyfres ar ddaearyddiaeth ysgolion.

RICHARDS, W. Leslie

Cerddi'r Cyfnos

Gwasg Gee £2.75

Casgliad o gerddi, englynion ac epigramau.

WILLIAMS, Rhydwen

Ys Gwn I a Cherddi Eraill

Cyhoeddiadau Barddas £4.00.

Cyfrol o gerddi amrywiol iawn.

BETWS GARMON

DYMUNA Mrs Marian Williams, Llythyrdy Betws Garmon, priod y diweddar Mr Rhys Williams, Meirion ei fab a Mrs Mary Fitter ei chwaer ddiolch o galon am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth sydyn ddiweddar - colli priod, tad a brawd annwyl.

Bu Mr Rhys Williams farw yn Ysbyty Heath, Caerdydd Mehefin 14 wedi triniaeth lawfeddygol. Bu'r angladd ddydd lau, Mehefin 19, gyda gwasanaeth i'r teulu yn y cartref ac wedyn yn amlosgfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parch W.O. Roberts a'r Parch Ronald Wyn Roberts.

Y BUGAIL DA

Mae 'na Fugail sy'n llawer mwy craff Na'r bugeiliaid sydd i'r oes hon; Mae O'n bugeilio drwy'r flwyddyn Ar y tlawd, cyfoethog, anhapus a'r llon. Mae'n rhoi nod ar eu clustiau A marc ar y gwar yn y gwlan Wrth ddidol y defaid o'r geifr A thafu'r dienaidd i'r tân.

Y ddafad roddodd iddo gynhaliath Pan oedd yn newynog a blin Ond yr afdr wrthododd gymwynas Pan oedd ei glwyfau eisiau eu trin. Mae'r Bugail wrth ddidol a dethol Yn wyladwrus eithriadol i'r carn, A mawr fydd yr wylo a'r crio Pan wawria awr Dydd y Farn!

Mae cydwylbod y ddafad yn esmwyth, Fe gaiff ei derbyn i'r Ysbryd Glân, Ond mae meddwl yr afn yn gythryblus A'i henaidd ar goll yn y tân. Ond pwy ydydd i'r farnu A minnau'n bechadur fy hun Gyda channoedd a miloedd o feiau, Heb lawer o batrwm na llun!

John V Morris
Rhianfa, Deiniolen

W.H. JONES

TRYDANWR

Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS

FFÔN:
LLANBERIS 871470

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

MERCHED,
DYNION, PLANT!
I gael torri a thrin
eich gwallt
YN EICH CARTREF

cysylltwch â
**CHERYL
WARD**

Mobile Hairdressing
9 Porth Gogledd
DEINIOLLEN

Ffôn: Llanberis
870911
i drefnu amser

PENTREF GWYLIAU YN CHWAREL GLYNRHONWY?



Mae Cyngor Arfon wedi cyfaddef o'r diwedd y bwriedir codi pentref o dai gwyliau ar safle Glyn Rhonwy yn Llanberis.

Bydd y pentref arfaethedig yn cynnwys o leiaf 50 o dai, ac mae'r Cyngor wedi datgan mai datblygwyr preifat fydd y perchnogion.

Dywedir hyn gan Adran Cynllunio Cyngor Arfon mewn ateb i'r Cynghorydd Glyn Tomos, Dinorwig, aelod o Gyngor Cymuned Llanddeiniolen ac sydd hefyd yn aelod o Fudiad Adfer - mudiad sydd wedi datgan gwrthwynebiad cyson i gynlluniau sydd yn cynyddu'r nifer o dai haf.

Yn ddiweddar cyhoeddodd Cyngor Arfon lawlyfr (a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg) ar gyfer darpar ddatblygwyr yn nodi posibiliadau twristaidd safle Glyn Rhonwy - safle ar gyrion Llanberis ac ar lan Llyn Padarn, sy'n cynnwys hen chwarel lechi ac adeiladau a ddefnyddiwyd hyd yn ddiweddar gan y Bwrdd Cynhyrchu Trydan Ganollog. Ymysg yr atyniadau a ddarlunir yn llawlyfr y Cyngor mae gwesty helaeth tair seren, a fydd yn siŵr o gystadlu a gwestai Llanberis ei hun, ynghyd â lithrigfa sgïo gyda'r fwyaf yng ngwledydd Prydain.

Mewn ymateb dywedodd y Cynghorydd Glyn Tomos, "O'r diwedd, dyma'r gath allan o'r cwd. Dyma ddatgelu beth yw calon y cynllun, sef pentref gwyliau helaeth mewn ardal sydd eisoes yn frith o dai haf. Mae'r Cyngor yn gweithredu'n ddau-wynebog ac yn mynd yn groes i'w polisiau cynllunio eu hunain. Dyma enghraifft o weithredu anghyfrifol, oherwydd y gwir amdani ydyw bod y rheolaeth mewn gwirionedd yn hwylo datblygwyr preifat ariannog. Gwned yr elw mwyaf yn yr amser lleiaf ac ar y gost leiaf yw amcan a holl hanfod y math o ddatblygwyr a fyddai'n debygol o dderbyn gwahoddiad Cyngor Arfon i ddod i Llynrhonwy."

"Ni wnaed y ffaith mai pentref gwyliau a fyddai'r prif atyniad yn eglur i'r Cynghorau Cymuned o gwbl pan gyflwynwyd y llawlyfr iddynt, ac mae hyn ynddo'i hun yn

gofyn eglurhad. Dyletswydd Cyngor Dosbarth yw cyflwyno gwybodaeth lawn a rhoi darlun cyflawn i gynghorau cymuned er mwyn iddynt fedru penderfynu yn gyfrifol er lles y gymuned leol. Dyma o'r diwedd ddinoethi gwir fwriadau Cyngor Arfon."

"Anogir cynghorau cymuned Llanddeiniolen, Llanberis a Llanrug i wneud eu safbwynt yn hollol glir ar y mater hwn, a galw am ddiddymu bob bwriad i godi tai gwyliau ar gyfer safle Glyn Rhonwy."

"Mae'n sefyllfa anhygoel bod Cyngor Dosbarth yn medru llunio cynllun sy'n cynnwys elfennau sy'n groes i'w bolisi ei hun, ac sy'n groes i Gynllun Fframwaith y Sir hefyd. Fel yn achos Morfa Bychan yn Nwyfor a'r pentref gwyliau arfaethedig yno, mae pentref o dai haf yr un mor annerbyniol yn Arfon. Ac eto dyma'r Cyngor Dosbarth yn ei argymhell i ddatblygwyr preifat ac yn cyflwyno iddynt y perchnogaeth a'r rheolaeth sydd ynghlwm wrth hynny."

"Mae tai haf eisoes yn broblem yn y cylch, ac yn ddiweddar mynegwyd pryder am y broblem gynyddol hon gan gynrychiolydd Cwm y Glo ar Gyngor Arfon. Un o sgil-ffeithiau codi pentref gwyliau yn Nglyn Rhonwy - sydd rhwng Llanberis a phentref bychan Cwm y Glo - fydd cyfrannu at ansefydlogrwydd y sefyllfa a thro'i'r cylch yn ardal wyliau yn hytrach nag ardal i fyw a gweithio ynddi."

APÊL SGANIWR CORFF

HWYL Cynhelir noson HWYL

'SGANIWRAMA'

gydag eitemau
gan Ffylliaid y Fro '86

yn Ysgol Brynrefail, nos lau,
Hydref 9ed am 7.30

Arweinydd: Mr Arwel Jones

Oedolion £1,

Plant 50c

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, 872275.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd i Mrs E. Davies, Noddfa, Mrs Gwennie Morris, Tan-y-Graig, Mrs Barbara Owen, Gwesty'r Snowdon a Val Toceja.

LLONGYFARCHIADAU i'r Ditectif Ringyll John R Rowlands, Wrecsam, mab Mr a Mrs Russell Rowlands, Talafon ar ei ddyrchafiad yn Arolygwr gyda'r heddlu. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd a phob hapusrwydd i'r teulu yn eu cartref newydd yn y Rhyl.

LLONGYFARCHIADAU i Ruth, 24 Dôl Afon a Gethin, Min-y-Don ar gyrraedd eu pen-blwydd yn un ar hugain.

Hefyd i Mari, Gwesty'r Snowdon ar gyrraedd ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

DIOLCH: Dymuna Ruth, 24 Dôl Afon ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y llw cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn un ar hugain.

Dymuna Mari, Gwesty'r Snowdon ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y llw cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

Dymuna Mrs Barbara Owen, Gwesty'r Snowdon ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion ac am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd.

Y CARNIFAL: Dyma weithgareddau'r wythnos - Nos Lun Gorff 7 Noson Bingo; Nos Fawrth Gorff 8 Disco'r Plant; Nos Fercher Gorff 9 Taith Gerdded; Nos Iau Gorff 10 Noson Dartiau; Nos Wener Gorff 11 Mabolgampau; Sadwrn Gorff 12 Diwrnod y Carnifal.

CLWB POBOL Y CWM: Addawodd y Parch D.R. Williams, Rheithor Plwyf Llanwnda ymweld â'r clwb ddydd Iau, Mai 29 i roi sgwrs ar ei daith i Jerusalem ond oherwydd gwaelled bu raid iddo ohirio ei addewid hyd y tymor nesaf. I lanw'r bwlch darllenodd Mr Llew Hughes rai ysgrifau allan o 'Ysgrifau Llenorion' gan John Lasarus Williams. Diolchodd y llywydd i Mr a Mrs R Parry am ofalu am y te, ac enillwyd y raffl gan Mrs E. Jones, Seiont House.

Trefnwyd Bingo ar gyfer cyfarfod olaf y tymor ddydd Iau, Mehefin 12 gyda Mrs E. Price, New Street yn galw. Rhoddwyd yr oll o'r gwobrau gan yr aelodau. Gwnaed trefniadau gogyfer â chyfraniad y Clwb i'r Carnifal ynghyd â threfniadau'r bleserdaith i Gaer ddydd Iau, Mehefin 26. Synnwyd y gwragedd

gan gymwyster y gwŷr oedd yn gyfrifol am y te a mawr oedd eu gwerthfawrogiad.

YR YSGOL GYMUNED

CWMNI'R FRÂN WEN: Bu dosbarth y Babanod yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis yn ddiweddar i weld perfformiad gan Gwmni'r Frân Wen, Cwmni Theatr Mewn Addysg Gwynedd. Mwynhawyd y bore yn fawr a gwelwyd perfformiad gwerth chweil.

PILI PALAS: Aeth disgyblion yr Adran Gynradd i Borthaethwy i ymweld â'r Pili Palas. Treuliwyd diwrnod yno a chafwyd blas arbennig ar y gweithgareddau a baratowyd ar ein cyfer gan y Parch Huw John Hughes. Cyfareddwyd y plant gan yr amrywiaeth rhyfeddol o loynnod byw, trychfilod ac anifeiliaid sydd ar gael yno.

GALA NOFIO: Bu tîm o blant lawr yng Nghanolfan Hamdden Arfon yn cystadlu yng Ngala Nofio'r Cylch. Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu.

ORIEL ERYRI: Treuliwyd prynhawn eithriadol o ddiddorol yn Oriel Eryri, Llanberis yn ddiweddar. Mae Miss Ann Roberts, sy'n gweithio yn yr Oriel, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Dr Llŷr Gruffydd, wedi cynllunio helpa natur ar droed ar ffurf y rhaglen 'Helfa Drysor'. Roedd un grŵp yn aros i mewn yn yr Oriel a'r grŵp arall yn mynd allan ar y daith. Rhoddwyd cyfarwyddiadau a chliwiau i'r grŵp hwn gan ddefnyddio Radio-llaw. Roedd yn brofiad gwerthfawr iawn gan fod gofyn sylwi'n fanwl a disgrifio'r gwrthrychau a welwyd rhag colli marciau ar yr helfa! Dysgwyd llawer iawn am fywyd gwylt yr ardal, a mawr yw ein diolch i'r Oriel am ddarparu'r cyfle.

DR BARNARDO'S: Bu cynrychiolydd o Dr Barnardo's yn siarad â ni ynglŷn â gwaith yr elusen yn yr wythdegau. Yn dilyn y sgwrs a'r ffilm, casglwyd £25 yn y pentref tuag at yr achos. Diolch i bawb a fu'n noddi.

ADRAN YR URDD, PEN LLYN

GLANLLYN: Bu criw mawr o blant yr adran yng Nglanllyn yn ddiweddar ac er gwaethaf y tywydd, cafwyd amser godidog yno. Bu Carol Houston, Howard Jones, Deiniol Evans a Dafydd Idriswyn yno gyda'r plant.

MABOLGAMPAU: Aeth tîm o'r Adran lawr i gaeau Ysgol Syr Hugh Owen ychydig wythnosau'n ôl i fabolgampau Cylch yr Urdd. Ni chafwyd fawr o lwyddiant ond cafwyd hwyl ar noson arbennig o braf. Gwell lwc y flwyddyn nesaf hwyrach!

RHYD-DDU: Aeth pymtheg o blant yr



Plant Ysgol Cwm-y-glo yn y Pili Palas, Porthaethwy gyda'r Parchedig Huw John Hughes.

adran i Ganolfan Rhyd-ddu i dreulio bwrw Sul yn niwedd Mehefin. Buwyd yn cerdded yr ardal o amgylch y pentref a chafwyd amser hyfryd iawn yno. Bu Gwyn Hefin Jones, Dafydd Idriswyn, Ifanwy Jones a Glenys Roberts yno yn gofalu am y plant.

DIOLCH: Bu plant yr adran yn gwerthu raffl yr Urdd yng Nghwm-y-glo a Brynrefail yn ystod y deufis diwethaf. Diolch i bawb a gefnogodd apêl yr Urdd trwy brynu tocyn.

CREFFTWYR CYWRAIN

Parhad o'r dudalen flaen

Yn ogystal â phren mae Len weithiau yn gweithio gyda chorn, e.e. corn maharen. Daw ar draws y cynn ym mhob man - "Rhaf yn ddigon hen i alw chi arnyn nhw!" yn ôl Carole, ei wraig. Weithiau bydd yn prynu corn byffalo sydd i'w cael ar feysydd sioeau megis Sioe Môn am £4 i £6.

Mae Len wedi gwerthu ambell i ffon

ond mae un sydd yn mynd i aros yn y cartref heb unrhyw amheuaeth, sef yr un a wnaeth ar gyfer ei ferch fach Nia.

Ers dwy flynedd mae Len wedi bod yn aelod o'r 'British Stickmakers Guild'. Mae'n awyddus iawn i glywed gan eraill yn y cylch sy'n rhannu ei ddiddordeb. Mae'n estyn gwahoddiad hefyd i unrhyw un sydd eisiau gwybodaeth ar sut i baratoi'r ffyn i gysylltu â fo.

CÔR GENETHOD LLANBERIS



Côr Genethod Llanberis a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd yn 1960. Llun gan Eifion Roberts, Becws Eryri, Llanberis

EMYR JONES

PLYMAR
PEIRIANNYDD

GWRESOGI

GWAITH
INSIWLEIDDIO

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513

**GWASANAETH
TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF**

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd
Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL**

GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF

ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH

WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

D. LL. OWEN

1 BRYN AFON
TERRACE,
LLANRUG

FFÔN
C'FON 76699

Cludo Llwythi
Bychan a Chlirio
Safleoedd
Llwythi 3 Tunnell
Hefyd Trin Gerddi a
Thorri Gwair

CYMDEITHAS HANES BRO 'ECO'R WYDDFA'

Rydym yn brysur gerdded ymlaen i ail flwyddyn y gymdeithas bellach, ac y mae'r wledd a baratowyd ar gyfer yr aelodau yn parhau yn flasus iawn. Profwyd hynny yn Ninorwig y mis diwethaf gyda noson gwerth chweil yng ngofal yr aelodau eu hunain. Daeth tua hanner cant ynghyd i gerdded o'r Allt Ddu i'r hen chwarel, ac i wrando ar Hugh Oliver Jones yn trafod gwaith y chwarel ac yn enwi'r gwahanol bonciau a chofio'r hen gymeriadau fu'n gweithio yno. Am ail hanner y noson cafwyd gwrandawriad astud wrth i Elen W. Jones adrodd atgofion am Ysgol Dinorwig ar ddechrau'r ganrif. Ein diolch hefyd am y lluniaeth a'r gân. O hyn ymlaen aelodau Dinorwig fydd yn trefnu'r tywydd ar gyfer pob cyfarfod yn yr awyr agored!!

LLYTHYR O'R RHYFEL MAWR

Derbyniwyd copi o lythyr diddorol gan Dafydd Orwig o Fethesda. Fe'i hanfonwyd i Ddinorwig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Dyma gynnwys yr holl lythyr yn ei grynsyth. Os oes rhywun a gwybodaeth am y derbynydd neu'r un a'i hysgrifennodd, byddwn yn falch o dderbyn y wybodaeth gennych. Mae'r llythyr bellach wedi ei drosglwyddo'n ddiogel i ofal yr Archifdy yng Nghaernarfon.

103 Squadron
R.A.I.,
B.E.I., France

Dydd Mawrth, 27th

F'annwyl Gyfaill,

Dyma fi o'r diwedd yn taro ati i anfon gair bach gan obeithio eich bod yn gwella.

Mae yr amser yn ehedeg yn rhyfedd ac rwyf wedi bod yn y wlad yma bum wythnos.

Does dim cymhariaeth o gwbl rhwng ehedeg yma ac ehedeg yn Lloegr. Yno byddem yn cael hwyl o grafu uwch ben pentrefi a wario ar y genod. Yma byddwn yn hofran allan o olwg dyn; ran amlaf tua'r 15000. Day bombing squadron ydyw ac mae yn reit dda hefyd. Ac wedi bod yn hynod llwys yn ddiweddar. Fodd bynnag rwyf wedi cael ambell i sgrap bur boeth er pan wyf yma.

Ni wnaeth anghofio un trip yn fuan pan wnaeth pump ar hugain o scouts y gelyn ymosod ar saith ohonom. Cawsom le poeth iawn. Roedd tua deuddeg tu ôl i mi a'r bwledi yn canu wrth basio fy nghlustiau, a minnau yn tanio cyn gyflymed ag y gallwn. Os nad oeddwn yn eu saethu roeddwn yn eu cadw draw. I wneud pethau yn waeth roedd rhai yn divio drwy'r formation. Fodd bynnag deuthum ni i gyd yn ol yn saff ond roedd Faity (?) ddau yn fyr. Roedd y wings a'n planes ninnau yn fwledi i gyd.

Hefyd ddydd Sadwrn ymosododd deg ohonynt ar bump ohonom ni ond cawsom dair ohonynt i lawr yn fflamau. Dyna'r stwff ynte!

Ni wnaiff yr Hun byth ymosod os na fydd ganddo rhyw dri am un i ni. Hefyd ni ddaw byth dros y lines yn y dydd. Fodd bynnag daeth tair drosodd ddydd Gwener diwethaf, ond dim ond un ohonynt allodd ddianc yn ol. Mae ein scouts ni yn ddigon o fatch iddynt. Mae y tywydd dipyn yn anffafriol y prynhawn yma - gormod o gymylau o gwmpas felly rydym yn cael holiday. Mae yma griw reit jolly yma ac felly dydi hi ddim yn ddwl yma.

Mae un fantais fawr gennym ni ar yr Infantry, Mae gennym ni le cyffyrddus i ddod yn ol ar ol bod ar show. Huts clyd a phopeth yn hynod hwylus.


Hefyd mae mwy o hwyl i'w gael o lawer. Pan yn cyfarfod Huns yn yr awyr nid yr un yn meddwl am y perigl o gwbl - ei gymeryd yn fwy o ryw sbort.

Golygfa go ryfedd yw o gwmpas y lines - y ddaear yn dyllau i gyd oddi wrth shells a bombs, a trefi a phentrefi yn falurion - ambell i flash i'w gweld yma ac acw a dyna'r unig beth ydym yn allu weled o'r awyr i wybod fod rhywfaint o fywyd yn y lle.

Ar ol mynd ychydig ymhellach rydym yn gwybod ar unwaith ein bod yn Hunland gan fod Archie shells yn burstio o'n cwmplas.

Peth diddorol yw gwylid y bombs yn disgyn.

Dyma ni yn gweld yr objective - rhyw station neu aerodome neu billets y gelyn - yna dyna blwc ar y toggles, a dyma'r pills yn disgyn, disgyn - yn is-is, ac yn mynd yn llai nes o'r diwedd ddiplannu. Ond ar ol ychydig eiliadau mae y burst i'w gweld ambell i waith wedi cynneu tan reit dda, neu wedi chwythu railway neu siding i fyny. Ac wrth



gwrs, bydd yn rhaid i ambell un gael disgyn mewn cae cyfagos.

Ar ol cyrraedd y lines wrth ddod yn ol byddaf fi yn cael control y machine i ddod a hi adref (ac eithrio y landing) ac rwyf yn cael hwyl reit dda arni. Chap o Yanki yw fy mhilot i ac un reit dda ydyw hefyd. Ar ol dod yn ol dyna wneud report o beth ydym wedi weld. Yna dyna newid a wash a gallwn yna fwynhau pryd da

o fwyd.

Cefais air oddi wrth Gwilym o adref heddiw. Fuasai ddim gwaeth gennyf innau gael ychydig ddyddiau o leave.

Wel does gennyf ddim ychwaneg y tro yma, ond fy nghofion cynhesaf atoch i gyd yna;

Eich ffyddlon gyfaill,
R. Emrys.

TRIP Y GYMDEITHAS HANES DYDD SADWRN 12 GORFFENNAF TRYSORAU ARCHEOLEGOL YNYS MÔN

Yng nghwmni John Llewelyn Williams, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru ymwelir a nifer o safleoedd, yn cynwys **Barclodiad y Gawres, Bryn Celli Ddu a Chaer Bryn Eryr** (sy'n cael ei chloddio ar hyn o bryd).

Enwau i'r ysgrifennydd (ffôn Caernarfon 5605) erbyn nos Fercher Gorffennaf - cofiwch am gyfarfod y Gymdeithas a gynhelir ym Mhenisarwaun y noson honno, lle bydd John Llewelyn Williams yn rhoi rhagflas o'r hyn sydd i ddod.

Amserau'r Bws

9.00 Llanberis (Post)	9.45 Llanrug (Penbont a'r Sgwar)
9.10 Cwmyglo (Post)	9.55 Tanycoed Ceunant
9.15 Brynrefail (Post)	10.00 Waunfawr (Post)
9.25 Dinorwig (Ysgol)	10.10 Caernarfon (Maes)
9.30 Deiniolen (Post)	10.20 Bethel
9.35 Penisarwaun (Llys y Gwynt)	

Dewch â brechdanau, coffi ac ati i gael picnic ar y ffordd. Dychwelir oddeutu 5 o'r gloch.

DERWYN HUGHES

Treflys
PENISARWAUN

Ffôn Llanberis
870945

Am
nenfydau
a waliau
siapus

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

J.M. JONES a'i FEIBION GWAITH CERRIG BEDDAU DEINIOLEN

(gyferbyn â'r Ysgol Gynradd)

Crefftwyr Gwaith Llaw Traddodiadol
Cerrig o Bob Math ar Gael

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

Agor Ffiniau'r Gorffennol

COFIO YSGOL UNDYDD MERCHED Y WAWR

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Ar ddydd Sadwrn o 'haf hirfelyn tesog' cawsom Ysgol-undydd (Mai 8fed, 1976) yn Y Coleg Normal, Bangor. Hon oedd y gyntaf i Ferched y Wawr, Gwynedd.

Ar ôl coffi ddeg o'r gloch y bore yn Neuadd John Phillips, cawsom anerchiad gan Mr Robin Gwyndaf o Amgueddfa Werin Sain Ffagan ar y testun "Cwlwm sy'n creu". Miss Gwyneth Evans, Cricieth oedd yn llywyddu. Hi oedd y llywydd Cenedlaethol.

Wrth gyflwyno'r siaradwr dywedodd fod y testun yn un amserol iawn. "Y mae'r cwlwm sydd rhyngom ni fel Merched y Wawr yn gryfach nag erioed," meddai.

Dywedodd Robin Gwyndaf, "Y mae'n werth i mi fod wedi dwad yma yr holl ffordd o Gaerdydd pe na bai ond i glywed Miss Evans yn siarad yr iaith Gymraeg mor glir a chroyw."

Pwy oedd y bardd a ganodd fel hyn

"Fy iaith gywain fyth a garaf
A'i theg eiriau, iaith gywiraf."

Cawsom awr a hanner o fwynhad pur yn gwrandao ar Robin Gwyndaf yn sôn am hen fierdd cefn gwlad ac am farddoniaeth a aeth ar goll ganrif yn ôl. Rhai fel John Jones, Llidiart y Mynydd, hen fugail a ffariar yn canu fel hyn - "Mae gennyf gloc
Mae o'n mynd rwan
Mi stopith toc.

Yr oedd bri ar fod yn fardd ddiweddd y ganrifddiwethaf a dechrau'r ganrif hon. Ni ellir amgyffred cyfraniad y bobl ddi-sôn amdanynt. Crwydrai William Dafis i werthu baledi. Cynyddodd diddordeb y werin mewn darllen. Soniodd am y llofft stabal a'r ysgubor fel mannau cyfarfod answyddogol mewn cymdogaeth.

Siaradodd amryw wedyn am yr hen arferion, megis gwneud cyflath a miogod, teisen siwgr, etc.

Llwyd o'r Bryn

Cododd Mrs Dwysan
Rowlands, Hendre,

Cefnddwysarn, Y Bala ar ei thraed. Yr oedd Mrs Rowlands yn ferch i'r diweddar 'Llwyd o'r Bryn'. Byddai Mrs Rowlands yn ymweld a changhennau Merched y Wawr led-led Cymru i roi arddangosfa ac i sôn am y Brethyn Cymreig.

Disgrifiodd ei thad yn mynd i lawr i stiwdio'r BBC Caerdydd i roi arddangosfa ar wneud cyflath. Wrth gychwyn cariai fag yn cynnwys y taclau i wneud cyflath, sef ffedog groesbar, y sgelet bres yr ymenyn, y triagl, a'r siwgr. Aeth i sgwrsio gyda bachgen o Bentrefoelas ar y tren, ac anghofiodd y cwbl am y bag.

Pan gyrhaeddodd y stiwdio 'roedd "y pethe" ar goll. Cafwyd nwyddau eraill o'r siop.

Yr oedd gwres y stiwdio yn andwyol a methai Llwyd o'r Bryn gael y cyflath i dewychu. Cafwyd helynt a hwyl.

Cododd Sian Williams o Dynyngogl, Ynys Môn ar ei thraed a dywedodd fod gwerth mawr ar Y Papurau Bro sydd ar gynnydd trwy Gymru. Dywedodd Suan y gallent helpu i feithrin "y gymdeithas glos" y soniai Robin Gwyndaf amdani.

Y Gwisgoedd

Yn y prynhawn cawsom anerchiad gan Dr Ilid Anthony, hefyd o Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan. Ei thestun hi oedd "Gwisgoedd yn eu cynefin". Yr oedd ganddi sleidiau gwych a chawsom awr a hanner eto o fwynhad ac addysg am yr hen wisgoedd Cymreig. Mrs. Elen Rogers Jones, yr actores oedd llywydd cyfarfod y prynhawn. Hi oedd llywydd Merched y Wawr Gwynedd.

Ar ôl te cawsom rhyw awr o adloniant gyda Pharti Rhianedd Môn, Morfudd Maesaleg ac Eirian Ardudwy, oedd wrth y delyn. Yna Mr Morien Phillips ac Alwyn Samuel yn rhoi cyfraniadau ysgafn difyr.

Mrs Marged Jones o'r Frongoch, Y Bala oedd llywydd y cyfarfod ar ol te. Yr oedd Mrs Jones yn

Gyn-lywydd Genedlaethol.

Cyflwynwyd tocyn llyfrau i Mrs N Arthur Jones, Ysgrifennydd Merched y Wawr Gwynedd, yn arwydd o'n gwerthfawrogiad o'r gwaith mawr ac effeithiol a wnaeth yn trefnu'r Ysgol undydd.

Edrychai Parti Ehianedd Môn yn hynod o hardd ar y llwyfan - sgerst las dywyll a blowsus o wahanol liwiau gan bob un. Wrth ddiolch dywedodd Mrs Roger Jones fod graen ac eneiniaid ar eu canu.

Canodd Mrs Jane Margaret Roberts y gân werin "Hen Ferchetan". Gwraig ifanc o Lanbedrgoch, Môn, a enillodd dlws coffa y diweddar Dr J Lloyd Williams, yn Steddfod Bro Dwyfor 1975 mewn cystadleuaeth Cân Werin o dan 21 "Merch ifanc aeth ben bore".

Nodwyd y gân gan Dr J. Lloyd Williams yn Nhy Mawr, Cricieth. Dois adref ym modur Mrs Mary

Vuaghan Jones, Waunfawr. Diolch i Mrs. Jones.

Y mae popeth yn dda os yw'n gorffen yn dda!!

PROFIAD MEWN YSBYTY

Cofiaf y diweddar T.W. Thomas yn dweud ei brofiad pan oedd yn Ysbyty Gallt y Sil ac yn methu cysgu'r nos. Meddai "Y mae englyn John Penry Jones, Y Foel, Trallwng, wedi disgrifio fy nheimpladau yn berffaith." Dyma'r englyn:

Gwelais chwenychu golud - ond heno

Nid dyna f'awyddfryd

Cael o afael fy nghlefyd

Nos o gwsg yw f'eisiau i gyd.

J. Penry Jones

Y Diweddar Syr Thomas Parry

Y Diweddar Syr Thomas Parry

Mae'r dewrder? Mae'r awdurdod? - Urien oedd;

Tarian wâr Cymreictod;

Gwardia'n hiaith, ni'r gwŷr di-nod,

Hector sin hysgolheictod.

Gwynn ap Gwilym

(Allan o 'Barddas' Mehefin 1985)

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

PLAID CYMRU: Cynhaliwyd helfa drysor mewn ceir nos Wener, 13 Mehefin. Yr enillwyr oedd Frank B. Jones a'r teulu. Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y gangen nos Fercher, 9 Gorffennaf yn Llety am 8 yr hwyr.

CAPEL CAEATHRO: Cynhelir y gwasanaethau canlynol yng nghapel y pentref yn ystod mis Gorffennaf: Dydd Sul, 6 pregethir gan Brython M. Davies am 2 o'r gloch; 13, D.R. Pritchard am 2 o'r gloch; 20, Aneurin Jones am 2 o'r gloch; 27, Llew Madog Jones am 2 o'r gloch. Ysgol Sul am 2 y prynhawn hefyd tan 20 Gorffennaf.

SIOE CYNHYRCHU Tŷ A GARDD: Bydd y sioe eleni eto ddydd Sadwrn, 30 Awst. Manylion gan yr Ysgrifennydd, Eric Roberts, Gerallt, Erw Wen (ffôn Caernarfon 3536).

CARNIFAL Y PENTREF: Bydd Pwyllgor y Cae Chwarae yn trefnu Carnifal unwaith eto eleni, dydd Llun, Gŵyl Awst, 25 Awst am 1.30 y prynhawn. Ar wahân i lu o stondinau a gemau bydd cystadlaethau gwisg ffansi, rasmus i blant o bob oed, a chystadlaethau tynnu rhaff. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael. Croeso i bawb.

GWELLHAD BUAN i Mrs Annie Owen, Homes, sydd yn Ysbyty Gwynedd ers cryn amser. Brysiwch adref yw'r neges gan ei ffrindiau i gyd.

LLONGYFARCHIADAU i Wenna a

John Curd, 1 Erw Wen ar enedigaeth mab bychan, David Michael.

LLONGYFARCHIADAU i dri o blant y pentref a gymerodd ran mewn cyngerdd yng Nghapel Seilo yn ddiweddar. Cafwyd noson lawen ddiddorol a phleserus iawn yng nghwmni 8 o bobl ifanc yr ardal, yn cynnwys Sharon, Gwenno ac lolo o'r pentref yma. Gwnaed elw sylweddol tuag at y deillion. Diolch o galon iddynt.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion

DYMUNWN wellhad llwyr a buan i Mrs Rhian Pritchard, Ty Isaf ar ôl ei harhosiad yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

LLONGYFARCHION i Hefin Pritchard, Ty Isaf asr ddatlu ei ben-blwydd yn 21 yn ystod y mis.

Llongyfarchion hefyd i Eifion P. Roberts, Cerrig y Drudion ar lwyddo yn ei brawf gyrru yn ddiweddar. Da iawn, Eifion.

APÊL SGANIWR: Mae'r apêl yn sefyll ar £482 ar hyn o bryd.

LLONGYFARCHIADAU i David John Pritchard, Llys Awel ar gael ei radd BA yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clocioau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd crefftau lleol eraill: crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg
Hefyd yn Siop

FFYNN A CHERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS



Y SGWÂR, LLANRUG

Ffôn Caernarfon 76772

TRIN GWALLT I BAWB

O'R TEULU GAN JEN

Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

Dyddiadur y Mis

GORFFENNAF

Mawrth 1: PENISARWAUN: Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd yr Eglwys am 7.00 (Apêl Sganydd Ysbyty Gwynedd)

Mercher 2: LLANRUG: Cangen Plaid Cymru yn yr Ysgol Gynradd am 7.30. Iau 3: CWM-Y-GLO: Taith Ddirgel Undeb y Mamau. DEINIOLEN: Cymdeithas y Chwiorydd Capel Disgwylfa.

Gwener 4: WAUNFAWR: Ffair Haf er budd Sganydd i Ysbyty Gwynedd yn y Ganolfan am 6.30.

PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.

DEINIOLEN: Gwibdaith Sefydliad y Merched. ARDAL: Cyngerdd yn Ysgol Brynrefail gan fuddugwyr y cylch yn Eisteddfod yr Urdd, Dyffryn Ogwen.

Sadwrn 5: LLANRUG: Trip Ysgol Sul Capel Mawr i Butlins.

PENISARWAUN: Triplau yr Ysgolion Sul i Rhyl. LLANBERIS: Triplau yr Ysgolion Sul i Rhyl. BETHEL: Trip Ysgol Sul Capel Bethel i Butlins. Trip Ysgol Sul Cysgr i Southport.

BRYNREFAIL: Trip Ysgol Sul i Lerpwl. WAUNFAWR: Trip Ysgol Sul i Butlins.

Gorffennaf 6-12: WYTHNOS

GARNIFAL PENISARWAUN

Gorffennaf 7-12: WYTHNOS

GARNIFAL CWM-Y-GLO, WYTHNOS GARNIFAL DEINIOLEN.

Sul 6: PENISARWAUN: Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen am 8.00. WAUNFAWR: Rali Plaid Cymru 'Cofio Penberth'.

Llun 7: PENISARWAUN: Bingo

Carnifal. CWM-Y-GLO: Bingo'r

Carnifal. DEINIOLEN: Chwaraeon y

Carnifal.

Mawrth 8: PENISARWAUN: Gemau Giamocs. CWM-Y-GLO: Disgo i'r Plant. DEINIOLEN: Pêl-droed 5 bob ochr.

Mercher 9: PENISARWAUN: Noson i'r Plant. CWM-Y-GLO: Taith Gerdded. DEINIOLEN: Cyngerdd yn Festri Ebeneser am 7.00.

CAEATHRO: Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Cangen Plaid Cymru yn Llety am 8.00.

Iau 10: PENISARWAUN: Mabolgampau. CWM-Y-GLO: Noson Dartiau. DEINIOLEN: Disgo

Awyr-agored yn lard yr Ysgol Feithrin am 6.30. WAUNFAWR: Trip yr Ysgol Feithrin i Sw Bae Colwyn. BETHEL: Helfa Drysor yr Urdd.

Gwener 11: PENISARWAUN: Disgo i blant y pentref yn unig. CWM-Y-GLO: Mabolgampau. DEINIOLEN: Pronto i blant yn y Caban am 6.00. Trip yr Ysgol Feithrin i Glantraeth.

LLANBERIS: Te yr Henoed. WAUNFAWR: Helfa Drysor er budd yr Ysgol Feithrin.

Sadwrn 12: PENISARWAUN: Carnifal. CWM-Y-GLO: Carnifal.

DEINIOLEN: Carnifal, Parti'r Carnifal yng Nghlwb Eryri, Penisarwaun, Helfa Drysor Cangen Plaid Cymru. Gorffennaf 13-19: WYTHNOS GARNIFAL LLANBERIS.

Sul 13: LLANBERIS: Noson o Gân yng Nghapel Coch am 8.00.

Llun 14: DEINIOLEN: Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor Eglwys yn Festri Ebeneser am 7.00.

Mawrth 15: PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen. ARDAL: Ysgolion yn cau am Wyliau'r Haf.

Iau 17: LLANRUG: Cymdeithas y Chwiorydd Capel Pontrhyallt.

Gwener 18: ARDAL: Cyngerdd yn Ysgol Brynrefail gyda Seindorf leuencid Llanrug a Seindorf Chwyth Ysgol Dinas Brân, Llangollen.

PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.

Sadwrn 19: WAUNFAWR: Barbaciw a Thaith Ddirgel Cangen Plaid Cymru. LLANBERIS: Carnifal a Ras yr Wyddfa.

Iau 24: PENISARWAUN: Trip Clwb yr Heulwen i'r Bermo.

Gwener 25: LLANBERIS: Te yr Henoed.

Mawrth 29: WAUNFAWR: Plaid Cymru - Diwrnod ar Ynys Enlli.

DYDDIADAU I'W COFIO

Awst 15 ac 16: Ymryson Cŵn Defaid Betws Garmon.

Awst 23: Noson Gymdeithasol ym Mhenisarwaun.

Awst 25: Carnifal Caeathro.

Awst 30: Sioe Cynnyrch Tŷ a Gardd yng Nghaeathro.

Medi 2: Yr ysgolion yn ail-ddechrau.

HEN AC IFANC

Diffoddodd goleuadau llachar y disco ym Mron Eryri, Llanberis. Ond colled yr ifanc yw ennill y rhai hŷn. Bellach mae'r perchnogion Alfie a Sylvia Hughes wedi troi'r gwesty yn gartref moethus, clyd a diogel i'r henoed. Nid ar chwarae bach y gwnaed hynny. Treuliwyd 18 mis yn gwella'r rhagofalon tân, yn gosod sustem galw nyrs a gwres canolog a reolir gan gyfrifiadur.

Bu'r teulu Hughes ym Mron Eryri ers 1928 pan sefydlodd Huw Hughes, taid Alfie ei fusnes llefrith. Bydd holl staff y cartref newydd yn medru siarad Cymraeg ac un nodwedd wahanol i'r arfer yw y bydd Bron Eryri yn cynnig gwasanaeth Gofal Dydd, yn cynnwys cinio poeth rhad dros ben i henoed y pentref nad ydynt yn preswyllo yn y cartref.

Atebion Croesair Mehefin

Ar Draws: 1. Tebot 2. Tatws 8. Arwyr 9. Ifanc 10. Ymuno 11. Larwm 12. Inc 13. Ni 14. Sonedwr 18. Uwd 19. Ond 21. Iselder 25. Cu 26. Isa 28. Tranc 29. Baner 30. Organ 31. Yn awr 32. Neges 33. Dychan.

llawr: 1. Tridiau 2. Blancedi 3. Taclus 4. Gwerin 5. Trymed 6. Truth 7. Stori 15. Oel 16. Ebe 17. Robin goch 20. Draenog 22. Estrys 23. Dianaf 24. Record 25. Coban 27. Unig.

Enillydd: Mrs J.M. Jones, 21 Tal-y-Bont, Llanrug.



Fyddwn i ddim wedi hoffi cyfarfod y drychiolaeth hwn-hon yng nghanol nos — ond roedd yn haws dygymod â Draciwla ar bawn Sadwrn braf yng Ngharnifal Llanrug.

YN EISIAU

Rhywun i fod yn gyfrifol am y Croesair. Cysyllter â'r golygydd.



CARTREF HENOED PRESWYL

BRON ERYRI

LLANBERIS 870142 (dydd a nos)

Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys:

**GOFAL 24 AWR • SUSTEMAU GALW NYRS • GWRES CANOLOG
DRWY'R ADEILAD • YR HOLL STAFF YN SIARAD CYMRAEG
RHAGOFALON TÂN • GOFAL DYDD • 2 LOLFA EFO TELEDU
LLIW • GOLYGFYDD GWYCH**

Ymholiadau i'r perchnogion

**Mr a Mrs Alfie Hughes neu'r
Matron: Mrs Eirian Mali SRN**

Cymeradwywyd gan Wasanaethau
Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd



CHWARAEON

Mae'n braf bod â gofal am y dudalen ôl unwaith eto, ar ôl 'gwylliau' reit hir. Diolch i'r rhai fu'n gofalu amdani yn y cyfamser.

Apêl sydd gen i, yr un apêl ag a ymddangosodd yn un o rifynnau cynta'r Eco. Apêl am wybodaeth, manylion o weithgareddau'r holl gymdeithasau sydd â chysylltiad â chwaraeon o unrhyw fath. Chwi'r Clybiau Pêl-droed, wnewch chwi benodi rhywun i gysylltu â mi'n fisol? Chwithau hefyd y cymdeithasau gwyddbwyll, noffio, codi pwysau, dartiau, saethu, a.y.y.b. Does dim angen traethawd - y ffeithiau noeth, dyna'r cyfan, fe wna i'r gweddill. Gobeithiaf y bydd y cysylltwyr Snwcer a Physgota yn parhau â'u hadroddiadau, mae eu cyfraniadau'n dderbyniol dros ben. Gwelwch fy nghyfeiriad a'm rhif ffôn ar yr ail dudalen.

CRICED BATIO DROS GYMRU

Mae'n bleser cael adrodd fod bachgen o Lanrug, disgybl 5ed dosbarth yn Ysgol Brynrefail wedi ei ddewis i gynrychioli ei wlad ar y maes Criced.

Pymtheg oed yw Stiward Williams (mab Huw Harry, sy'n dipyn o cricedwr ei hun), a chaiff ei gap yn y gêm dan 16 oed yn erbyn Pakistan ar faes St. Helens, Abertawe ar Fehefin 30fed.

Batiwr ydi Stiward yn bennaf ond y mae hefyd yn faeswr rhagorol. Mae'n chwarae'n rheolaidd i Glwb Criced Bethesda, a does dim yn rhoi mwy o bleser iddo na throi allan i helpu tîm athrawon Ysgol Brynrefail. Mae'n beldroediwr addawol, a deallaf hefyd ei fod yn dipyn o foi ar y bwrdd Snwcer, ac yn ymddiddori mewn golff.

Tipyn o 'all rounder' ond y mae ei draed yn saff ar y ddaear, ac ni fydd angen cap mwy na'r cyffredin i ffitio pen hwn.

Llongyfarchiadau Stiward, a bob lwc i ti.



PYSGOTA

NEWYDDION CYMDEITHAS BYSGOTA SEIONT, GWYRFAI A LLYFNI

Mae'n siŵr bod pawb wedi dal sylw at y gwaith sydd wedi ei wneud i lanhau'r afon Seiont, a'r gamfa newydd a osodwyd yng Nghrawia. Hefyd gwelir fod rhai arwyddion wedi eu gosod yn yr ardal. Gobeithio caiff rhain lonydd gan fod difrod wedi ei wneud i'r rhai cynt. Mae'n ofid mai yn ardal Llanrug yn unig y digwydd difrod o'r math.

Ar nodyn ysgafnach mae yr afonydd wedi dal eu cyflenwad o ddŵr yn dda ac mae pysgota brithyll wedi bod yn well nac arfer gyda Llyn Padarn eto wedi rhoddi nifer o bysgod eithriadol o dda ar adegau.

Cynnar braidd yw son am eog a siwyn ond y mae rhai wedi gwrthio eu hunain i fyny'r afonydd, a chyn belled ag y gwn mae un eog 11pwys a hanner wedi ei ddal yng Nglan Gwna. Mae son hefyd am un 8 pwys wedi ei ddal yn Afon Llyfni, ac am eraill wedi eu bachu ond yna eu colli yn yr un afon. Gobeithiwn gael newyddion am lawer mwy wedi eu dal y mis nesaf gan fod y gwaith adnewyddu ac atgyweirio'r pyllau o Bontllyfni i'r môr ar dro.

LLINELLWR Y TYMOR



Iwan Roberts o Gaeathro yn arddangos y tîws yr enillodd am fod yn brif llinellwr Gogledd Cymru Am dymor peldroed 1985-86.

DARTIAU

Llongyfarchiadau i Wendy Morris a Mathew Ward, y ddau o Lanrug, am ennill y tîwsau i rai dan 16 oed yng nghystadleuaeth Carnifal y pentref.

Deallaf fod cryn gystadlu wedi bod yn ystod y noson, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hafan Elen ar Fehefin 19eg, gyda phlant mor ifanc ag 11 oed yn dangos eu dawn.

Patrick McGuinness ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth yr hogia, y gwrthwyneb i'r hyn ddigwyddodd y llynedd, pan fu Pat yn drech na Mathew. Lona Roberts oedd gwrthwynebydd Wendy yn ei 'ffeinal' hi.

Diolch i'r trefnwyr am baratoi noson ar gyfer y plant.

CARNIFAL LLANBERIS



Nos Sul Gorffennaf 13

NOSON O GÂN

Capel Coch am 8.00 o'r gloch

CÔR MEIBION MAELGWN

Arweinydd:- R. Davy Jones

Organyddion:- Hugh Peris Pritchard a

Mrs Iona Jones

Mynediad 50c

Nos Lun Gorffennaf 14

GYRFA CHWIST

Y Ganolfan am 7.30 o'r gloch

CYSTADLEUAETH PŴL

Gwesty Prince of Wales am 8.00 o'r gloch

Nos Fawrth Gorffennaf 15

MABOLGAMPAU

Ddôl y Goeden 5.45 o'r gloch

Mynediad am ddim

CYSTADLEUAETH CWIS

Clwb y Grosvenor am 8.30 o'r gloch

Nos Fercher Gorffennaf 16

CYSTADLEUAETH DARTIAU

Gwesty Dolbadarn am 8.00 o'r gloch

DISGO PLANT IAU

(Plant Ysgol Gynradd)

Y Ganolfan am 6.00-10.30 o'r gloch

Mynediad 20c

DISCO PLANT HŶN

(Plant Ysgol Uwchradd)

Y Ganolfan am 8.00-10.30 o'r gloch

Mynediad 30c

Nos Iau Gorffennaf 17

PÊLDROED 5 YR OCHR, PÊLD RWD

Ddôl y Goeden am 6.00 o'r gloch

Mynediad am ddim

Nos Wener Gorffennaf 18

BINGO

Y Ganolfan am 7.30 o'r gloch



Dydd Sadwrn Gorffennaf 19

Y CARNIFAL

Yr Orymdaith i gychwyn o Swyddfa'r

Post am 12.30 o'r gloch

Ceffylau, Dawnsywyr Morus, Hufen Ia, Cŵn

Poeth, Hen Geir, Bargeinion Llu, Llundiaeth,

Gemau Fil

Seindorf Arian Llanberis a Deiniolen yn arwain yr orymdaith

Mynediad i'r cae - 50c; Plant a Phensiynwyr 25c



RAS

YR WYDDFA

Cychwyn o Bont Glan y Bala

am 3.30 o'r gloch

